ASA

Prifysgol Morgannwg

TACHWEDD 2008

Adolygiad sefydliadol

RG 416 04/09

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2009

ISBN 978 1 84482 932 3

Mae holl gyhoeddiadau'r ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Rhagair

Pwrpas yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA) yw diogelu diddordeb y cyhoedd mewn cymwysterau addysg uwch (AU) o safon gadarn ac annog gwelliant parhaus yn y ffordd y mae ansawdd AU wedi'i reoli.

I wneud hyn, mae ASA yn gwneud adolygiadau o sefydliadau AU unigol (prifysgolion a cholegau AU). Yng Nghymru, rydym yn adnabod y broses hon fel adolygiad sefydliadol. Mae ASA yn gweithredu prosesau tebyg, ond ar wahân, yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Pwrpas Adolygiad Sefydliadol

Amcan Adolygiad Sefydliadol yw diwallu'r angen sydd gan y cyhoedd am gael gwybod yn sicr bod prifysgolion a cholegau yn:

- darparu cymwysterau a dyfarniadau AU o ansawdd derbyniol ac o safon academaidd briodol
- arfer eu galluoedd cyfreithiol i ddyfarnu graddau yn y ffordd gywir.

Barn yr adolygiad

Mae Adolygiad Sefydliadol yn rhoi barn am y sefydliadau y mae'n eu hadolygu. Mae'n rhoi barn am:

- ba mor hyderus y gallwch fod o gadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd ei raglenni a safonau academaidd ei ddyfarniadau.
- faint y gallwch ddibynnu'n rhesymol ar gywirdeb, cyfanrwydd a gonestrwydd yr wybodaeth y mae'r sefydliad yn ei chyhoeddi, ac ar ansawdd ei raglenni a safonau ei ddyfarniadau.

Mae'r adolygiad yn mynegi eu barn fel naill ai hyderus, hyder cyfyngedig neu ddim hyder ac mae'n rhoi esiamplau o arferion da ac argymhellion ar gyfer gwella.

Safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol

Mae Adolygiad Sefydliadol yn defnyddio cyfres o bwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, sy'n dwyn y teitl 'Seilwaith Academaidd', i ystyried safonau ac ansawdd sefydliad. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan ASA ac maen nhw'n cynnwys:

- *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) sy'n cynnwys disgrifiadau o wahanol gymwysterau AU
- Y *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch*
- datganiadau meincnod pynciau, sy'n disgrifio nodweddion graddau mewn gwahanol bynciau
- *Canllawiau ar gyfer paratoi manylebau rhaglenni*, sef disgrifiadau o'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr mewn rhaglenni astudio unigol. Maen nhw'n amlinellu pa wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a nodweddion fydd gan fyfyriwr sy'n cwblhau'r rhaglen honno. Maen nhw hefyd yn rhoi manylion y dulliau addysgu ac asesu ac yn cysylltu'r rhaglen gyda'r FHEQ.

Y broses adolygu

Mae timau o bobl academaidd yn gwneud yr adolygiadau sefydliadol ac maen nhw'n adolygu'r ffordd y mae sefydliadau'n goruchwylio eu safonau a'u hansawdd academaidd. Am eu bod nhw'n gwerthuso eu cymheiriaid, enw'r broses yw 'adolygiad cymheiriol'.

Dyma brif elfennau Adolygiad Sefydliadol:

- ymweliad cyntaf gan ASA â'r sefydliad naw mis cyn yr ymweliad adolygu
- dogfen hunan-werthusiad wedi'i chyflwyno gan y sefydliad bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- cyflwyniad ysgrifenedig gan gorff cynrychioli'r myfyrwyr, os ydynt wedi dewis gwneud un, bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- ymweliad briffio manwl â'r sefydliad gan y tîm adolygu bum wythnos cyn yr ymweliad adolygu
- yr ymweliad adolygu, sy'n para pum diwrnod
- cyhoeddi adroddiad ar farn a chanfyddiadau'r tîm adolygu 22 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y dystiolaeth ar gyfer yr ymweliad

Er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth ar gyfer ei feirniadaeth, mae'r tîm adolygu'n gwneud nifer o bethau, yn cynnwys

- adolygu dogfennau a threfnau mewnol y sefydliad ei hun, megis rheoliadau, datganiadau polisi, codau ymarfer, cyhoeddiadau recriwtio a chofnodion cyfarfodydd perthnasol, yn ogystal â'r ddogfen hunan-werthuso ei hun
- adolygu'r cyflwyniad ysgrifenedig gan y myfyrwyr
- gofyn cwestiynau i staff perthnasol
- siarad â myfyrwyr am eu profiadau
- archwilio sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd.

Mae'r tîm adolygu hefyd yn casglu tystiolaeth drwy ganolbwyntio ar esiamplau o brosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad ar waith gan ddefnyddio 'llwybrau thematig'. Gall y llwybrau yma ganolbwyntio ar ba mor dda mae prosesau sefydliadol yn gweithio mewn lleoliadau arbennig a thrwy'r sefydliad yn gyffredinol.

Rhaid i sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd a safonau eu rhaglenni a'u dyfarniadau mewn fformat sydd wedi'i argymell yn y ddogfen 04/05 *Gwybodaeth am ansawdd a safonau mewn addysg uwch*, sydd wedi'i chyhoeddi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cynnwys

Crynodeb **1**

Cyflwyniad **1**

Canlyniad yr adolygiad 1
Nodweddion yr arferion da 1
Argymhellion ar gyfer gweithredu 2
Pwyntiau cyfeirio cenedlaethol 2

Y prif adroddiad **3**

Adran 1: Cyflwyniad – Prifysgol Morgannwg **3**

Y sefydliad a'i genhadaeth 3
Darpariaeth gydweithredol 4
Gwybodaeth gefndirol 4
Y broses adolygu 5
Datblygiadau ers yr archwiliad ansawdd academaidd blaenorol 5

Adran 2: Ymchwiliadau'r adolygiad – prosesau'r sefydliad **6**

Fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau, yn cynnwys darpariaeth gydweithredol 6
Bwriadau'r sefydliad ar gyfer gwella ansawdd a safonau 9
Prosesau mewnol i gymeradwyo, monitro ac adolygu 10
Cyfranogaeth allanol mewn prosesau adolygu mewnol 14
Gweithdrefnau ac arferion asesu 16
Arholwyr allanol a'u hadroddiadau 19
Pwyntiau cyfeirio allanol 21
Adolygiad ac achrediad lefel rhaglen gan gyrff allanol 22
Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel weithredol a sefydliadol 23
Gweithdrefnau'r myfyrwyr ar gyfer gwneud cwynion ac apeliadau 25
Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr 27
Derbyniad myfyrwyr a'r defnydd sydd wedi'i wneud o'r ystadegau cwblhau a chynnydd 28
Sicrhad o ansawdd y staff addysgu: penodiad, gwerthusiad a gwobrwyo 30
Sicrhad o ansawdd y staff addysgu: cefnogaeth a datblygiad staff 32
Sicrhad o ansawdd yr addysgu sydd wedi'i ddarparu drwy ddulliau dysgu o bell a dulliau dosranedig 33
Adnoddau cefnogi dysgu 35
Arweiniad, cefnogaeth ac arolygiad academaidd 37
Cefnogaeth ac arweiniad personol 39
Darpariaeth gydweithredol 40

Adran 3: Ymchwiliadau'r adolygiad – gwybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi **46**

Profiad y myfyrwyr o wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi a'r wybodaeth arall sydd ar gael iddynt 46
Pa mor ddibynadwy, cywir a chyflawn yw'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi 48

Canfyddiadau **49**
Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau ansawdd y rhaglenni 49
Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau safon y cymwysterau 51
Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu 53
Cyfranogiad allanol mewn trefniadau sicrwydd ansawdd mewnol 54
Defnydd y sefydliad o gyferbwyntiau cenedlaethol 55
Sylwadau am fwriadau'r sefydliad i wella ansawdd a safonau 55
Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth 56
Defnyddio'r ddogfen hunanwerthusiad i ddangos gallu'r sefydliad i adlewyrchu ar ei gryfderau a'i gyfyngiadau ei hun, ac i ddefnyddio'r canfyddiadau i wella ansawdd a safonau 56
Nodweddion yr arferion da 57
Argymhellion ar gyfer gweithredu 57

Atodiad **58**
Ymateb Prifysgol Morgannwg i'r adroddiad ar yr Adolygiad Sefydliadol 58

Crynodeb

Cyflwyniad

Ymwelodd tîm o adolygwyr o'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) â Phrifysgol Morgannwg (y Brifysgol) o 24 i 28 Tachwedd 2008 i gynnal Adolygiad Sefydliadol. Pwrpas yr adolygiad yma oedd rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd y cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ac am safonau academaidd y dyfarniadau y mae'r Brifysgol yn eu cynnig. I ddod i'w gasgliad, siaradodd y tîm ag aelodau o staff drwy'r Brifysgol gyfan ac â myfyrwyr. Hefyd, darllenodd amrywiaeth mawr o ddogfennau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli agweddau academaidd ar ei darpariaeth. Mae'r geiriau 'safonau academaidd' wedi'u defnyddio i ddisgrifio lefel y cyrhaeddiad y mae'n rhaid i fyfyriwr ei chyrraedd er mwyn ennill dyfarniad (er enghraifft, gradd). Dylai fod ar lefel debyg drwy'r Deyrnas Unedig (DU) gyfan.

Mae ansawdd academaidd yn ffordd o ddisgrifio i ba raddau mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu helpu i ennill eu dyfarniad. Mae'n ymwneud â sicrhau bod addysgu, cefnogaeth, asesiad a chyfleoedd dysgu priodol wedi'u darparu iddynt. Mewn Adolygiad Sefydliadol mae'r safonau academaidd a'r ansawdd academaidd wedi'u hadolygu.

Canlyniad yr adolygiad

O ganlyniad i'w ymchwiliadau, barn y tîm adolygu am y Brifysgol yw bod:

- modd teimlo'n hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd ei raglenni a safonau academaidd ei ddyfarniadau.

Nodweddion yr arferion da

Aeth y tîm adolygu ati i bennu'r meysydd yma fel arferion da:

- y mecanweithiau sydd ar waith i gynnal safonau academaidd y dyfarniadau ymhob sefydliad partner
- cryfhau cynrychiolaeth y myfyrwyr, yn arbennig drwy rolau Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr
- aliniad clir o'r prosesau yn ymwneud â phenodi, cefnogi a datblygu staff gydag amcanion strategol y Brifysgol
- yr ymrwymiad cryf i ystod o wasanaethau i gefnogi a gwella profiad y myfyrwyr.

Argymhellion ar gyfer gweithredu

Mae'r tîm adolygu yn ystyried y byddai'n ddoeth i'r Brifysgol:

- sicrhau bod yr arolygiaeth sefydliadol o'r canlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur
- adolygu prydlondeb arwyddo'r Memoranda Dealltwriaeth gyda phartneriaid cydweithredol er mwyn sicrhau bod trefniadau cytundebol yn eu lle cyn i fyfyrwyr ar raglenni cydweithredol gael mynediad
- sicrhau cysondeb arferion drwy'r ddarpariaeth gydweithredol gyfan yn unol â gofynion sicrhau ansawdd y Brifysgol.

Mae'r tîm adolygu yn ystyried y byddai'n ddymunol i'r Brifysgol:

- gadw datblygiad arferion y gyfadran dan arolygiad er mwyn gwella profiad y myfyriwr ymhellach.

Pwyntiau cyfeirio cenedlaethol

Er mwyn darparu tystiolaeth bellach i gefnogi ei ganfyddiadau, aeth y tîm adolygu ati hefyd i archwilio'r ffordd mae'r Brifysgol yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd y mae ASA wedi'i ddatblygu ar ran holl gyrff addysg uwch DU. Mae'r Seilwaith Academaidd yn gyfres o bwyntiau cyfeirio sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol sy'n helpu i ddiffinio arferion da a safonau academaidd. Mae darganfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu bod y Brifysgol yn gwneud defnydd llawn ac effeithlon o gyferbwyntiau allanol gan gynnwys y Seilwaith Academaidd, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn hyrwyddo gweithredu polisïau addysg uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y prif adroddiad

Adran 1: Cyflwyniad – Prifysgol Morgannwg

1 Cynhaliwyd Adolygiad Sefydliadol o Brifysgol Morgannwg (y Brifysgol) rhwng 24 ac 28 Tachwedd 2008. Amcan yr adolygiad oedd rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd rhaglenni astudio'r Brifysgol ac am safonau academaidd ei dyfarniadau.

2 Cyflawnwyd yr adolygiad gan ddefnyddio proses a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) mewn partneriaeth â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). I sefydliadau yng Nghymru, mae'n cymryd lle'r broses flaenorol o Adolygiad Parhad, oedd yn cael ei gyflawni gan ASA ar gais Prifysgolion Prydain (UUK) a Chynhadledd Sefydlog y Penaethiaid (SCOP). Mae'r Adolygiad Sefydliadol hefyd yn cymryd lle asesiadau a gweithrediadau sy'n gysylltiedig ag ansawdd a safonau darpariaeth ar lefel y pwnc. CCAUC oedd yn gwneud y cyntaf ac ASA oedd yn gwneud yr olaf ar ran CCAUC fel rhan o gyfrifoldeb statudol CCAUC am asesu ansawdd yr addysg mae'n ei chyllido.

3 Roedd yr adolygiad yn gwirio pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer sefydlu a chynnal safonau ei dyfarniadau academaidd; ar gyfer adolygu a gwella ansawdd y rhaglenni astudio sy'n arwain at y dyfarniadau hynny; ac ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ddibynadwy. Roedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys yr holl ddarpariaeth a threfniadau cydweithredol sy'n arwain at ddyfarniadau Prifysgol Morgannwg.

Y sefydliad a'i genhadaeth

4 Cychwynnodd y Brifysgol ei bywyd fel Ysgol y Mwynfeydd a sefydlwyd yn 1913 cyn dod yn Goleg Polytechnig Morgannwg. Yn ddiweddarach daeth yn Goleg Polytechnig Cymru ac yn 1992 cafodd ei dynodi'n Brifysgol Morgannwg.

5 Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar bum campws yn Ne-Ddwyrain Cymru. Mae dau ym Mhontypridd: Campws Trefforest sy'n cynnwys Ysgol Busnes Morgannwg, Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Gwyddonol, a'r Gyfadran Technoleg Uwch; a Champws Glyntaf lle mae'r Gyfadran Iechyd, Chwaraeon a Gwyddoniaeth wedi'i seilio. Mae dau gampws yng Nghaerdydd: yr ATRiuM, canolfan ddysgu uwch a newydd, a agorwyd ym mis Medi 2007 ar gyfer Ysgol Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol Caerdydd, a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD) a ymunodd â'r Brifysgol mewn 'cynghrair strategol' ar 1 Ionawr 2007.

6 Er bod hwn yn is-gwmni y mae'r Brifysgol yn berchen arno'n gyfan gwbl, mae'r RWCMD yn cadw ei enw a'i hunaniaeth amlwg fel conservatoire cenedlaethol. Mae'n gweithredu fel petai'n gyfadran i'r Brifysgol, gyda'r un pwerau a chyfrifoldebau â chyfadrannau eraill, ac mae'n atebol i reoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer safonau ac ansawdd academaidd. Mae myfyrwyr wedi bod yn dilyn rhaglenni Prifysgol o fis Medi 2007, gyda dyfarniadau'r sefydliad dyfarnu blaenorol yn cael eu graddol ddiddymu.

7 Cafodd Coleg Merthyr Tudful, oedd yn bartner cydweithredol â'r Brifysgol gynt, ei gyfuno â hi ym mis Mai 2006, a daeth yn sail i Gyfadran Addysg Bellach sy'n gweithredu yn yr un ffordd â'r cyfadrannau eraill. Yr enw ar gyfer y grŵp sy'n

cynnwys y Brifysgol, RWCMD a Choleg Merthyr Tudful yw 'Grŵp Morgannwg'. Ar amser yr adolygiad, roedd y Brifysgol yn cyflogi tua 1,800 o staff, yn cynnwys 400 o staff yn RWCMD a Choleg Merthyr Tudful. Roedd hefyd 21,496 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyfer dyfarniadau Prifysgol, yn cynnwys 10,227 o fyfyrwyr israddedig llawn amser a 8,013 rhan amser; roedd 1,393 o fyfyrwyr llawn amser a 1,863 o rai rhan amser ar raglenni ôl-radd, yr oedd 430 ohonynt yn fyfyrwyr ymchwil. Roedd gan y Brifysgol oddeutu 3,714 o fyfyrwyr Undeb Ewropeaidd (UE) a rhyngwladol sy'n gyfatebol ag 16.8 y cant o'r garfan myfyrwyr.

8 O'i ddyddiau cynharaf fel Ysgol y Mwynfeydd yn Nhrefforest, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n gryf bob amser i gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol, ac mae ei chyflawniadau mewn ehangu mynediad ac ymestyn ymgysylltiad cymdeithasol wedi'u cydnabod yn eang yng Nghymru. Roedd dogfen hunanwerthusiad (SED) y Brifysgol yn nodi bod y Brifysgol a'i phartneriaethau cydweithredol wedi gwneud cyfraniadau mawr i gyflawniad targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ehangu cyfranogaeth a chynhwysiad cymdeithasol.

Darpariaeth gydweithredol

9 Mae gan y Brifysgol hanes hir o bartneriaethau cydweithredol ac, ar amser yr Adolygiad Sefydliadol, roedd ganddi 3,333 o fyfyrwyr mewn sefydliadau partner, sef oddeutu 14.7 y cant o'r garfan myfyrwyr gyfan. Roedd mwy na 3,000 o'r rhain mewn colegau addysg bellach (Colegau AB) yng Nghymru, lle mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gydweithredol wedi'i lleoli. Mae'r partneriaethau yma'n chwarae rhan arwyddocaol iawn mewn cyflawni amcanion strategol y Brifysgol ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch. O'i 15 o bartneriaid Colegau AB mae tair wedi'u dynodi'n golegau wedi'u hachredu. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydweithredu gyda dau goleg preifat ac 11 sefydliad hyfforddi yn y DU. Mae ganddi 43 o bartneriaid Ewropeaidd, a'r mwyafrif yn Ffrainc, yr Almaen ac Iwerddon; a 25 o bartneriaethau rhyngwladol, yn arbennig yng Nghanada, Tsieina, Hong Kong, Malaysia a Singapore (gwelwch baragraff 199).

Gwybodaeth gefndirol

10 Roedd yr wybodaeth ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys:

- gwybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan y Brifysgol
- adroddiad Archwiliad Ansawdd, Medi 2000
- adroddiad Adolygiad arbennig ASA o raglenni graddau ymchwil, 2006 (heb ei gyhoeddi)
- dogfen hunanwerthusiad y Brifysgol ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol
- cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr
- dogfennau cefnogol yn gysylltiol â'r ddogfen hunanwerthusiad.

11 Cafodd y tîm adolygu fynediad hefyd at ystod o ddogfennau mewnol y Brifysgol, gan gynnwys dogfennau'n ymwneud â'r llwybrau thematig a ddewiswyd gan y tîm.

Y broses adolygu

12 Talodd ASA ymweliad rhagarweiniol â'r sefydliad ym Mawrth 2008 i drafod agweddau ymarferol yr adolygiad. Derbyniodd ASA y ddogfen hunanwerthusiad ar 1 Medi 2008.

13 Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol o 14 i 16 Hydref 2008 i ymchwilio, ar y cyd gyda'r Is-Ganghellor, aelodau uwch y staff a chynrychiolwyr myfyrwyr, i faterion yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau oedd yn codi o'r ddogfen hunanwerthusiad a dogfennau eraill a ddarparwyd ar gyfer y tîm. Yn ystod yr ymweliad briffio, nododd y tîm nifer o themâu ar gyfer yr ymweliad adolygu a pharatowyd rhaglen o gyfarfodydd wedi'i chytuno gyda'r Brifysgol.

14 Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 24 a 28 Tachwedd 2008, pan gafwyd cyfarfodydd pellach gyda staff a myfyrwyr y Brifysgol. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys yr Athro T Cryer, Mr A Hunt, yr Athro D Meehan, Dr C Vielba, a Mr T Platt, ysgrifennydd yr adolygiad. Cydlynwyd yr adolygiad ar gyfer ASA gan Mrs E Harries Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Grŵp Adolygiadau.

Datblygiadau ers yr archwiliad ansawdd academaidd blaenorol

15 Gwnaeth ASA archwiliad o'r Brifysgol yn 2000. Cafwyd pedwar argymhelliad 1 'byddai'n fuddiol' yn ymwneud â strwythur pwyllgorau'r sefydliad, monitro blynyddol, rheoli arholi allanol a system prawf y staff. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith i ymdrin â hyn wedi para dros y cyfnod o 2000 gyda rhagor o newidiadau'n digwydd ar ôl penodi'r Is-Ganghellor presennol yn 2005. Mae strwythur y sefydliad, y pwyllgorau a'u llinellau adrodd wedi'u hadolygu a'u diwygio (gwelwch baragraff 23). Cafwyd newidiadau i'r broses fonitro flynyddol, yn arbennig ei hamseriad (gwelwch baragraff 50). Mae systemau newydd ar gyfer olrhain a rheoli adroddiadau arholwyr allanol wedi'u rheoli erbyn hyn gan y Swyddfa Ansawdd a Pholisi (gwelwch baragraff 92). Mae trefniadau prawf staff wedi'u hadolygu; mae'n rhaid i staff academaidd sy'n newydd i ddysgu gyflawni Tystysgrif Ôl-radd mewn Dysgu ac Addysgu erbyn hyn (gwelwch baragraff 147).

16 Ers yr archwiliad diwethaf, gwnaeth ASA Adolygiad o raglenni graddau ymchwil yn 2005-06; ni chynhyrchodd unrhyw broblemau mawr i'r Brifysgol fynd i'r afael â nhw (gwelwch baragraff 106).

17 Ar amser yr Adolygiad Sefydliadol, roedd dau o Golegau AB partner y Brifysgol wedi derbyn Adolygiadau Datblygiadol ASA. Yn ddiweddar mae'r Pwyllgor Archwilio Ansawdd (QAC) wedi ystyried adroddiadau'r adolygiadau yma ac wedi nodi bod canlyniadau'r ddau adolygiad yn bositif (gwelwch baragraff 106).

18 Roedd y ddogfen hunanwerthusiad yn crynhoi'r newidiadau eang iawn sydd wedi digwydd yn y Brifysgol ers penodiad yr Is-Ganghellor yn 2005. Cafodd blaenoriaethau strategol y Brifysgol eu hail-ddiffinio, gyda ffocws arbennig ar brofiad dysgu'r myfyriwr a gwelliant pedagogaidd. Mae strwythur y Brifysgol wedi'i newid i greu pum cyfadran sydd â chyfrifoldebau a phwerau arwyddocaol wedi'u dirprwyo. Mae'r gwasanaethau cefnogi canolog wedi'u hailstrwythuro a'u cyfuno gydag adrannau corfforaethol. Cafodd pwyllgorau cyfadrannau a sefydliadol eu haildrefnu. Mae ystâd y Brifysgol wedi'i wella drwy adeiladu'r ATRiuM yng Nghaerdydd a datblygiad campysau Trefforest, Glyntaf a Merthyr Tudful. Trafodir y newidiadau yma a'u canlyniadau mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad yma.

Adran 2: Ymchwiliadau'r adolygiad – prosesau'r sefydliad

19 Roedd y ddogfen hunanwerthusiad (SED) yn amlygu'r nodweddion nesaf fel elfennau canolog yn systemau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ei hansawdd a'i safonau academaidd: strwythurau a gweithdrefnau ar gyfer cefnogi'r myfyrwyr; rheoliadau a gweithdrefnau a weithredir yn gyffredinol ar gyfer sicrhau safonau; trefniadau eglur wedi'u cyfathrebu'n dda ar gyfer llywodraethu; cyfleoedd datblygiad staff; 'buddsoddiad wedi'i ganolbwyntio ar welliant', prosesau sy'n arwain ac yn cefnogi gwelliant; a rheoli newidiadau mawr yn effeithiol. Mynegodd y Brifysgol hefyd hyder yn ei threfniadau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu.

Fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau, yn cynnwys darpariaeth gydweithredol

20 Mae Cyfarwyddiaeth y Brifysgol yn cynnwys yr Is-Ganghellor, pedwar dirprwy is-ganghellor sydd â chyfrifoldeb am Ddatblygiad Academaidd, Cefnogi Myfyrwyr a Dysgu, Ymchwil ac Adnoddau yn y drefn honno, ac Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae'n cyfarfod bob wythnos ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda deoniaid, penaethiaid gwasanaeth, penaethiaid colegau partner a swyddogion Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd hefyd gydag Uwch Dîm Rheoli Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD) a Choleg Merthyr Tudful.

21 Mae'r ddogfen hunanwerthusiad yn nodi bod y Gyfarwyddiaeth yn gweithredu'n ganolog fel 'gweithredwyr ar y cyd' ar gyfer rheoli ansawdd. Mae ei chyfrifoldebau'n cydgloi â chyfrifoldebau cyfadrannau: felly mae deoniaid yn adrodd i'r Is-Ganghellor, ac mae aelodau'r Gyfarwyddiaeth yn 'cynnal cysylltiadau gweithredol' â chyfadrannau, er enghraifft, drwy eistedd ar fyrddau cyfadrannau. Mae'r holl ddeoniaid ac aelodau'r Gyfarwyddiaeth yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd.

22 Y gwasanaethau canolog, a elwir yn adrannau corfforaethol, yw'r Gofrestrfa Academaidd; Gwasanaethau'r Campws; y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu; y Ganolfan Dysgu Gydol Oes; y Swyddfa Gwasanaethau Masnachol; Ystadau a Chyfadrannau; y Swyddfa Adnoddau Allanol ac Ewropeaidd; Cyllid; Iechyd a Diogelwch; Adnoddau Dynol; Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol a Dysgu (LCSS); Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr; y Swyddfa Ymchwil; a Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae aelodau'r Gyfarwyddiaeth oll yn gyfrifol am wasanaethau canolog dynodedig.

23 Mae gan y Bwrdd Academaidd gyfrifoldeb sefydliadol am ansawdd a safonau academaidd; mae wedi'i gadeirio gan yr Is-Ganghellor, ac mae'n cymeradwyo fframweithiau rheoli'r Brifysgol, gyda chyngor y Pwyllgor Archwilio Ansawdd (QAC). Cafodd y Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau eu hail-strwythuro yn 2006. Y pwyllgorau allweddol sy'n gyfrifol am safonau ac ansawdd academaidd yw'r QAC; Pwyllgor Gwella Ansawdd (QEC); Pwyllgor Datblygiad Academaidd (ADC); a'r Pwyllgor Cydweithredol. Caiff y QAC, yn ei rôl sefydliadol allweddol mewn sicrhau ansawdd a safonau academaidd, ei helpu gan is-grwpiau yn cynnwys Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil ac Is-grŵp Rheoliadau ac Arholwyr. Caiff y ddarpariaeth ymchwil ôl-radd ei goruchwylio gan y Pwyllgor Ymchwil ac Ysgoloriaeth. Mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd wedi'u cadeirio gan aelodau'r Gyfarwyddiaeth. Mae cylch gwaith ac aelodaeth y cyrff yma i gyd wedi'u nodi yng Nghalendr Digwyddiadau'r Brifysgol.

24 Mae gan RWCMD ei Fwrdd Cyfarwyddwyr ei hun sy'n adrodd i Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol. Er bod RWCMD wedi'i drin fel petai'n gyfadran, mae ganddo ei Fwrdd Academaidd ei hun a'i strwythur pwyllgorau sydd wedi'u hintegreiddio yn strwythur pwyllgorau'r Brifysgol drwy gynrychiolaeth gilyddol ar bwyllgorau allweddol. Canfu'r tîm adolygu bod y trefniadau yma wedi gweithio'n effeithiol.

25 Mae'r ddogfen hunanwerthusiad yn datgan bod lefel uchel o gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i chwe chyfadran y Brifysgol 'o fewn fframwaith polisi academaidd cyffredinol clir a strwythur gweithredol'. Mae gan ddeoniaid gyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd yn eu cyfadrannau, ac mae gan arweinwyr modiwl, pwnc neu gynllun, a phenaethiaid adrannau neu gyfadrannau, gyfrifoldeb penodol am reoli ansawdd yn eu meysydd diffiniedig eu hunain. Mae pob cyfadran yn cytuno ar ei 'threfniadau rheoli a threfnu' unigol ei hun gyda'r Gyfarwyddiaeth. Ar lefel y gyfadran, mae byrddau cyfadrannau'n is-bwyllgorau i'r Bwrdd Academaidd. Etholir cadeiryddion byrddau cyfadrannau o'r gyfadran; maent hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd yn rhinwedd eu swyddi. Mae gan bob cyfadran bwyllgorau sicrhau ansawdd cyfadran (FQAC), a Phwyllgorau Rhaglen Ymchwil Cyfadrannau sy'n goruchwylio darpariaeth ymchwil ôl-radd ac yn adrodd i Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Mae gan gyfadrannau hefyd Bwyllgorau Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, a Phwyllgorau Ymchwil ac Ysgoloriaeth, sy'n adrodd i'w byrddau cyfadran.

26 Mae gan FQAC gyfrifoldebau eang am sicrhau ansawdd, yn cynnwys cymeradwyo a gwneud adolygiadau cyfnodol o'r mwyafrif o raglenni ar y campws ac mewn darpariaeth gydweithredol. Pan fydd y ddarpariaeth mewn meysydd astudio sy'n newydd i'r Brifysgol, y QAC sy'n cymeradwyo (gwelwch baragraff 44). Mae'r QAC yn cymeradwyo aelodaeth y FQAC; maent yn cynnwys aelodau annibynnol o gyfadrannau eraill, y mae un ohonynt yn gadeirydd. Mae rhai FQAC, yn arbennig cyfadrannau mawr, wedi'u helpu gan is-grwpiau. Canfu'r tîm adolygu nad yw staff yn deall yn glir bob amser beth yw swyddogaethau pwyllgorau, a'u perthynas â'i gilydd, ac nid ydynt yn derbyn esboniad bob amser chwaith. Er enghraifft, dywedwyd wrth y tîm mai'r QAC sy'n gyfrifol am gymeradwyo rhaglenni; ond, yn yr un cyfarfod, roedd hi'n anodd canfod a allai QAC ofyn am i FQAC am wella gwendidau; ac mewn cyfarfod arall clywodd na allai QAC oruwchreoli cymeradwyaeth FQAC o raglenni. Mewn achos arall, clywodd y tîm ddau esboniad, yn yr un cyfarfod, o statws Pwyllgor Ansawdd a Datblygiad Academaidd y Gyfadran, sef is-grŵp o FQAC un gyfadran.

27 Yn RWCMD, mae gan Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Coleg (CQAC) rôl sy'n gyfatebol â rôl FQAC, ac mae ef hefyd yn adrodd i QAC.

28 Mae'r Swyddfa Ansawdd a Pholisi wedi bod yn rhan o'r Gofrestrfa Academaidd ers 2007. Clywodd y tîm adolygu ei fod yn cefnogi prosesau sicrhau ansawdd yn y cyfadrannau mewn rôl cynghori. Mae'r Swyddfa Polisi ac Ansawdd yn cefnogi gweinyddiaeth ansawdd y cyfadrannau drwy arwain Is-grŵp Rheolwyr Ansawdd sy'n cynnwys swyddogion ansawdd cyfadran a rolau tebyg yn RWCMD, ac mae'n adrodd i'r Fforwm Gweinyddiaeth Uwch.

29 Mae fframwaith y Brifysgol ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd wedi'i ddisgrifio yn y Llawlyfr Academaidd, sy'n berthnasol i holl ddarpariaeth y Brifysgol ac yn cynnwys adran

ar 'Weithgaredd Cydweithredol'. Caiff y Llawlyfr, ac unrhyw ddiwygiadau, eu cymeradwyo gan QAC; y Bwrdd Academaidd sy'n cymeradwyo unrhyw newidiadau rheoli a rheoliadau. Clywodd y tîm adolygu bod y Llawlyfr Academaidd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, a bod y staff wedi'u hysbysu am y newidiadau yma drwy 'INFORM', mewnrwyd y Brifysgol. Mae RWCMD wedi mabwysiadu Llawlyfr Academaidd y Brifysgol, gan ei addasu i adlewyrchu strwythurau a dulliau enwi lleol fel y bo'n briodol.

30 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod fframwaith trefniadol a rheoli'r Brifysgol 'wedi'i weithredu'n gyffredinol ar draws ei darpariaeth i gyd [gan ddarparu] ar gyfer cysondeb gweithrediad ac ar gyfer cynnal safonau'. Archwiliodd y tîm adolygu'r mecanweithiau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i gynnal ei harolygiaeth sefydliadol o'r cymwysiadau cyffredinol yma. Gwelodd dystiolaeth bod y Bwrdd Academaidd, drwy swyddogaethau megis cymeradwyo rheoliadau a derbyn crynodebau blynyddol o adroddiadau arholwyr allanol, yn gallu arolygu safonau academaidd yn effeithiol ar draws darpariaeth y Brifysgol. Fodd bynnag, cafodd y tîm anhawster wrth geisio cadarnhau bod arolygiad sefydliadol effeithiol yn digwydd yn gyson o'r swyddogaethau sicrhau ansawdd sydd wedi'u dirprwyo i FQAC. Er bod, er enghraifft, aelodau'r QAC yn helpu drwy fod yn ddarllenwyr beirniadol o gofnodion y FQAC, nid oeddent, yn gyffredinol, yn rhoi ystyriaeth i'r ddogfennaeth gefnogol (megis papurau pwyllgorau) sydd ar gael iddynt ac, felly, byddai eu harolygiaeth o'r materion dan drafodaeth yn gyfyngedig. Roedd ystyriaeth o unrhyw bapurau yn digwydd yn ôl dewis yr unigolyn. Hefyd canfu'r tîm bod diffyg eglurder wrth adrodd am y prosesau sicrhau ansawdd ar i fyny o fewn y cyfadrannau, ac o gyfadrannau i bwyllgorau sefydliadol (gwelwch baragraffau 47, 49, 204). Roedd hi'n ymddangos bod anghysonderau yn y ddogfennaeth cymeradwyo prosesau heb eu herio gan QAC (gwelwch baragraff 204). Yn ogystal, canfu'r tîm bod eglurder adroddiadau cymeradwyo neu ail gymeradwyo yn gyfyngedig, mewn rhai achosion, am nad oeddent yn cynnwys manylion pwysig megis rhestr lawn o bobl yn mynychu. Roedd y presenoldeb mewn pwyllgorau sefydliadol megis QAC a Phwyllgor Datblygiad Academaidd wedi'i gymylu hefyd gan yr un diffyg manylder. Daeth y tîm i'r casgliad bod yr anghysonderau yma ym mhroses adrodd y pwyllgor yn atal y Brifysgol rhag sylweddoli gwerth llawn ei strwythur datganoledig a chynnal arolygiad cyson o ansawdd ar lefel sefydliadol ar yr un pryd.

31 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod ymrwymiad y Brifysgol i fodel datganoledig o sicrhau ansawdd dros y saith mlynedd diwethaf wedi'i sylfaenu yn aeddfedrwydd a hyder sefydliad sydd â mwy na 30 mlynedd o brofiad o gynnig darpariaeth fodiwlaidd sydd wedi'i seilio ar gasglu credydau. Gwelodd y tîm adolygu bod y prosesau datganoledig yn dal i gael eu cynnwys o fewn y strwythur cyfadrannau cymharol newydd, a bod y sefydliad yn gwneud adolygiad parhaus ohonynt. Roedd hi'n ymddangos bod hwn yn ddull priodol a chyson. Nododd y tîm hefyd bod tuedd i ddibynnu ar 'aeddfedrwydd y cyfadrannau' yng nghyd-destun arolygiad sefydliadol er bod y mwyafrif ohonynt wedi'u seilio, yn eu ffurfiau presennol, mor ddiweddar â 2006. Daeth y tîm i'r casgliad y dylai'r Brifysgol, wrth iddi barhau i werthuso a datblygu ei strwythurau, sicrhau bod ei harolygiad sefydliadol o ganlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur, gan ystyried yn arbennig y materion sydd wedi derbyn sylw mewn rhannau eraill o'r adroddiad yma (gwelwch baragraffau 49, 73, 204, 219).

Bwriadau'r sefydliad ar gyfer gwella ansawdd a safonau

32 Mae Cynllun Strategol a Blaenoriaethau Strategol Allweddol y Brifysgol a sefydlwyd yn 2005 yn dangos ymrwymiad cryf gan y sefydliad i wella profiad y myfyrwyr a'i rwydwaith mewnol dysgu. Mae Blaenoriaethau Strategol Allweddol y Brifysgol wedi'u cefnogi gan ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae gwella profiad y myfyrwyr yn derbyn y lle cyntaf ymysg blaenoriaethau strategol y Brifysgol, ac yn 2007-08 aeth y sefydliad ati i wneud dadansoddiad a gwerthusiad mawr o'i anghenion drwy Brosiect Disgwyliadau'r Myfyrwyr. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad clir o botensial ar gyfer gwella ac yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu mewn nifer o feysydd yn cynnwys cefnogaeth myfyrwyr, asesiad a chynrychiolaeth. Roedd cynrychiolwyr y myfyrwyr yn croesawu ac yn cymeradwyo adroddiad Disgwyliadau'r Myfyrwyr, a nododd y tîm adolygu bod yr adroddiad wedi cael dylanwad mawr yn barod mewn sicrhau gwelliant.

33 Mae'r QEC yn chwarae rôl sefydliadol arweiniol mewn gwelliant. Mae ei aelodau'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu (CELT) a'r holl benaethiaid dysgu ac addysgu sy'n arwain mentrau gwelliant yn eu cyfadrannau. Mae penaethiaid dysgu ac addysgu wedi'u cefnogi ac yn derbyn cyngor gan bwyllgorau profiad myfyrwyr, dysgu ac addysgu cyfadrannau. Mae QEC yn pennu'r meysydd allweddol ar gyfer gwella, gan ddefnyddio gwybodaeth gan CELT a chan benaethiaid dysgu ac addysgu. Mae CELT yn tynnu'r wybodaeth am anghenion ar gyfer gwella o'i dadansoddiadau o ddata'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) ac o'r gwaith monitor a wna o ymatebion cyfadrannau i adborth myfyrwyr. Mae penaethiaid dysgu ac addysgu'n rhoi data arolygiad o adroddiadau monitro eu cyfadrannau. Mae cyfadrannau'n adrodd i QEC ar eu cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau'r AMC. Mae prosiectau gwella sefydliadol a lansiwyd gan QEC wedi cynnwys Polisi Asesiad (gwelwch baragraff 77). Mae QEC yn adolygu ac yn gwerthuso'r prosiectau yma drwy adroddiadau a dderbyniwyd gan CELT a chyfadrannau, ac yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd Academaidd.

34 Dywedodd y ddogfen hunanwerthusiad bod arolygiad y sefydliad o wella ansawdd a sicrhau ansawdd wedi'u cysylltu'n agos â'i gilydd. Nododd y tîm adolygu bod y cysylltiadau rhwng y swyddogaethau yma, ac yn arbennig y berthynas rhwng QAC a QEC, wedi'u hadolygu'n ddiweddar, a bod mesurau ar waith i gydlynu gwaith y pwyllgorau yma. Mae gan fyfyrwyr rôl mewn gwella drwy'r AMC a chynlluniau adborth a chynrychiolaeth fewnol amrywiol.

35 Recriwtio a chadw myfyrwyr yw'r 'thema cynllunio ddominyddol', a darparodd y ddogfen hunanwerthusiad esiamplau niferus o fesurau a phrosiectau gwella i gefnogi hyn. Mae datblygiadau arbennig o bwysig i wella cefnogaeth myfyrwyr wedi cynnwys sefydlu siopau cyngor cyfadrannol (FAS) (gwelwch baragraff 182) a chanolfannau galw heibio addysgol ar y campws (gwelwch baragraff 176). Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu bod cyfathrebiadau wedi'u gwella ymhellach gyda lansio pyrth myfyrwyr personol ar y wefan 'GlamLife'.

36 Mae gwella dysgu ac addysgu wedi'i bennu fel maes allweddol arall ar gyfer gweithredu i gefnogi Blaenoriaethau Strategol Allweddol. Mae'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesiad 2007-12 yn gyrru gwelliant; mae'r ddogfen hunanwerthusiad yn nodi bod hon wedi'i 'hymgorffori'n dda' ac yn 'tanategu holl agweddau gweithrediad y Brifysgol'. Mae gan CELT rôl ganolog weithredol mewn datblygu staff ar gyfer dysgu ac

addysgu (gwelwch baragraff 157). Mae ei gwefan yn rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da drwy'r sefydliad cyfan, ac mae'n rheoli Uned Ymchwil Ar-lein Morgannwg sy'n hwyluso datblygiad ymchwil pedagogaidd. Cynigir Dyfarniadau Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu. Cadarnhaodd y staff a fu'n siarad â'r tîm adolygu werth cyfraniad CELT i ddatblygiad a lledaeniad arferion da.

37 Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y Brifysgol yn adolygu ac yn gwerthuso ei phrosiectau gwella ar lefel sefydliadol. Er enghraifft, ystyrir bod siopau cyngor cyfadrannol yn ffyrdd pwysig o ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr, ac mae'r sefydliad yn ceisio dangos eu heffaith ar gadwraeth. Mewn meysydd megis gwella cyrhaeddiad myfyrwyr, mae'r Brifysgol yn gobeithio dysgu gan ei phartneriaid coleg AB.

38 Mae'r Brifysgol yn credu bod ei strwythurau a'i phenodiadau ar gyfer arwain ac adolygu gwelliant, ynghyd â'i hymrwymiad cryf i ddatblygiad staff, wedi 'cryfhau diwylliant Prifysgol ymhellach sydd wedi'i ymrwymo i ddysgu o ansawdd uchel lle mae'r myfyriwr yn elfen ganolog'. Yng nghyd-destun y dystiolaeth a welodd ac a glywodd, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod hyn wedi'i ddatblygu'n sylweddol.

39 Mae ymrwymiad y Brifysgol i wella profiad y myfyriwr wedi'i ddangos gan fesurau megis ei hadroddiad a'i Phrosiect Disgwyliadau Myfyrwyr pwerus ac effeithiol. Mae prosiectau gwella a lansiwyd gan QEC yn cael effeithiau positif, er enghraifft, mewn arferion asesu (gwelwch baragraff 77). Mae CELT yn chwarae rôl werthfawr a dylanwadol mewn arwain a chydlynu gwelliant. Fodd bynnag, er mwyn rhoi hyd yn fwy o wybodaeth ac adnoddau i'r Brifysgol ar gyfer parhau i wella cyfleoedd dysgu'r myfyrwyr, dylai barhau i adolygu datblygiad arferion o fewn cyfadrannau, gan ystyried ffynonellau gwybodaeth allweddol megis monitro ac adborth myfyrwyr yn arbennig.

Prosesau mewnol i gymeradwyo, monitro ac adolygu

Cymeradwyo rhaglenni

40 Mae prosesau cymeradwyo rhaglenni'r Brifysgol wedi'u bwriadu i wirio gallu strategol, adnoddau, cyfatebiaeth gyda phwyntiau cyfeirio allanol a chydymffurfiad â rheoliadau. Caiff y dyfarniadau newydd arfaethedig ac addasiadau mawr eu canfod yn gyffredinol ar lefel gyfadrannol drwy adolygiad blynyddol a phrosesau cynllunio, a'u hesbonio yng Nghynllun Strategol y Gyfadran. Mae'r Bwrdd Academaidd yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i gamu ymlaen â chynnig. Mae'r Bwrdd Academaidd yn defnyddio model o gymeradwyo a dilysu rhaglenni a elwir yn Broses Busnes Cylch Bywyd y Cwricwlwm. Mae'r model newydd yn dod yn weithredol ar hyn o bryd.

41 Mae'r un prosesau o gymeradwyo rhaglenni'n berthnasol wrth ail-gymeradwyo rhaglenni hefyd. Gwneir hyn drwy adolygiad cyfnodol, y cyfeirir ato hefyd fel adolygiad neu ail-ddilysu rhaglenni a ddysgir bob pum mlynedd (gwelwch baragraffau 56 i 63).

42 Yng ngham cyntaf y cymeradwyo mae'r gyfadran yn cyflwyno ffurflen gynnig cwrs a, gyda meysydd astudio newydd, achos busnes llawn. Mae'r un broses yn ymdrin ag addasiadau mawr, dileu cyrsiau, cynlluniau sefydlog lefel uwch, cynigion Erasmus, a chynigion ar gyfer newidiadau i raglenni a wneir fel rhan o adolygiad cyfnodol. Lle mae'r cynigiad am ddarpariaeth gydweithredol ac y mae partner newydd yn rhan ohono, mae angen gwneud asesiad risg llawn o'r partner (gwelwch baragraff 203).

43 Mae cylchred blynyddol o ddyddiadau cyflwyno wedi'i ddiffinio. Caiff cynigion cwrs eu llwytho ar ffolder electronig wedi'i rannu a rhoddir i bartïon sydd â diddordeb 10 diwrnod ar ôl y dyddiad cau chwarterol pan fo modd lleisio gwrthwynebiad a gwneud sylwadau. Trafodir cynigion ac adborth yn y Pwyllgor Datblygiad Academaidd nesaf: mae penderfyniadau'n cael eu cofnodi mewn atodiad i gofnodion y pwyllgor a'u rhoi ar y ffolder electronig sydd wedi'i rannu. Mae'r broses yma'n cynnwys ymgynghoriad gyda chyfadrannau sy'n cyfrannu a'r LCSS.

44 Mae cymeradwyaeth cynllunio, a roddir gan y Pwyllgor Datblygiad Academaidd, yn parhau am flwyddyn neu chwe mis cyn y cynigir ei weithredu os bydd yn ymwneud â dyfarniad newydd, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gallai'r lefel pan fydd cymeradwyaeth derfynol y cynigiad yn digwydd fod naill ai ar lefel sefydliadol neu gyfadrannol a'r QAC sy'n ei benderfynu, yn dibynnu beth yw lefel y risg yn ôl eu barn hwy. Gwneir y penderfyniad yma fel arfer drwy weithrediad y cadeirydd. Mae cadeirydd y QAC yn penderfynu pa mor briodol yw mabwysiadu dull carlam i ddilysu hefyd – sef dull y gellir ei ddewis dan amgylchiadau arbennig. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau dilysu wedi'u dirprwyo i FQAC neu CQAC (ar gyfer RWCMD). Fel arfer, dyw'r QAC ond yn ymdrin â dilysiadau mewn meysydd astudio newydd, a gyda rhai dyfarniadau dysgu dosranedig a chydweithredol newydd.

45 Ar ôl rhoi cymeradwyaeth cynllunio, mae'r gyfadran yn bwrw ymlaen gyda datblygu'r cynigiad ac yn gosod dyddiad ar gyfer ei gyflwyno i banel o FQAC, Pwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Coleg neu QAC fel y bo'n briodol. Nid yw'r Llawlyfr Academaidd yn rhoi manylion am gyfansoddiad neu gymeradwyaeth panelau dilysu, er ei fod yn darparu arweiniad ar rolau gwahanol aelodau. Roedd dogfennaeth a ddarllenwyd gan y tîm adolygu'n dangos bod cadeiryddion panelau'n cael eu cymeradwyo gan FQAC, CQAC neu QAC. Mae panelau'n cynnwys aelodau mewnol ac allanol fel ei gilydd sydd wedi'u cymeradwyo gan gadeirydd y panel a'u hadrodd i lefel berthnasol y pwyllgor sicrhau ansawdd. Caiff rhai aelodau allanol eu tynnu o gyfadrannau eraill o fewn y Brifysgol. Ond, mae gofyn i'r holl ddigwyddiadau cymeradwyo gael elfen o allanoldeb annibynnol. Mae cyfranogaeth allanol mewn cymeradwyo rhaglenni wedi'i drafod yn fanwl ym mharagraffau 64 i 74 isod.

46 Mae'r gwir broses o ddilysu'n dibynnu ar raddfa a natur y cynigion perthnasol. Mae'r broses lawn yn cynnwys cyfarfod y panel dilysu. Mae proses dalfyredig ar waith a ddefnyddir lle mae'r mwyafrif o'r modiwlau sy'n cynnwys y dyfarniad newydd wedi'u cymeradwyo'n barod. Yn yr achos hwn, gall cadeirydd ac ysgrifennydd y panel benderfynu a oes angen cyfarfod neu beidio neu a ellir arwyddo'r gymeradwyaeth drwy ohebiaeth.

47 Mae gan banelau'r pŵer dirprwyedig i gymeradwyo cynigion rhaglenni'n amodol neu'n ddiamod ac i wneud argymhellion i'r gyfadran eu hystyried. Mae'n rhaid i amodau gael eu harwyddo gan gadeirydd y panel mewn ymgynghoriad ag ysgrifennydd y panel. Caiff penderfyniadau cymeradwyo eu cofnodi yng nghofnodion y pwyllgor sicrhau ansawdd perthnasol, naill ai FQAC, CQAC neu QAC a'u hadrodd ar i fyny, y ddau gyntaf drwy QAC, i'r Bwrdd Academaidd. Nododd y tîm adolygu bod cofnodi penderfyniadau cymeradwyo gan banelau'n ffurfioldeb i raddau mawr ac nad oedd pwyllgorau uwch fel arfer yn arolygu penderfyniadau'n weithredol. Ar ôl eu cymeradwyo, mae'n rhaid cadw copïau o ddogfennaeth ddiffiniedig y rhaglen gymeradwy yn ganolog ac yn lleol.

48 Mae'r gwaith o gymeradwyo modiwlau a diwygiadau bychain wedi'i ddirprwyo i gyfadrannau. Mae rhai cyfadrannau wedi sefydlu is-bwyllgorau i ymdrin â manylion y gwaith yma. Er enghraifft, mae gan FQAC yr Ysgol Busnes Is-bwyllgor Addasiadau Bychain, Dilysu ac Adolygu i wneud gwaith o'r fath. Nododd y tîm adolygu bod addasiadau wedi'u cymeradwyo'n ôl-syllol ar nifer o achlysuron yn erbyn gofynion y Brifysgol.

49 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod y Brifysgol yn hyderus am briodoldeb ac effeithiolrwydd ei threfniadau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni'n fewnol. Mae'r tîm adolygu'n cytuno i raddau â'r farn yma. Ond, dylai'r Brifysgol adolygu'r ffordd y mae pwyllgorau ansawdd o wahanol lefelau'n cydweithio i sicrhau bod arolwg gweithredol yn digwydd lle mae cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo. Efallai hefyd bod y Brifysgol eisiau ystyried a yw ymwneud y Llawlyfr Academaidd yn ddigon i sicrhau bod y prosesau cymeradwyo'n gyson drwy'r sefydliad cyfan.

Monitro blynyddol

50 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad mai monitro blynyddol yw'r dull o 'wella'n barhaol raglenni ymchwil a rhaglenni wedi'u dysgu, yn nhermau safonau academaidd ac ansawdd profiad y myfyrwyr'. Cafodd y trefnau ar gyfer monitro blynyddol eu hadolygu'n ddiweddar gan QAC a'u cryfhau drwy fabwysiadu templedi adrodd safonol, gwell cyfatebiaeth â'r broses gynllunio strategol, a darparu gwell data ystadegol drwy ddangosyddion perfformiad cyrhaeddiad myfyrwyr (SAPI). Cyflwynwyd hefyd fesurau i gryfhau gwaith monitro'r ddarpariaeth gydweithredol (gwelwch baragraff 211).

51 Caiff adroddiadau gwerthuso niferus eu cynhyrchu'n flynyddol sy'n cyfrannu at adroddiad monitro blynyddol y gyfadran. Caiff adroddiad ei gynhyrchu i bob modiwl gan ddefnyddio templed safonol sy'n ymdrin â pherfformiad y myfyriwr, adborth y myfyrwyr, myfyrio gan y rheiny sy'n addysgu, a phwyntiau ar gyfer gweithredu. Caiff adroddiadau monitro eu cynhyrchu hefyd ar gyfer cynlluniau a dyfarniadau ac maent yn cyflwyno adolygiad eang o weithgareddau dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiadau yma hefyd yn cynnwys meysydd wedi'u pennu fel arferion da yn ogystal â chynlluniau gweithredu. Mae RWCMD a cholegau partner hefyd yn cynhyrchu adroddiadau gwerthuso a monitro blynyddol ar gyfer y dyfarniadau Prifysgol y maent yn eu darparu. Mae'r adroddiadau yma i gyd yn eu tro yn cyfrannu at gynhyrchu adroddiadau pwnc ac adrannol neu gyfadrannol sy'n myfyrio ar y gweithgareddau yn y pynciau yn ogystal â staffio. Mae cyfraniad pellach i'r adroddiad cyfadran yn dod o adroddiadau arolygwyr allanol; adborth myfyrwyr; byrddau asesu; adroddiadau cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB); ystadegau myfyrwyr a data datblygiad staff. Mae'r adroddiad cyfadran yn ddogfen sylweddol sydd nid yn unig yn adolygu'r flwyddyn flaenorol ac yn gweithredu ar faterion a bennwyd yn flaenorol, ond mae hefyd yn cynnig cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Mae'r deon yn paratoi crynodeb o'r adroddiad cyfadran, gan ganolbwyntio i raddau mawr ar y cynllun gweithredu. Caiff yr adroddiad a'r crynodeb eu cyflwyno i gadeirydd FQAC.

52 Mae FQAC yn arolygu'r prosesau monitro blynyddol yn y cyfadrannau. Mae un o is-grwpiau'r FQAC, yn cynnwys y cadeirydd ac aelodau allanol, yn cyfarfod gyda'r deon a staff uwch i archwilio'r broses fonitro flynyddol ac adolygu'r adroddiadau a baratoir yn ystod y cylchred monitro. Mae gan yr is-grŵp yr awdurdod i ofyn am newidiadau i grynodeb y deon cyn iddo gael ei gyflwyno i QAC a gwneud argymhellion am welliannau i'r broses mewn blynyddoedd dilynol. Caiff adroddiad craffu'r is-grŵp ei gyflwyno i QAC

ochr yn ochr â chrynodeb pob deon. Mae QAC yn arwyddo'r broses fonitro flynyddol yn ffurfiol ar gyfer bob cyfadran ac yn adrodd y broses ar i fyny i'r Bwrdd Academaidd.

53 Mae'r broses fonitro flynyddol wedi'i disgrifio'n fanwl yn y Llawlyfr Academaidd sydd hefyd yn cynnwys templedi ar gyfer paratoi adroddiadau modiwl, pwnc a dyfarniad. Gwelodd y tîm adolygu esiamplau o adroddiadau monitro blynyddol a gynhyrchwyd dan y system ddiwygiedig a gallent gadarnhau bod y prosesau a ddisgrifiwyd yn y Llawlyfr wedi'u dilyn a bod y QAC wedi gweithredu i wella unrhyw wendidau.

54 Mae cyfadrannau'n gwneud ymarfer monitro blynyddol ar gynnydd eu myfyrwyr ymchwil i gyd. Nid yw'r fformat ar gyfer hyn yn rhagnodedig, ond mae'n rhaid iddo fod yn amlwg drwyadl. Mae pwyllgorau rhaglenni ymchwil y cyfadrannau sy'n adrodd i'r QAC yn ystyried yr adroddiadau blynyddol a geir o ganlyniad.

55 Mynegodd y Brifysgol hyder yn ei gwaith monitro blynyddol a'i chynllunio gweithredoedd perthnasol. Ar sail y dystiolaeth a welwyd gan y tîm adolygu, mae'r hyder yma'n rhesymol. Mae'r broses fonitro flynyddol yn drwyadl ac yn dod ag amrediad eang o dystiolaeth at ei gilydd mewn perthynas ag ansawdd a safonau. Sicrheir cysondeb eang ar draws y sefydliad cyfan ac mae mecanweithiau mewnol yn bodoli ar gyfer archwilio ac arolygu fel bod y Brifysgol yn ei sicrhau ei hun bod y broses yn gweithio'n effeithiol.

Adolygiad cyfnodol

56 Mae'r Brifysgol yn gwneud tri gwahanol fath o adolygiad cyfnodol. Mae'r cyntaf, a elwir yn ail-ddilysu neu adolygiad cyfnodol neu bob pum mlynedd, yn canolbwyntio ar weithrediad a pherthnasedd parhaus dyfarniadau a rhaglenni unigol neu grwpiau ohonynt. Mae ar ffurf ail ddilysiad. Yr ail fath yw adolygiad pwnc mewnol (ISR) sy'n rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i'r holl ddarpariaeth academaidd, wedi'i ddysgu, gwaith ymchwil a chydweithredol, mewn maes astudio. Yn drydydd, mae'r Brifysgol yn gwneud nifer o archwiliadau thematig, y mae rhai ohonynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth y cwrs. Caiff yr olaf ei drafod mewn mannau eraill yn yr adroddiad (gwelwch baragraff 217).

57 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod adolygu cyfnodol yn adeiladu ar ganlyniadau cronnol monitro blynyddol, gan gynnwys cyfraniad gan arholwyr allanol; adborth myfyrwyr; adolygiadau PSRB; ac ISR. Mae'r broses o ail ddilysu'n dilyn y broses o gymeradwyaeth gychwynnol rhaglenni sydd wedi'i disgrifio uchod. Gwneir adolygiad cyfnodol o leiaf bob chwe blynedd. Mae amserlennu a chwmpas adolygiad cyfnodol, er enghraifft, a fydd yn ymwneud â rhaglenni unigol neu gyfadran gyfan, wedi'u cytuno rhwng cyfadrannau a'r Pwyllgor Datblygiad Academaidd.

58 Cyflwynwyd ISR yn 2005. Mae llawlyfr ar wahân wedi'i ysgrifennu ar gyfer y broses yma sy'n cyflenwi disgrifiad y broses sydd ar gael yn y Llawlyfr Academaidd. Mae'r broses yn gofyn cyflawni dogfen hunanwerthusiad sy'n archwilio cryfderau a gwendidau, a chyfleoedd i wella yn y maes astudio. Mae'r adolygiad wedi'i seilio ar broses Adolygiad Pwnc ASA ac mae'n cynnwys ystyriaeth o ganlyniadau dysgu, cwricwla, addysgu, dysgu ac asesu ac adnoddau dysgu. Y bwriad yw ei fod yn feirniadol ac adlewyrchol. Mae'r adolygiad wedi'i wneud gan banel sydd wedi'i gadeirio gan aelod o QAC ac sy'n cynnwys cyfadran, prifysgol ac aelodau allanol. Mae'r panel yn derbyn y ddogfen hunanwerthusiad ac amrywiaeth eang o ddogfennau Prifysgol a chyfadran, manylion rhaglenni a gwaith myfyrwyr.

59 Mae'r panel yn cyfarfod ddwy waith; ar y dechrau mewn rhai achosion heb yr aelodau mewnol neu allanol sy'n gallu cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i ganfod problemau a chadarnhau'r rhaglen adolygu (gwelwch baragraff 70). Mae'r ail a'r brif ymweliad yn para rhwng diwrnod a thri diwrnod ac yn cynnwys y cyfarfod panel llawn gyda staff a myfyrwyr a theithiau o amgylch y cyfleusterau. Canlyniad yr adolygiad yw adroddiad gan y panel i QAC a'r Bwrdd Academaidd gydag argymhellion ar gyfer datblygiad y maes astudio yn y dyfodol.

60 Adolygwyd effeithiolrwydd y broses adolygiad pwnc mewnol (ISR) yn 2006-07 a chafwyd rhai newidiadau i'w gweinyddiaeth a'i chwmpas. Caiff yr adolygiadau yma eu rheoli gan gyfadrannau erbyn hyn, er bod yn rhaid i QAC gyfuno ar y gadeiryddiaeth a'r aelodaeth. Dri mis ar ôl cwblhau'r adolygiad mae'r arweinydd pwnc yn cyflwyno ymateb i'r adroddiad a'i argymhellion i QAC.

61 Mae adolygiad cyfnodol yn gweithredu fel arfer ar gylchred pump neu chwe blynedd; mae ISR yn gweithredu ar gylchred chwe blynedd. Dywedodd y ddogfen hunanwerthusiad mai un o ganlyniadau'r adolygiad 2006-07 oedd bod amserlenni'r ddwy broses, ISR ac adolygiad cyfnodol, wedi'i gydlynu'n fwy effeithiol erbyn hyn er mwyn galluogi adolygiad pwnc fydd yn hysbysu adolygiad cyfnodol yn well. Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi calendr chwe blynedd o weithgareddau ISR. Ond, nid oes calendr tebyg ar gyfer adolygiad cyfnodol, felly mae'r berthynas rhwng y ddwy broses yn parhau'n amrywiol yn eu hamseroedd.

62 Cyn cwblhau'r gynghrair strategol gyda'r RWCMD yn 2007, cafwyd adolygiad arbennig o ddarpariaeth y Coleg yn cynnwys adolygiad pwnc ac ail-ddilysu. Yn y dyfodol, bydd yr adolygiad yn RWCMD wedi'i alinio â gweddill y Brifysgol.

63 Gwelodd y tîm adolygu esiamplau o'r ddau fath o adolygiad mawr, a gallai gadarnhau eu bod yn brosesau effeithiol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd darpariaeth academaidd.

Cyfranogaeth allanol mewn prosesau adolygu mewnol

64 Dywedodd y ddogfen hunanwerthusiad fod beirniadaeth allanol annibynnol yn nodwedd allweddol ar bob pwynt o'r cylch academaidd o ddatblygiad a chymeradwyaeth rhaglenni drwy ail-gymeradwyo ac adolygu rhaglenni a meysydd astudio. Mae rhywfaint o'r cyfraniad allanol yn dod gan arholwyr allanol y mae eu rôl wedi'i drafod isod (paragraff 85 ymlaen). Mae cyfraniad arall yn dod gan ymgynghorwyr allanol, ac aelodau allanol o banelau a sefydlwyd ar gyfer digwyddiadau adolygu a chymeradwyo rhaglenni. Gallai'r bobl sy'n gwneud y rolau yma ddod o naill ai'r byd academaidd neu o'r sefydliadau ymarferol.

65 Disgwylir i dimau sy'n datblygu dyfarniadau newydd wneud ymchwil i'r farchnad ac ymgynghori ynghylch eu cynigion gyda phobl academaidd mewn sefydliadau eraill. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn nodi, ar lefel y cyfadrannau, bod 'pob digwyddiad cymeradwyo…yn gofyn rhyw elfen o allanoldeb annibynnol' ond y gellid defnyddio 'cyffyrddiad ysgafnach' lle mae dyfarniadau'n cynnwys modiwlau sydd wedi'u cymeradwyo i raddau mawr (gwelwch baragraff 46). Lle mae digwyddiadau cymeradwyo wedi'u cynnal ar lefel prifysgol mae angen mwy o allanoldeb. Mae gofynion tebyg wedi'u hadlewyrchu yn y Llawlyfr Academaidd ar gyfer RWCMD.

66 Er nad yw'r Llawlyfr Academaidd yn nodi sawl aelod allanol sydd eu hangen ar gyfer panel cymeradwyo neu ail gymeradwyo, mae'r arweiniad yn mapio dwy rôl ar gyfer pobl allanol ar banelau: un yw'r aelod academaidd allanol sy'n rhoi cyngor yn ystod y broses datblygiad ac mewn perthynas â materion academaidd ac adnoddau ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys y maes llafur; mae'r ail, yr ymarferydd allanol, yn edrych ar y cynnig o safbwynt y proffesiwn, neu'r cyflogwr arfaethedig, i sicrhau ei fod yn ateb eu hanghenion.

67 Pan fydd digwyddiad cymeradwyo neu ddilysu llawn yn digwydd, mae aelodau allanol yn mynychu. Pan fydd y QAC wedi cytuno ar broses wedi'i chwtogi (gwelwch baragraff 46) mae'r aelodau allanol yn rhoi sylw ysgrifenedig sydd wedyn yn derbyn ystyriaeth gan y cadeirydd ac ysgrifennydd panel a benodir gan QAC.

68 Mae amrywiadau ychwanegol ar y prosesau yma syn gweithredu dan amgylchiadau eraill. Mae un neu fwy o bobl academaidd allanol yn gweithredu ar banelau cyfadrannol sydd wedi'u sefydlu i ystyried cynigion gan sefydliadau partner potensial a chyfredol er mwyn cynnig dyfarniadau sydd wedi'u dilysu gan y Brifysgol yn barod. Nid oes angen cyfranogaeth allanol i wneud addasiadau bach i raglenni. Gellir ymdrin ag addasiadau mawr drwy gyfrwng prosesau sy'n amrywio o weithredu gan y cadeirydd i gyfarfod llawn o'r panel, ond mae'n rhaid i hyn gynnwys rhywun o'r tu allan i'r Brifysgol bob amser. Dywedodd y Brifysgol yn y ddogfen hunanwerthusiad 'er bod arholwyr allanol yn gallu gwneud cyfraniadau defnyddiol ar amrywiol gamau o'r prosesau cymeradwyo ac adolygu, maent yn annhebygol o fod yn aelodau priodol o banelau cymeradwyo ffurfiol'. Fodd bynnag, mewn proses sydd wedi'i chwtogi'n fawr, gellid darparu allanoldeb drwy ddatganiad ysgrifenedig gan yr arholwr allanol. Wrth gymeradwyo ychwanegiad llwybr dysgu o bell ar gyfer darpariaeth a gymeradwywyd yn flaenorol, gofynnir i'r arholwr allanol ystyried y pecyn darparu dysgu sydd wedi'i greu a gwneud argymhellion i FQAC neu QAC ynghylch a ddylid cymeradwyo'r datblygiad neu beidio. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn nodi, yn y sefyllfaoedd yma, 'am fod arholwr allanol yn cyfranogi, ni fydd yn angenrheidiol bob tro i gynnwys aelod allanol ar y panel'.

69 Mewn adolygiad cyfnodol lle'r person sy'n arwain adolygiad cyfnodol yw hi i ddewis a ddylid cynnwys aelod allanol ychwanegol ar y panel i roi sylw neu gyngor y tu hwnt i hwnnw y gellir ei gael gan yr arholwr allanol a staff y Brifysgol.

70 Mae gofynion Prifysgol am allanoldeb yn yr ISR wedi'u nodi'n fanylach. Un o amcanion y broses yw paratoi rhannau o'r sefydliad ar gyfer craffu allanol ac elwa o gysylltiad ag arbenigwyr pwnc allanol. Mae'r panel yn cynnwys dau neu fwy o aelodau allanol sydd wedi'u henwebu gan gyfadrannau drwy FQAC a'u cymeradwyo gan gadeirydd QAC. Disgwylir i aelodau allanol fynychu'r gweithgaredd panel ond cânt ddewis cyflwyno sylw ysgrifenedig i gyfarfod cyntaf y panel adolygu sy'n egluro'r agenda ar gyfer y gweithgaredd adolygu.

71 Yn 2004-05 adolygodd y Brifysgol broffil yr aelodau allanol a benodwyd fel aelodau o banelau cymeradwyo er mwyn gwneud yn siŵr bod y trefnau enwebu'n sicrhau aelodau sy'n arbenigwyr ac yn annibynnol ar yr un pryd. Yn dilyn yr adolygiad, cryfhawyd y broses enwebu ymhellach i sicrhau bod enwebiadau'n cael eu cymeradwyo gan gadeirydd QAC neu FQAC a'u hadrodd yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Gwneir enwebiadau ar lefel cyfadran ar ffurflen safonol sy'n gofyn am ddatgan unrhyw gysylltiad y mae aelodau allanol arfaethedig y panel wedi'i gael gyda'r Brifysgol. O'r dystiolaeth a welwyd gan y

tîm adolygu, daeth i'r casgliad bod cofnodion gwahanol bwyllgorau'n amrywio o ran manylder yr enwebiadau a adroddir yn ffurfiol ynddynt ac mae hyn yn cyfrannu at argymhelliad y tîm bod y Brifysgol yn sicrhau gwell eglurder yn arolwg y sefydliad o'r canlyniadau sicrhau ansawdd.

72 Mae cyfraniad annibynnol ac allanol i brosesau cymeradwyo ac adolygu'r rhaglenni wedi'i hybu gan weithdrefnau a gweithgareddau eraill. Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd eang o allanoldeb mewnol lle mae pwyllgorau a phaneli'n cynnwys aelodau o gyfadrannau a gwasanaethau eraill i ddod â safbwynt gwahanol ac i rannu arferion da. Mae'r Brifysgol yn cyfranogi'n eang gyda PSRB drwy achrediad sy'n creu deialog rhwng staff y Brifysgol a'r cyrff yma sy'n creu cyfraniad allanol pellach, gan helpu i sicrhau bod darpariaeth yn gyfoes ac yn briodol.

73 Mae'r ddogfen hunanwerthusiad yn nodi bod defnydd y Brifysgol o allanoldeb i gefnogi prosesau ansawdd allweddol yn sicrhau cyfraniad annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi hyder i'r Brifysgol yn ei safonau. Mae hefyd yn rhoi ymwybyddiaeth o arferion mewn mannau eraill y gellir eu defnyddio i wella ansawdd profiad y myfyriwr yn y Brifysgol. Gwelodd y tîm adolygu ddogfennau oedd yn dangos esiamplau o ddefnyddio pobl allanol o gefndiroedd academaidd ac ymarferol ar y panelau; o ran y panelau adolygu roedd hyn yn aml yn cynnwys tri neu bedwar aelod allanol ar bob panel. Roedd yr esiamplau o allanoldeb a welwyd gan y tîm yn adlewyrchu gofynion y Llawlyfr Academaidd, ond roedd y dull o gofnodi digwyddiadau panel yn golygu nad oedd yn bosibl bob amser i sicrhau tadogaeth aelodau allanol.

74 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd da i raddau helaeth o allanoldeb yn ei threfniadau ar gyfer cymeradwyo'r rhaglenni ac adolygu mewnol. Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried a oes aliniad llawn rhwng y Llawlyfr Academaidd ac arferion sefydledig, ac a yw'r arweiniad a roddir yn y Llawlyfr yn ddigon manwl i sicrhau cysondeb ac eglurder wrth ddarparu adroddiadau.

Gweithdrefnau ac arferion asesu

75 Mae Bwrdd Academaidd y Brifysgol yn arfer ei gyfrifoldebau cyffredinol am safonau academaidd drwy gymeradwyo dyfarniadau, monitro ac adolygu prosesau a arolygir gan QAC a thrwy'r Is-grŵp Rheoliadau ac Arholwyr. Mae'r Bwrdd Academaidd hefyd yn ceisio ac yn derbyn adroddiadau gan bob deon cyfadran yn cynnwys yr Is-Bennaeth (Academaidd) yn RWCMD, a Phennaeth y Ganolfan Dysgu Gydol Oes (gyda myfyrwyr astudiaethau cyfun) gan ofyn iddynt 'gadarnhau i'r Bwrdd Academaidd bod safonau sicrhau ansawdd ac academaidd wedi'u cyrraedd o fewn eu byrddau arholi'.

76 Yn ei Llawlyfr Academaidd mae'r Brifysgol yn gofyn fod safonau canlyniad ei dyfarniadau, ar bob lefel, yn briodol ar gyfer lefel y cymhwyster y mae'n ei gyflwyno. Mae'r Llawlyfr Academaidd hefyd yn rhestru drwy ba ddull y mae'r Brifysgol wedyn yn sicrhau safonau ei dyfarniadau. Mae'r rhain yn cynnwys fframwaith cyffredin o reoliadau a pholisi eglur ar asesiad a phenodi, hyfforddi ac adroddiadau blynyddol arholwyr allanol (gwelwch baragraffau 85 i 96).

77 I gefnogi'r gofynion yma, mae'r Brifysgol yn cyhoeddi amrediad o ddogfennau sicrhau ansawdd, rheoleiddio a pholisïau cefnogi sy'n ffurfio'r fframwaith y mae'r pwyllgorau cyfadran a Phrifysgol a byrddau arholi perthnasol yn gweithredu ynddo. Yn flaenllaw ymysg y dogfennau yma y mae Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesiad y Brifysgol

(2007-2012) sydd, ymysg eraill, yn ymwneud ag amcanion strategol perthnasol y Cynllun Strategol sefydliadol. Mae gweithrediad y Strategaeth, sydd i gael ei gwblhau erbyn diwedd sesiwn academaidd 2009-10, wedi'i hysbysu gan y Polisi Asesiad a dogfen tariff asesiad ymgynghorol. Roedd y tariff ar gael i ddechrau yn 2008 fel pwynt cyfeirio at banelau cymeradwyo ar gyfer datblygu modiwlau a dyfarniadau newydd. Cafodd ei gynhyrchu yn dilyn adolygiad o arferion asesu ar draws y Brifysgol yn 2006-07 gan QAC, a'i fwriad yw hybu lefel o gysondeb rhwng modiwlau, yn cynnwys asesiad sydd â phwysiad cyfartal ac osgoi'r risg o orlwytho asesiad i fyfyrwyr a staff.

78 Er y bydd cyfadrannau'n gosod eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gweithredu'r Polisi, mae'r Polisi Asesu'n rhagweld bod mecanweithiau allweddol a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu cyflenwi ac yn diogelu gofynion y Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau methodoleg asesiad a wneir yn ystod monitro blynyddol; cymeradwyo dyfarniadau newydd; a thrwy newidiadau parhaus a wneir i fodiwlau a dyfarniadau presennol. Yn ychwanegol at y dull ailadroddol yma, bydd penaethiaid cyfadrannau dysgu ac addysgu'n parhau â'u gwaith gyda CELT ar ledaenu arferion da.

79 Mae'r Llawlyfr Academaidd yn rhoi fframwaith cyffredin ar gyfer holl ddyfarniadau a addysgir y Brifysgol, gyda'r rheoliadau ar gyfer dyfarniadau ymchwil wedi'u cyhoeddi'n electronig gan y Swyddfa Ymchwil. Mae'r Llawlyfr yn disgrifio sut y mae dyfarniadau a addysgir, a ydynt wedi'u darparu gan y Brifysgol neu mewn cydweithrediad â sefydliadau partner, wedi'u strwythuro mewn fframwaith modiwlaidd, sail credydau, cyffredin. Mae'r rheoliadau'n diffinio strwythur dyfarniadau; rheoli asesiad; marcio a graddio; cynnydd ac ail asesiad. Mae Swyddfa Ansawdd a Pholisi'r Brifysgol yn cynghori cyfadrannau a staff ar y rheoliadau sydd hefyd yn diffinio'r mecanweithiau sydd ar gael i'r Pwyllgor Camddefnyddio Asesu a'r cyfleoedd i apelio yn erbyn ei ganfyddiadau.

80 Mae gan y Brifysgol drefniant bwrdd arholi dwy haen (ac eithrio RWCMD), lle mae byrddau arholi pynciau'n ystyried ac yn cadarnhau perfformiad myfyrwyr ar lefel modiwlau ac y mae byrddau dyfarnu'n ystyried cynnydd myfyrwyr ac yn cadarnhau canlyniadau dyfarniadau. Mae'r awdurdod i gadarnhau a chyhoeddi canlyniadau dyfarniadau wedi'i ddirprwyo'n llawn i fyrddau, ac mae myfyrwyr a staff yn cydnabod bod hyn yn caniatáu rhybudd cynnar, drwy swyddogaeth ganlyniadau clodfawr rhith-amgylchedd dysgu'r Brifysgol.

81 Mae rolau a swyddogaethau byrddau arholi pynciau a dyfarniadau wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd. Mae'r byrddau'n derbyn data asesu wedi'i safoni ar gyfer myfyrwyr unigol sydd wedi'i gynhyrchu o'r system gwybodaeth rheoli myfyrwyr ganolog. Mae cysondeb arferion asesu ar draws y Brifysgol wedi'i ddiogelu hefyd drwy hyfforddiant gorfodol ysgrifenyddion a chadeiryddion bwrdd; presenoldeb rheolwyr ansawdd cyfadrannau a rheolwyr siopau cyngor y cyfadrannau ar fyrddau; mae gofyniad i gadeiryddion bwrdd arwyddo datganiad am ymddygiad y byrddau ac adrodd arnynt i ddeoniaid; a defnyddio gwiriadau dirybudd ar fyrddau gan staff y Gofrestrfa. Yn ogystal, mae'n rôl allweddol gan arholwyr allanol eu bod yn cadarnhau'n ffurfiol ymddygiad cywir y bwrdd o fewn protocolau a rheoliadau cyhoeddedig y Brifysgol. Mae cofnodion a nodiadau cadw eraill y byrddau wedi'u paratoi yn erbyn templed cyffredin a chawsent eu gweld gan y tîm adolygu er mwyn sicrhau'r amddiffyniad gweithdrefnol angenrheidiol. Wedi iddynt gael eu cadarnhau, caiff y cofnodion eu cadw yn swyddfeydd ansawdd y cyfadrannau. Mae gan gadeiryddion y bwrdd a rheolwyr ansawdd cyfadrannau

rwydweithiau ar gyfer rhannu arferion a phrofiad. Mae rheolwyr ansawdd cyfadrannau, yn cynnwys y rheiny o RWCMD, yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn ac yn adrodd i'r Uwch Fforwm Gweinyddol.

82 Mae'n drefn safonol gan y Brifysgol ddefnyddio protocolau safoni a marcio diffiniedig a gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o brotocolau o'r fath yn digwydd. Mae'r protocolau yma hefyd yn ymwneud â holl asesiadau myfyrwyr mewn sefydliadau partner cydweithredol. Mae effeithiolrwydd y broses yma wedi'i sicrhau, yn ei dro, gan y gweithgareddau traws-safoni sy'n digwydd gyda staff y cyfadrannau a'r rheiny o sefydliadau partner. Tyfodd y defnydd mwy systematig yma o ddigwyddiadau o'r fath allan o adolygiad 2007 o effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli safonau darpariaeth gydweithredol y Brifysgol. Mae'r digwyddiadau, yn ychwanegol at ddarparu ar gyfer cydraddoldeb marcio, yn gweithredu hefyd fel fforwm lle gall datblygiadau cwricwlaidd ar y cyd a datblygiadau academaidd eraill ddigwydd mewn sefyllfa partneriaeth. Er nad yw wedi'i gofnodi'n ffurfiol, mae templed yn ailadrodd gofynion y broses safoni fewnol ar gael erbyn hyn er mwyn cofnodi'r traws-safoni. Mae'r Pwyllgor Cydweithredol hefyd yn derbyn adroddiadau golwg gyffredinol o'r gweithgareddau yma a theimlir bod y rhain yn llwyddiannus iawn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod digwyddiadau traws-safoni fel yma'n rhoi esiampl o'r mecanweithiau sydd gan y Brifysgol yn ei le i gynnal safonau academaidd dyfarniadau ar draws sefydliadau partner ac, o'r herwydd, eu bod yn nodwedd o arfer da.

83 Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n hyderus eu bod wedi'u hysbysu'n dda am y tasgau asesu yr oedd gofyn iddynt eu gwneud. Roedd y llawlyfrau cwrs a welwyd gan y tîm yn cynnwys datganiadau safonol wedi'u cymeradwyo ar lefel prifysgol o'r rheoliadau academaidd perthnasol. I ymdrin ag amrywiaeth flaenorol yn y ffordd y gweithredwyd yr asesu, mae'r Llawlyfr Academaidd erbyn hyn yn disgrifio disgwyliadau'r Brifysgol yn fwy eglur. Mae'r Brifysgol yn teimlo y bydd hyn, yn unol â'i phrosesau sicrhau ansawdd, yn gwella cysondeb y gweithredu. Roedd myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw yn ymwybodol hefyd o'r meini prawf asesu a ddefnyddiwyd yn y Brifysgol ond roeddent yn llai cyfarwydd gyda'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ragweld eu datblygiad neu i gategoreiddio dyfarniadau, sef problem a godwyd hefyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr. Ni ddigwyddodd hyn am nad oedd y Llawlyfr Academaidd yn cynnwys gwybodaeth o'r fath ond, yn hytrach, bod myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd deall sut y dylai'r fformiwla gael ei ddefnyddio. Roedd adborth ar asesiad yn broblem hefyd a ganfuwyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr ac mewn cyfarfodydd gyda myfyrwyr oedd yn teimlo ei fod yn amrywio, er gwaethaf cyflwyno taflen ddiogelu, nad oedd rhai myfyrwyr yn gweld ei gwerth.

84 O'r hyn a glywodd y tîm adolygu ac o ystyried y ddogfennaeth oedd ar gael, daeth y tîm i'r casgliad bod asesiad, pa mor ddilys ydyw, pa mor ddibynnol ydyw a chywirdeb ei arferiad yn flaenoriaeth allweddol i'r Brifysgol. Roedd hi'n amlwg ei fod yn flaenoriaeth strategol am fod cyfnodau sylweddol o amser y staff ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio i sicrhau cysondeb arferion a chanlyniadau ar draws y sefydliad. Roedd y gofal yma sydd wedi'i ymestyn i'r trefniadau cydweithredol a'r mecanweithiau ychwanegol a ddefnyddir i sicrhau cydraddoldeb mewn arferion asesu a chanlyniadau mewn darpariaeth gydweithredol, yn faes o arfer da ym marn y tîm.

Arholwyr allanol a'u hadroddiadau

85 Mae'r Brifysgol o'r farn bod ystyried adroddiadau dyfarniad a phwnc arholwyr allanol ar lefel cyfadran a phrifysgol yn un o'r pum ffordd y cynhelir ei safonau academaidd. I gefnogi'r farn yma, mae'n cyhoeddi amrediad o ddogfennaeth gefnogol sy'n disgrifio sut mae'n sicrhau bod y sicrhad y mae arholwyr allanol yn ei ddarparu ar sail gadarn.

86 Am fod y Brifysgol yn defnyddio strwythur bwrdd arholi dwy haen ar gyfer ei darpariaeth a addysgir, ac eithrio RWCMD, mae'n penodi dau fath o arholwr allanol. Mae arholwyr pwnc yn dod o faes y pwnc ac yn asesu safonau perfformiad myfyrwyr ar fodiwlau penodol. Maent yn cymeradwyo ffurf a chynnwys yr asesiad; yn cadarnhau bod safonau academaidd y modiwlau yn briodol ar gyfer y dyfarniad; a bod perfformiad y myfyriwr wedi'i werthuso yn unol â safonau cenedlaethol cydnabyddedig. Mae arholwyr dyfarniadau (nad oes raid iddynt mewn pwnc penodol) yn gyfrifol am wirio bod y byrddau dyfarnu wedi'u gweithredu yn unol â rheoliadau a threfnau'r Brifysgol; am ardystio eu penderfyniadau ac am gadarnhau bod safon y dyfarniad wedi'i gynnal. Yng nghyd-destun yr awdurdod dirprwyedig y mae byrddau dyfarnu wedi'i derbyn i gadarnhau a chyhoeddi canlyniadau dyfarniadau, dylid nodi 'na ellir gwneud unrhyw argymhellion am gyflwyno dyfarniad y Brifysgol heb ganiatâd arholwr dyfarniadau allanol'.

87 Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am 'benodi a diswyddiad arholwyr mewnol ac allanol'. Mae QAC yn gweithredu ar ran y Bwrdd Academaidd i gymeradwyo penodiad yr holl arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth ymchwil ac a ddysgir, ac yn derbyn adroddiadau ganddynt. Yn ymarferol, mae'r Is-grŵp Rheoliadau ac Arholwyr yn ystyried cynigion ar ran QAC am arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau'r Brifysgol a ddysgir ac mae'r Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil yn ystyried trefniadau arholi, yn cynnwys cymeradwyo arholwyr ar gyfer dyfarniadau graddau ymchwil. Mae'r Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil yn gweithredu fel Bwrdd Dyfarnu ar gyfer graddau ymchwil ac yn derbyn holl adroddiadau'r arholwyr allanol a'u hargymhellion ynghyd ag adolygiadau cyfnodol (chwe mis) o'r arholiadau ymchwil sydd wedi digwydd.

88 Mae deoniaid cyfadrannau'n gyfrifol, mewn ymgynghoriad ag arweinwyr rhaglenni a dyfarniadau, am gyflwyniad prydlon gynigion am arholwyr dyfarniadau newydd a addysgir ac mae'r Gofrestra'n gyfrifol am gynnal cyfarwyddiadur o arholwyr cyfredol ac am eu briffio a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am reoliadau, gweithdrefnau, adrodd a ffïoedd. Mae'r Gofrestrfa hefyd yn rhoi copïau i arholwyr newydd o'r adroddiadau blynyddol a gynhyrchwyd gan arholwyr sy'n gadael. Mae'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer cymeradwyo arholwyr allanol wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r Llawlyfr Academaidd ac yn darparu ffordd i'r Brifysgol sicrhau ei bod yn penodi arholwyr sydd â'r lefel angenrheidiol o arbenigedd ac annibyniaeth. Ar gyfer arholwyr pwnc a dyfarniadau mae nifer uchaf o fodiwlau a/neu fyfyrwyr y gellir eu rhoi i arholwr. Mae'r Llawlyfr hefyd yn darparu mecanwaith lle gellir diswyddo arholwr nad yw wedi gwneud ei ddyletswydd/ei dyletswydd yn gywir. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Arolygwyr Ymchwil yn nodi'r gofynion wrth gymeradwyo trefniadau arholi ar gyfer graddau ymchwil, yn cynnwys dyletswyddau cyfarwyddwyr astudio mewn perthynas ag enwebu arholwyr mewnol ac allanol. Mae gan fyrddau arholi graddau ymchwil gadeiryddion annibynnol sy'n gallu cynghori'r arholwyr ar reoliadau priodol.

89 O adroddiadau'r arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth a addysgir oedd ar gael i'r tîm adolygu, roedd hi'n amlwg bod arholwyr yn darparu adroddiadau defnyddiol a

phroffesiynol i'r Brifysgol oedd yn gwneud cyfraniad sylweddol i sicrhau safonau dyfarniad. Roedd yr arholwyr yn dod o amrywiaeth mawr o sefydliadau drwy DU gyfan, gydag arbenigedd oedd yn cyfateb yn dda gyda'r meysydd academaidd sy'n cael eu hasesu. Roedd cofnodion yr Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil yn cadarnhau bod arholwyr graddau ymchwil hefyd yn cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau ymchwil gweithredol.

90 Pan gânt eu penodi, mae arholwyr allanol yn derbyn Llawlyfr Arholwyr Allanol sy'n rhan o'r Llawlyfr Academaidd. Mae arholwyr newydd hefyd yn cael cyfle i fynychu digwyddiad hyfforddi a ddarperir gan y Swyddfa Ansawdd a Pholisi.

91 Ar gyfer dyfarniadau a ddysgir, mae gofyn i arholwyr allanol ddarparu adroddiad blynyddol gan ddefnyddio templedi dwyieithog a ddarperir gan y Brifysgol. Mae'r rhain yn rhoi'r cyfle i arholwyr roi sylwadau ar y gefnogaeth y maent wedi'i derbyn mewn perthynas â'u dyletswyddau; yr ymateb i'w sylwadau blaenorol; y broses asesu yn gyffredinol a'u rôl ynddi; a'r safonau academaidd. Mae sylwadau ar safonau academaidd yn ymwneud â marcio a'i gysondeb, safoni, cysondeb safonau gyda datganiadau meincnod pwnc ASA a lefel yr astudio. Mae'r ffurflen adrodd hefyd yn gofyn i arholwyr roi sylwadau ar faterion sy'n berthnasol i unrhyw ddarpariaeth gydweithredol allai ddisgyn i gwmpas y bwrdd perthnasol, yn cynnwys y cyfle i weld y myfyriwr yn gweithio; y marcio a wneir mewn sefydliadau partner cydweithredol; ei safoni; a chydraddoldeb safonau a gyrhaeddir gan y myfyrwyr perthnasol. Gall arholwyr hefyd roi sylwadau ar y strwythur cyffredinol, trefniant a marcio'r holl asesiadau ac amlygu meysydd o arfer da neu'r rheiny sydd angen sylw. Yn ogystal, mae gofyn i arholwyr allanol y bwrdd dyfarniadau roi sylwadau ar ymddygiad y bwrdd. Er bod disgwyl i arholwyr allanol fynychu'r byrddau perthnasol, lle nad oes modd osgoi absenoldeb, mae gan yr Is-grŵp Rheoliad ac Arholwyr y pŵer i adolygu canlyniadau asesu'r dyfarniadau fel rhan o'u cadarnhad.

92 Ers 2005-06, mae adroddiadau arholwyr allanol wedi'u cyflwyno'n electronig drwy'r Swyddfa Ansawdd a Pholisi, gan hwyluso'r gwaith o'u holrhain, yn cynnwys eu trosglwyddo i'r deon perthnasol, Cadeirydd QAC a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Datblygiad Academaidd). Mae hyn yn darparu ar gyfer gweithredu ar unwaith os yw hynny wedi'i warantu ac ystyriaeth gynnar o faterion ar lefel sefydliadol allai godi. Caiff adroddiadau eu craffu'n ffurfiol gan ddeoniaid, ynghyd ag arweinwyr dyfarniad/pwnc priodol, penaethiaid adrannol a swyddogion arholi. O'r ymatebion a welwyd, cadarnhaodd y tîm adolygu eu bod naill ai wedi'u harwyddo gan y deon neu, mewn nifer fechan o achosion, swyddog cyfadran uwch y mae'r deon wedi dirprwyo'r dasg iddynt. Roedd yr ymatebion yn berthnasol i'r materion a godwyd gan yr arholwyr ymhob achos ac yn dangos agwedd broffesiynol i'r cyngor a gynigiwyd.

93 Yn achos yr arholiadau graddau ymchwil, mae arholwyr allanol yn darparu adroddiadau i dempled safonol ar y thesis, yr arholiad llafar a pherfformiad yr ymgeisydd. Mae'r Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil yn defnyddio adborth o'r fath yn eu hystyriaeth barhaus o'r cyngor a ddarperir a'r protocolau a ddefnyddir i gefnogi'r broses arholi. Mae Cadeirydd yr Is-grŵp hefyd yn adolygu'r adroddiadau i gyd er mwyn canfod unrhyw arferion da neu feysydd sy'n achosi pryder sydd wedi'u bwydo'n ôl yn uniongyrchol i'r pennaeth ymchwil cyfadran perthnasol.

94 Mae adroddiadau arholwyr allanol a'r ymatebion iddynt yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer amrywiaeth o brosesau adolygu a monitro dyfarniadau'r Brifysgol. O'r ddogfennaeth

sy'n dangos y prosesau yma a roddir iddo, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod yr ystyriaeth a roddir i faterion sy'n codi o adroddiadau arholwyr heb ei ddangos yn llawn yn ei adroddiadau, heblaw ar lefel modiwlau. Yn ogystal, roedd hi'n amlwg bod ail-amseriad y broses fonitro flynyddol (gwelwch baragraff 61) wedi cael effaith hefyd am nad yw'r holl adroddiadau arholwyr allanol a/neu fyrddau arholiadau ail-sefyll yn eu lle pan oedd yr adroddiadau monitro blynyddol wedi'u paratoi. Dan amgylchiadau o'r fath, caiff adroddiadau hwyr gan arholwyr allanol eu cyfeirio'n uniongyrchol at fyrddau rhaglen adrannol i'w hystyried a'u cynnwys yn y sail tystiolaeth ar gyfer adolygiad y flwyddyn ddilynol.

95 Ers blynyddoedd lawer, mae'r Brifysgol wedi gwneud adolygiad o'r holl adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer dyfarniadau a ddysgi. Yn y gorffennol, cadeirydd QAC oed dyn eu paratoi, ond erbyn hyn mae'r Swyddfa Ansawdd a Pholisi yn eu paratoi a chânt eu cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd lle mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r dadansoddiad yn cael eu hystyried. Cafodd y tîm adolygu gopïau o'r adroddiadau ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Roedd ganddynt fformat safonol ac roeddent yn rhoi safbwynt defnyddiol ar weithgaredd asesu'r Brifysgol. Wrth i'r adroddiadau alinio fwy a mwy gyda blaenoriaethau'r Polisi Asesu, mae eu gwerth yn cynyddu ac maent yn gwneud cyfraniad mwy sylweddol i sicrhau safonau ar draws y sefydliad.

96 O'r ddogfennaeth sydd ar gael iddo ac o'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda staff, gallai'r tîm adolygu ffurfio'r farn bod gan y Brifysgol drefnau ac arferion ar gyfer ei ymgysylltiad ag arholwyr allanol a oedd wedi'u halinio â'r *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd academaidd a safonau mewn addysg uwch (Cod Ymarfer),* a gyhoeddwyd gan ASA. Mae defnydd y Brifysgol o arholwyr allanol a'u hadroddiadau'n briodol ac yn gyson ac wedi helpu i sicrhau bod asesiad myfyrwyr a diogelwch eu dyfarniadau wedi'i adeiladu ar sylfeini cadarn.

Pwyntiau cyfeirio allanol

97 Drwy ei fframwaith sicrhau ansawdd mae'r Brifysgol yn ceisio sicrhau bod ei arferion yn adlewyrchu amrediad o bwyntiau cyfeirio allanol yn briodol; mae'r rhain wedi'u hystyried mewn amrywiaeth o fforymau allanol a mewnol.

98 Mae prosesau cymeradwyo ar gyfer dyfarniadau newydd yn chwarae rhan allweddol mewn sicrhau aliniad gyda phwyntiau cyfeirio allanol priodol. Argymhellir bod cynigwyr cyfeirio at y *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), datganiadau meincnod pynciau perthnasol, adrannau o'r *Cod Ymarfer* a dogfennaeth PSRB.

99 Mae disgwyliadau'r pwyntiau cyfeirio allanol yma'n derbyn sylw hefyd yn nogfennaeth a gofynion monitro'r dyfarniad. Mewn trafodaethau gyda staff, cadarnhawyd eu gwerthfawrogiad o'r pwyntiau cyfeirio allanol disgwyliedig a'u defnydd ym mhrosesau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Dangosodd y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd barodrwydd i amsugno ac ymdrin â'r dylanwadau allanol ehangach sy'n effeithio ar bortffolio dyfarniadau'r Brifysgol.

100 Mae'r manylebau modiwl a rhaglen yn rhannau allweddol o ddogfennaeth y dyfarniadau a ystyrir drwy drefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Cafodd y rheini a welwyd gan y tîm adolygu eu paratoi i fformat safonol, yn cyfeirio'n eglur at

ddatganiadau meincnod pwnc perthnasol a chanddynt ffurf a chynnwys sy'n gyffredin i ddogfennau o'r fath ar draws y sector. Roeddent hefyd yn dangos y berthynas gyffredinol rhwng darparu canlyniadau dysgu a fwriedir a safon y dyfarniad, felly gallent ddangos y berthynas rhwng cynllun y cwricwlwm ac asesiad.

101 Mewn perthynas â'r rheoliadau ar gyfer dyfarniadau academaidd, mae diffiniadau credyd y Brifysgol yn gyfatebol â'r rheiny a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau'r DU; gyda'r *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)*; a gyda'r System Drosglwyddo Credyd Ewropeaidd. Mae'r rheoliadau hefyd yn defnyddio diffiniad y lefelau yn FHEQ fel eu meincnod ar gyfer disgrifio'r dyfarniadau i gyd.

102 Darparodd y Brifysgol ddogfen gryno i'r tîm adolygu sy'n amlinellu ei hystyriaeth ffurfiol o adrannau diwygiedig o'r *Cod Ymarfer*. Roedd hyn yn dangos bod QAC ers 2006, yn ogystal â'r cyfeiriad blaenorol at is-grwpiau a phwyllgorau perthnasol, wedi chwarae rôl gydlynol mewn ystyried y *Cod* ac wedi cymryd cyfrifoldeb ar ran y Bwrdd Academaidd am sicrhau bod darpariaethau'r *Cod* wedi'u cynnwys yn nulliau perthnasol y Brifysgol. Roedd y ddogfen a gynhyrchwyd gan y Brifysgol yn dangos hefyd sut roedd ystyriaeth yn gofyn gwneud ymgynghoriadau perthnasol, ystyriaeth gan bwyllgorau a chymeradwyo'r newidiadau buddiol a gododd.

103 Yn ei dogfen hunanwerthusiad dywedodd y Brifysgol bod ei 'fframwaith ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd academaidd yn rhoi ystyriaeth briodol i bwyntiau cyfeirio allanol yn cynnwys Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch ASA [FHEQ], y *Cod ymarfer,* Datganiadau Meincnod Pynciau a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)*. Mae'n adlewyrchu egwyddorion a disgwyliadau'r fframweithiau yma yn ei dyfarniadau, er bod rhai gwahaniaethau gyda chyfundrefn enwau a manylion'. O'r ddogfennaeth a welwyd gan y tîm adolygu a'r trafodaethau a gafodd gyda staff, daeth y tîm i'r casgliad bod y disgrifiad yma a roddwyd gan y Brifysgol yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa. Daeth y tîm i'r casgliad hefyd, heblaw yn yr achos manwl sy'n derbyn sylw mewn rhan arall o'r adroddiad hwn (gwelwch baragraff 200), mae'r argymhellion a'r arweiniad a ddarparwyd gan y *Cod Ymarfer* wedi'u hymdrin yn arferion perthnasol y Brifysgol.

Adolygiad ac achrediad lefel rhaglen gan gyrff allanol

104 Pwysleisiodd y Brifysgol, o ystyried ffocws ei gweithgareddau academaidd, bod achrediad gan PSRB o arwyddocâd mawr i'w darpariaeth. Mae gan bob un o gyfadrannau'r Brifysgol, i raddau amrywiol, ddarpariaeth academaidd sy'n atebol i achrediad o'r fath. Mae amrediad eang o ddarpariaeth yn ymwneud â bron i 40 o wahanol gyrff allanol sy'n gyfrannog yn y gwaith o achredu mwy na 120 o ddyfarniadau. O ystyried hyd amrywiol yr achrediad a gynigir gan y PRSB a graddfa'r gweithredu, mae gan y Brifysgol amserlen weithredol o gyflwyniadau sydd, hyd yn hyn, wedi bod yn amodol ar gymeradwyaeth gan QAC. Ers 2007, mae'r gymeradwyaeth hon wedi'i datganoli i FQAC a hysbysir QAC am achrediadau llwyddiannus ar gyfer eu nodi.

105 Mae adroddiadau achrediadau PRSB wedi'u derbyn fel arfer gan yr arweinydd pwnc/rhaglen perthnasol ac mae copïau'n mynd i'r deon cyfadran perthnasol. Gofynnir bod FQAC yn cymeradwyo'r ymatebion i'r adroddiadau yma ac i fonitro'r cynlluniau gweithredu dilynol drwy'r broses fonitro flynyddol. Fe allai'r mecanweithiau ar gyfer ystyried yr adroddiadau'n fanwl amrywio rhwng cyfadrannau oherwydd eu strwythurau

rheoli mewnol. O drafodaethau gyda staff ac o'r ddogfennaeth sydd ar gael i'r tîm adolygu, roedd ymgysylltiad ar lefel y gyfadran gyda'r broses achredu a'i chanlyniadau'n ymddangos yn foddhaol; ond, roedd manylion yr adroddiad i QAC ar lefel sefydliadol yn isel a gallai olygu bod cyfle wedi'i golli i rannu arfer da.

106 Yn ychwanegol at ei gweithgareddau achredu, mae'r Brifysgol, ers yr Archwiliad Parhad, wedi cymryd rhan yn y gwaith o Adolygu rhaglenni graddau ymchwil gan ASA ar ran Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a ddywedodd bod gallu'r sefydliad i sicrhau a gwella ansawdd a safonau ei ddarpariaeth rhaglenni ymchwil yn briodol ac yn foddhaol. Cafodd y Brifysgol gysylltiad ag Adolygiadau Datblygiadol ASA hefyd a gafodd eu gwneud mewn dau o'i golegau partner (Mehefin 2008). Cafodd yr adroddiadau adolygu eu cyflwyno i'r cyfarfod QAC mwyaf diweddar.

Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel weithredol a sefydliadol

107 Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo'n gryf i gynnwys myfyrwyr yn ei rheolaeth ar ansawdd academaidd. Nod y Prosiect Disgwyliadau Myfyrwyr a wnaed yn 2007-08 oedd canfod beth roedd myfyrwyr yn y Brifysgol yn ei ddisgwyl o fywyd prifysgol. Roedd y rhaglen ymchwil saith mis yn cynnwys ymgynghoriad eang iawn gyda myfyrwyr drwy grwpiau ffocws a fforwm. Gwnaeth yr adroddiad eang a gafwyd o ganlyniad i'r ymchwil nifer o argymhellion ar gyfer gwella profiad y myfyriwr, gan gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr (gwelwch baragraff 112).

108 Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn eistedd ar y Bwrdd Llywodraethwyr a'i Bwyllgor Materion Myfyrwyr ac mae'n cynnal tri chyfarfod swyddogol gyda'r Gyfarwyddiaeth bob blwyddyn, gyda mynediad uniongyrchol a pharod ar amseroedd eraill. Drwy'r fforymau yma, gellir ymdrin â materion yn gyflym. Mae'r Llywydd hefyd yn cyfarfod gyda deoniaid cyfadrannau. Mae gan bob swyddog sabothol bwyntiau cysylltu wedi'u henwi yn y Gyfarwyddiaeth. Mae effeithiolrwydd cynrychiolaeth swyddog sabothol wedi bod yn amrywiol yn y gorffennol, ond mae wedi gwella yn dilyn penodiad Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr sy'n cefnogi swyddogion sabothol a chynrychiolwyr cwrs, gan hybu eu hyfforddiant, a mynychu pwyllgorau Prifysgol a chyfadrannau (gwelwch baragraff 111). Bydd cyfnodau sabothol o hyn ymlaen wedi'u hyfforddi ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn trafod datblygiadau mawr yn y Brifysgol gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr; er enghraifft, yn dilyn anawsterau mewn cysylltiad ag agor y ganolfan ATRiuM yng Nghaerdydd, ymgynghorir â myfyrwyr a rhoddir gwybodaeth iddynt mewn ffordd fwy effeithiol yn ystod y paratoadau presennol i symud cyfadran i gampws gwahanol. Cafodd Undeb y Myfyrwyr ei gynrychioli hefyd ar y Grŵp Llywio a baratôdd ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol. Yn yr RWCMD mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn eistedd ar Fwrdd y Coleg, ac yn cyfarfod gyda'r Uwch Dîm Rheoli yn y Coleg ddwywaith y tymor. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y ddau Undeb Myfyrwyr yn gweithio'n agos ac yn dda gyda'r Brifysgol a'r Coleg.

109 Mae mwy na 500 o gynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau sefydliad, cyfadran, adran a chwrs neu gynllun. Darperir hyfforddiant ar y cyd gan Undeb y Myfyrwyr a CELT. Dywedodd cynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau sefydliadol eu bod wedi derbyn croeso a bod pobl yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Fodd bynnag, roedd y tîm adolygu'n ei chael hi'n anodd cadarnhau presenoldeb myfyrwyr mewn rhai cyfarfodydd am nad oedd y cofnodion yn pennu rolau yn y rhestrau presenoldeb.

110 Mae'r Brifysgol yn gofyn i gyfadrannau ystyried ac ymateb i faterion a godwyd gan gynrychiolwyr myfyrwyr. Mae strwythurau ar gyfer cynrychiolaeth yn amrywio rhwng cyfadrannau ond maent yn cynnwys pwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr; fforymau myfyrwyr; a mecanweithiau eraill llai ffurfiol. Mae'r cyrff yma'n adrodd i'r pwyllgorau cyfadrannol gweithredol a defnyddir eu hadborth hefyd yn y broses fonitro flynyddol. Roedd cofnodion pwyllgorau cwrs neu fyrddau cynllun yn dangos bod presenoldeb cynrychiolwyr myfyrwyr yn anghyfartal; ond roedd y rheiny a fynychodd yn gallu cymryd rhan yn llawn a chafodd eu sylwadau eu cofnodi'n glir, er nad oedd gweithrediadau a gynlluniwyd i ymateb i'w sylwadau wedi'u nodi'n fanwl bob amser.

111 Dywedodd y ddogfen hunanwerthusiad bod cyfraniad ac ymrwymiad cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel y rhaglen yn gryf. Canfu'r tîm adolygu bod effeithiolrwydd cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefelau cyfadrannau a rhaglenni wedi amrywio yn y gorffennol, ond mae wedi cynyddu'n ddiweddar oherwydd gwaith y Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr. Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm bod y Cydlynydd wedi helpu'n fawr iawn gyda chodi proffil y rôl a datblygu cymuned o gynrychiolwyr cwrs drwy ddarparu digwyddiadau cymdeithasol yn ogystal â hyfforddiant. Mae'r Cydlynydd hefyd yn gweithio gyda staff i ddatrys materion a godir gan fyfyrwyr.

112 Croesawodd y myfyrwyr hefyd benodiad diweddar Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr (SVRs) ymhob cyfadran. Mae'r fenter strategol hon gan y Brifysgol yn ymateb uniongyrchol i adroddiad Disgwyliadau'r Myfyrwyr. Gwnaeth mwy na 70 o fyfyrwyr gais am 29 o benodiadau fel SVRs sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer y rôl ac yn derbyn bwrsarïau. Cyfarfu'r tîm adolygu â rhai SVRs ac roeddent wedi'u plesio gan eu hymroddiad a'u brwdfrydedd. Cadarnhaodd y cynrychiolwyr hyn eu bod yn gallu cynrychioli barn myfyrwyr yn effeithiol ar lefel uwch yn eu cyfadrannau. Nododd myfyrwyr eraill a fu'n siarad â'r tîm adolygu bod, ers cyflwyno SVRs, problemau a oedd ar un amser yn 'stopio' ar lefel y cynllun neu'r rhaglen, yn awr yn derbyn clust ac yn cael eu trin ar lefel y gyfadran.

113 Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ymchwil ôl-radd yn cyfarfod mewn fforymau sail cyfadran, ac roedd cofnodion un o'r fforymau yma'n dangos bod problemau wedi'u hadrodd a'u trafod yn glir gyda phennaeth ymchwil y gyfadran.

114 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y system cynrychiolaeth y myfyrwyr yn gweithio'n gynyddol effeithiol erbyn hyn ar lefel y gyfadran. Nid yw myfyrwyr rhan amser bob amser yn teimlo eu bod wedi'u cynrychioli'n dda, ond mae Undeb y Myfyrwyr wedi cydnabod anawsterau ymarferol cynrychioli'r etholaeth yma, ac mae'n ceisio canfod dulliau eraill.

115 Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn effeithiol iawn hefyd yn RWCMD lle mae 10 y cant o boblogaeth y myfyrwyr yn cymryd rolau cynrychiolaeth weithredol. Cadarnhaodd myfyrwyr RWCMD i'r tîm adolygu eu bod yn gallu hysbysu staff yn hawdd am eu barn.

116 Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'w sefydliadau partner cydweithredol fabwysiadu ei hagwedd tuag at gynrychiolaeth myfyrwyr. Caiff trefniadau o fewn y sefydliadau partner eu cymeradwyo pan gânt eu dilysu, a chânt eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r gwaith monitro blynyddol a chyfnodol yn yr Adolygiad Sefydliadol. Mae adroddiadau monitro blynyddol gan bartneriaethau cydweithredol wedi dangos bod cynrychiolaeth myfyrwyr yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol, ond roedd diffyg manylder mewn rhai adroddiadau'n

golygu na ellid cadarnhau ei effaith bob tro. Wrth i'r Brifysgol barhau i ddatblygu'r broses fonitro flynyddol efallai y byddai'r Brifysgol eisiau monitro ac ymdrin â hyn.

117 Mae'r Brifysgol wedi gwneud ymrwymiad sefydliadol cryf i wrando ar farn myfyrwyr ac ymateb iddynt. Canfu'r tîm adolygu bod yr ymrwymiad yma'n cael ei drosi'n weithredu strategol effeithiol, a bod myfyrwyr yn siarad mewn ffordd bositif iawn am y gwelliannau a gafwyd o ganlyniad i hyn i gynrychiolaeth y myfyrwyr. Daeth y tîm i'r casgliad bod y datblygiadau yma, ac yn arbennig rolau'r Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr a SVRs, y dylid eu canfod a'u hargymell fel arfer da, gydag addewid arwyddocaol ar gyfer y dyfodol.

Gweithdrefnau'r myfyrwyr ar gyfer gwneud cwynion ac apeliadau

118 Mae trefnau'r Brifysgol ar gyfer delio gyda chwynion myfyrwyr ar rheiny ar gyfer apeliadau academaidd wedi'u disgrifio'n fanwl yn Llawlyfr Academaidd y Brifysgol, neu Lawlyfr Academaidd RWCMD, ac mewn llyfrynnau ar wahân sydd ar gael i fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth am y gweithdrefnau cwyno ac apelio drwy nifer o sianelau: llawlyfrau myfyrwyr yn cynnwys llawlyfr y Brifysgol i fyfyrwyr ymchwil; 'GlamLife' a gwefan y Brifysgol; rhaglen hyfforddi cynrychiolwyr y myfyrwyr; CELT, a siopau cyngor cyfadrannau. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn cyfeirio myfyrwyr at Swyddfa Ansawdd a Pholisi'r Brifysgol a'r Ysgrifennydd Academaidd ar gyfer yr RWCMD, fel ffynonellau cyngor awdurdodol ar gwynion ac apeliadau, ac mae cefnogaeth ar gael drwy Undeb y Myfyrwyr neu Wasanaethau'r Myfyrwyr.

119 Yn ddiweddar mae trefnau'r Brifysgol wedi'u hadolygu i sicrhau aliniad gyda'r *Cod Ymarfer, Adran 5: Apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr ar faterion academaidd*. Mae adroddiad yr adolygiad yma i'r Bwrdd Academaidd wedi dangos bod y Brifysgol yn hyderus bod ei threfnau mewn perthynas â chwynion ac apeliadau wedi'u halinio'n agos ag argymhellion y *Cod* ac yn argymell dim ond newidiadau bychain i wella'r arferion a'r trefnau cyfredol. Roedd yr adolygiad yn awgrymu y dylid newid enw'r Grŵp Adolygu Cwynion i'r Grŵp Adolygu Cwynion ac Apeliadau.

120 Yn y ddogfen hunanwerthusiad dywedodd y Brifysgol ei od yn 'ceisio datrys yn gyflym ac yn deg unrhyw gŵyn sydd gan fyfyriwr am wasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol neu driniaeth myfyriwr neu fyfyrwyr gan unrhyw aelod o staff, myfyriwr arall neu ymwelydd'. Nododd hefyd ei bod yn annog datrys cwynion yn anffurfiol lle bo'n bosib a'i fod yn teimlo bod y dull yma o ddatrys problemau wedi'i ddefnyddio'n effeithiol. Mae mecanweithiau'r Brifysgol ar gyfer datrys cwyn yn ddibynnol ar natur y gŵyn. Mae problemau sy'n ymwneud â materion academaidd, profiad y myfyriwr, gwahaniaethu annheg, arferion drwg neu anwedduster wedi derbyn sylw dan y Drefn Cwynion Myfyrwyr, ond mae cwynion sy'n ymwneud â chyhuddiadau o aflonyddu a/neu gamymddygiad yn derbyn sylw drwy brosesau ar wahân.

121 Mae trefn gwynion ffurfiol y Brifysgol yn dilyn tri cham. Mae cam un yn gofyn i'r myfyrwyr nodi eu cwyn mewn ysgrifen i ddeon y gyfadran/pennaeth y gwasanaeth, neu yn achos RWCMD, yr Ysgrifennydd Academaidd. Os na chaiff ei datrys ar y cam yma, gall y myfyriwr symud i gam dau sy'n gofyn defnyddio Cymodwr Myfyrwyr, sef aelod annibynnol o staff heb unrhyw ymwneud blaenorol gyda'r gŵyn a fydd yn ceisio datrys y gŵyn gyda'r deon cyfadran neu'r pennaeth adran priodol ynghyd ag

aelod o'r Gyfarwyddiaeth. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad yma: er bod y Cymodwr Myfyrwyr yn ymdrin â niferoedd gweddol fach o gwynion myfyrwyr bob blwyddyn, mae'r rôl yn ychwanegiad defnyddiol i drefnau'r Brifysgol. Ar gam tri gellir cyfeirio'r gŵyn at yr Is-Ganghellor neu'r Pennaeth yn achos yr RWCMD. Gall cwynion na chânt eu datrys ar gam tri cael eu cyfeirio at Swyddfa'r Beirniad Annibynnol.

122 Mae trefn gwyno'r Brifysgol yn ymwneud â phob myfyriwr sy'n astudio yn y Brifysgol neu sy'n astudio drwy ddarpariaeth o bell, yn cynnwys myfyrwyr ymchwil ôl-radd a chyn-fyfyrwyr (o fewn 12 mis i orffen bod yn fyfyriwr). Gall myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni Prifysgol mewn sefydliadau partner hefyd ddefnyddio'r drefn gwyno mewn perthynas â materion sydd wedi'u diffinio yng nghontract y Brifysgol ac mae'r Brifysgol yn gyfrifol am y partner. Pan fydd y sefydliad partner yn gyfrifol am faterion, disgwylir i'r myfyriwr ddefnyddio trefn gwyno'r sefydliad partner.

123 Dan y Drefn Apeliadau Academaidd, gall myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad a wneir gan fwrdd arholi neu benderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Camddefnyddio Asesu. Mae'r seiliau ar gyfer apelio wedi'u rhestru yn y Llawlyfr Academaidd. Mae barn academaidd wedi'i eithrio'n benodol fel sail ar gyfer apêl. I fyfyrwyr ymchwil ôl-radd mae'r trefnau ar gyfer adolygu penderfyniad asesu wedi'u nodi yn Rheoliadau Graddau Ymchwil y Brifysgol.

124 Er bod cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr wedi nodi bod myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd weithiau i ganfod gwybodaeth am y drefn gwyno, roedd y mwyafrif o fyfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n teimlo bod y drefn gwyno'n glir ac yn hawdd ei defnyddio a'u bod yn gwybod lle i fynd i gael cefnogaeth a chyngor pe bai raid. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm hefyd eu bod yn ymwybodol o'r trefnau ar gyfer gwneud apêl academaidd.

125 Yn y ddogfen hunanwerthusiad nododd y Brifysgol bod Grŵp Adolygu Cwynion y Brifysgol yn monitro, gwerthuso ac yn adolygu achosion a gweithdrefnau. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob blwyddyn ac yn derbyn adroddiadau gan ddeoniaid cyfadrannau a phenaethiaid adrannau corfforaethol. Mae dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd a'r ymatebion a wnaed yn ystod y sesiwn academaidd blaenorol wedi'i weithredu gan y Grŵp a'i adrodd i'r Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod hyn yn digwydd. Nododd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd bod Swyddog Ansawdd a Pholisi'n cefnogi'r Clerc i Fwrdd y Llywodraethwyr sy'n gwneud adolygiad blynyddol o apeliadau ar ran y Bwrdd Academaidd, gan ystyried nifer, cwmpas a natur yr apeliadau. Mae gweithgaredd hyfforddi staff blynyddol wedi'i gomisiynu ar gyfer yr holl staff gweinyddol ac academaidd ar drefnau cwyno ac apelio.

126 Yn y ddogfen hunanwerthusiad cydnabu'r Brifysgol ei bod wedi wynebu problemau ar brydiau gyda'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu achosion dan y trefnau cwyno a'i bod yn ceisio datrys y broblem hon drwy gadw dyddiau bob mis yn nyddiaduron cyfranogwyr allweddol. Honnodd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd bod y Brifysgol yn hyderus bod ei threfnau yn eglur, teg a chyfiawn. O'r dystiolaeth sydd ar gael, byddai'r tîm adolygu'n cytuno gyda'r farn hon ac roeddent yn ystyried trefnau'r Brifysgol ar gyfer cwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd yn briodol ac yn effeithiol ac yn cyfateb â'r *Cod Ymarfer.*

Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr

127 Dywedodd y Brifysgol ei bod yn ystyried adborth yn werthfawr iawn a bod y systemau perthnasol yn systematig a chynhwysol. Mae adborth drwy 'ddeialog gyda myfyrwyr, cyflogwyr, arholwyr allanol, cyrff proffesiynol a phartïon eraill sydd â diddordeb' wedi'i nodi yn y Llawlyfr Academaidd fel ffactor sy'n nodwedd allweddol o brosesau sicrhau ansawdd y sefydliad. Mae mecanweithiau ar gyfer casglu adborth yn gwahaniaethu ar draws y sefydliad ac yn adlewyrchu amrywiaeth ac amlygrwydd y ddarpariaeth. Nododd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod y Brifysgol yn darparu cyfleoedd lu i fyfyrwyr ddarparu adborth. Rhoddir gwybodaeth i fyfyrwyr mewn llawlyfrau ar fecanweithiau adborth.

128 Sicrheir adborth am fodiwlau gan ddefnyddio templed safonol y gellir ei deilwra'n lleol. Ond mae myfyrwyr yn feirniadol o amrywiaeth a fformat y ffurflenni gwerthuso a ddefnyddir. Mae un gyfadran wedi arbrofi'n barod gyda darparu'r holiaduron drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Nododd y ddogfen hunanwerthusiad y bydd y Brifysgol yn cyflwyno ffurflen werthuso modiwlau safonol wedi'i hadolygu, a'i darparu ar-lein i fyfyrwyr i'w defnyddio drwy'r Brifysgol gyfan o fis Hydref 2008.

129 Derbynnir adborth y myfyrwyr gan yr arweinydd modiwl sy'n ei gynnwys yn yr adroddiad modiwl. Caiff yr adroddiadau modiwl eu hanfon at arholwyr allanol cyn byrddau asesu ac maent yn bwydo i mewn i fonitro blynyddol. Cesglir adborth gan fyfyrwyr yn y sefydliadau partner cydweithredol ar lefel modiwlau gan y partneriaid, gan ddefnyddio ffurflen y Brifysgol fel arfer, a'i gynnwys yn yr adroddiadau monitro blynyddol a gyflwynir i'r gyfadran. Cesglir adborth yn RWCMD drwy holiadur arolwg diwedd blwyddyn.

130 Dim ond un ymysg nifer o fecanweithiau casglu adborth myfyrwyr yw'r ffurflenni gwerthuso modiwl. Mynegir barn y myfyrwyr drwy gynrychiolaeth ar bwyllgorau lleol a Phrifysgol (gwelwch baragraff 116) a disgrifiodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu bod diwylliant agored yn y mwyafrif o adrannau oedd yn caniatáu ar gyfer adborth anffurfiol cyfoethog. Mae panelau ar gyfer adolygiad cyfnodol ac ISR yn cyfarfod gyda myfyrwyr i drafod eu profiad o raglenni. Y prif ddull arall o gasglu adborth yw arolygon mewnol ac allanol.

131 Mae CELT yn gwneud dadansoddiad o ddata a dderbynnir gan yr AMC ac mae'n adrodd i QEC ar newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ar lefel y pwnc a'r sefydliad. Mae'r dadansoddiadau yma'n bwydo i mewn i'r monitro blynyddol, ynghyd â data a gasglwyd o'r arolwg myfyrwyr blynyddol a gynhelir drwy'r sefydliad cyfan sy'n casglu data ar-lein am agweddau allweddol o brofiad dysgu'r myfyriwr sydd wedi'u dewis gan QEC. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol. Mae'r ddogfen hunanwerthusiad wedi darparu esiamplau o effaith barn myfyrwyr a fynegir drwy AMC a'r arolwg myfyrwyr blynyddol drwy'r sefydliad cyfan o flaenoriaethau sefydliadol a chynlluniau gweithredu lleol.

132 Cesglir adborth am wasanaethau cefnogi drwy arolygon y defnyddiwr, megis Arolwg Boddhad y Cwsmer LCSS ac arolygon o'r ymgeiswyr gan yr Adran Farchnata a Recriwtio Myfyrwyr. Mae cwestiynau am wasanaethau cefnogi wedi'u cynnwys hefyd ar yr arolwg myfyrwyr blynyddol drwy'r sefydliad cyfan ac arolwg myfyrwyr blynyddol RWCMD.

133 Fel y nodwyd o'r blaen (gwelwch baragraffau 32, 39, 107), mae Prosiect Disgwyliadau'r Myfyrwyr, oedd yn cynnwys mwy na 2,000 o fyfyrwyr, yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i wrando ar fyfyrwyr. Cafodd adroddiad y prosiect yma ei gyhoeddi yn 2008 ac roedd yn cynnwys mwy na 100 o argymhellion i'r Brifysgol eu gweithredu; mae gwaith wedi cychwyn ar fwrw ymlaen gyda'r rhain.

134 Cesglir adborth graddedigion o amrywiaeth o ffynonellau a chaiff ei ddefnyddio i hysbysu digwyddiadau achredu ac adolygiadau pwnc a chyfnodol. Yn yr un modd, defnyddir data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyrchnodau cyntaf a gesglir gan yr Uned Gyrfaoedd i hysbysu digwyddiadau lefel israddedigion. Hefyd gwelodd y tîm adolygu esiampl o arolwg o gyn-fyfyrwyr a weithredwyd ar gyfer adolygiad cyfnodol ôl-radd oedd yn casglu data nid yn unig am yrfaoedd ond hefyd farn graddedigion am y cyrsiau roeddent wedi'u hastudio, ac awgrymiadau am ffyrdd o'u gwella.

135 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod y dimensiwn galwedigaethol cryf yn narpariaeth y Brifysgol yn gofyn cysylltu'n uniongyrchol ac yn gynhyrchiol gyda chyflogwyr. Roedd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd yn honni bod rhyngweithio o'r fath yn effeithio ar gwricwla ac addysgu ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn 'alwedigaethol berthnasol, wedi'i diweddaru ac yn addas i'r pwrpas'.

136 Sicrheir cysylltiad uniongyrchol â chyflogwyr drwy fecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol. Nid yw'r Brifysgol yn rhagnodi sut y dylid casglu adborth gan gyflogwyr ac nid yw chwaith yn gosod y gofynion isaf. Er enghraifft, mae rhai cyfadrannau wedi sefydlu byrddau cynghori o ddiwydianwyr ac ymarferwyr. Mae mecanweithiau ffurfiol eraill yn cynnwys trefniadau partner gyda darparwyr gwasanaeth megis gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd. Yn RWCMD, mae cysylltiad yn digwydd drwy amrywiaeth o rwydweithiau o fewn y proffesiynau cerdd a drama. Derbynnir adborth ar ansawdd darpariaeth lleoliadau gan y myfyrwyr yn y Coleg ac mewn cyfadrannau eraill.

137 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod y Brifysgol yn hyderus bod y mecanweithiau amrywiol a ddefnyddir i gasglu adborth sy'n hysbysu cynlluniau gweithredu a datblygiad lleol a'r Brifysgol yn effeithiol. Mae'r tîm adolygu'n ardystio'r farn hon yn nhermau'r amrywiaeth eang o gyfleoedd adborth a gyflwynir i fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr, ond hefyd yn nhermau'r defnydd a wneir o'r adborth i wella profiad dysgu'r myfyrwyr.

Derbyniad myfyrwyr a'r defnydd sydd wedi'i wneud o'r ystadegau cwblhau a chynnydd

138 Mae Cynllun Strategol y Brifysgol yn pennu targedau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol o ran ansawdd y llif myfyrwyr y mae'n eu cymryd i mewn a hynt y myfyrwyr tuag at lwyddiant yn eu dyfarniadau. O'r herwydd, mae penodiad a chadwraeth myfyrwyr yn cynrychioli themâu cynllunio dominyddol drwy gydol y cyfnod 2005 hyd 2012. Mae pob un o'r blaenoriaethau yma'n gofyn fframweithiau strategol a data ystadegol priodol y gellir profi dangosyddion perfformiad yn eu herbyn.

139 Mae gan y Bwrdd Academaidd y cyfrifoldeb trosfwaol am fynediad myfyrwyr, ac mae gan QAC y cyfrifoldeb am arferion a pholisi mynediadau. Yn y cyd-destun yma mae Polisi Mynediadau newydd wedi'i ddilysu'n ddiweddar gan y Bwrdd Academaidd. Mae'r Polisi wedi'i egluro fel Datganiad Mynediadau ar wefan y Brifysgol, lle mae dolen

i'w chael hefyd at y Polisi llawn. Mae'r Polisi'n cadarnhau ei fod wedi'i ddyfeisio i gysylltu gyda'r *Cod Ymarfer*, *Adran 10: Mynediadau i addysg uwch* ac mae'n ceisio darparu agwedd eglur tuag at fynediadau ar gyfer myfyrwyr arfaethedig ac arwain a chefnogi staff i gyflawni'r targed yma. Mae'r Polisi hefyd yn ymdrin ag achrediad dysgu blaenorol ac achredu dysgu profiadol blaenorol gyda manylion y broses wedi'u croesgyfeirio â'r Llawlyfr Academaidd. Mae'r Llawlyfr yn amlinellu proses sydd wedi'i strwythuro'n glir ynghyd ag arweiniad clir ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan yn y broses ddethol.

140 Mae'r Polisi'n amlinellu cyfrifoldebau canolog a chyfrifoldebau'r gyfadran ac mae'n disgrifio'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r staff perthnasol. Fel rhan o'r fframwaith yma mae'r Brifysgol yn darparu, ar ei gwefan, wybodaeth glir i'w defnyddio gan ymgeiswyr. Mae myfyrwyr cyfredol wedi cadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir a bod eu profiad o'r Brifysgol a'i phrosesau'n gyson gyda'r wybodaeth am fynediadau a recriwtio y maent wedi'i derbyn. Sefydlwyd Fforwm Mynediadau yn 2007-08; gan adrodd i QAC, mae'n ystyried agweddau pellach o'r broses a'r strategaeth mynediad, yn cynnwys effaith polisi allanol, ac mae'n ystyried gofynion deddfwriaethol perthnasol newydd. Mae'r Fforwm hefyd wedi gweithredu fel cysylltiad rhwng mynediadau a'r Is-grŵp Rheoliadau ac Arholwyr, gan wneud argymhellion, er enghraifft, mewn perthynas â'r gofynion mynediad isaf sy'n ofynnol ac mae wedi chwarae rhan hanfodol wrth gynllunio Cynhadledd Mynediadau.

141 Er mwyn monitro safle'r Brifysgol mewn perthynas â cheisiadau a mynediadau, cynhyrchir crynhoad o'r ceisiadau sy'n caniatáu i'r Gyfarwyddiaeth a staff perthnasol eraill fonitro perfformiad sefydliadol yn erbyn y dangosyddion allanol.

142 Mae gan y Brifysgol hefyd dargedau swyddogol ar gyfer gwella cynnydd y myfyrwyr, gyda pherfformiad myfyrwyr a'u llwyddiant i gwblhau wedi'i fonitro drwy fyrddau arholi, adroddiadau arholwyr allanol, achrediad cyrff proffesiynol a'r broses fonitro flynyddol. Er mwyn darparu data mwy cynhwysfawr a chyson mae'r brifysgol wedi ceisio gwella ansawdd ac amrediad ei data sy'n berthnasol i'r myfyrwyr. Felly, dan arolygiad QAC, mae'r gyfres ddata dangosyddion perfformiad cyrhaeddiad myfyrwyr (SAPI) wedi'i datblygu. Mae'r datblygiad yma wedi digwydd o fewn y fframwaith rheoli trosfwaol a luniwyd i ddatblygu a darparu strategaeth technoleg cyfathrebiadau a gwybodaeth cydunol ar gyfer y Brifysgol, ac mae wedi'i weithredu gan yr Is-grŵp Gwybodaeth Rheolwyr dan nawdd y Grŵp Cyrhaeddiad Myfyrwyr. Mae'r gyfres ddata a ddatblygwyd gan yr Is-grŵp yn gynhwysfawr ac yn darparu data am ddosbarthiad dyfarniadau, eu cyflawniad, dilyniant, credydau a gyflawnwyd, modiwlau a gyflawnwyd a chanlyniadau modiwlau. Darparwyd amserlen o ddata i'w lawrlwytho fel bod modd i ddefnyddwyr adolygu'r sefyllfa nifer o weithiau gydol y flwyddyn academaidd.

143 Mae'r data SAPI yn ddefnyddiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ond ei fwriad yw darparu pwynt cyfeirio allweddol i'w ystyried yn ystod y monitro blynyddol. Er ei fod ar gael ar hyn o bryd, mae gwahanol gyfadrannau'n defnyddio'r data yma i wahanol raddau mewn monitro blynyddol. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi penderfynu y byddai sefydliadau partner cydweithredol hefyd yn defnyddio data SAPI wrth wneud gwaith monitro blynyddol er mwyn sicrhau cysondeb, gyda QEC yn argymell i QAC y dylai'r Brifysgol ystyried gofyn i gyfadrannau fyfyrio ar y data ar lefel y pwnc fel rhan o'r monitro blynyddol. Er bod data SAPI wedi'i ganolbwyntio ar ddyfarniadau sydd wedi'u haddysgu, mae data ystadegol yn ymwneud â chyflawni,

dilyniant a statws myfyrwyr ymchwil ôl-radd hefyd wedi'i gynhyrchu ar gyfer ei ystyried gan yr Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil. Mae Byrddau Ymgeisio am le ar gwrs Ymchwil mewn cyfadrannau'n ystyried data sy'n ymwneud â cheisiadau.

144 O'r ddogfennaeth oedd ar gael i'r tîm adolygu, daeth i'r casgliad bod y Brifysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran darparu gwybodaeth yn ymwneud â dilyniant a chyflawniad. Mae gwelliant pellach ar y gweill, gyda gwerth y data o ran cefnogi'r prosesau sicrhau ansawdd allweddol yn cael eu cydnabod gan staff ar lefel y sefydliad, yr adran, y modiwl a'r dyfarniad. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ystadegol sydd ar gael a chymryd camau priodol i gynyddu gwerth y data sydd ar gael a chryfhau ei ddefnydd ar bob lefel.

Sicrhad o ansawdd y staff addysgu: penodiad, gwerthusiad a gwobrwyo

145 O fewn ei Chynllun Strategol mae'r Brifysgol yn amlinellu amcan allweddol i 'fuddsoddi mewn ansawdd drwy bobl', am fod 'staff y Brifysgol yn allweddol i gais [y Brifysgol] am wasanaeth gwell i'w myfyrwyr a'i rhanddeiliaid'. Mae'r strategaeth yn dod â pholisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol at ei gilydd ar agweddau penodol o adnoddau dynol sydd hefyd ar gael ar dudalennau gwe'r Adran Adnoddau Dynol. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod cynllunio gweithlu/materion adnoddau dynol yn rhan o'r cynlluniau strategol adrannol a chyfadrannol sydd, yn eu tro, wedi'u hysbysu gan Gynllun y Brifysgol. Mae polisïau adnoddau dynol RWCMD yn cael eu halinio ar hyn o bryd gyda rhai'r Brifysgol, gyda chytundeb lefel gwasanaeth wedi'i roi ar waith hefyd.

146 Mae'r holl staff sy'n ymuno â'r Brifysgol yn dilyn rhaglen ymsefydlu sy'n cynnwys 'croeso' corfforaethol strwythuredig, a gweithdai hyfforddi gorfodol ar faterion megis iechyd a diogelwch. Mae rhan derfynol y rhaglen ymsefydlu wedi'i theilwra tuag at y rôl adrannol neu gyfadrannol ac, i staff academaidd, yn cynnwys cyflwyniad i'r gwasanaethau cefnogi hefyd. Mae pennaeth gweinyddiaeth ymhob cyfadran yn gyfrifol am sicrhau bod y cyflwyniad wedi'i strwythuro'n gywir. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o'r Adolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl diweddar bod proses gyflwyno'r Brifysgol wedi'i ystyried yn 'eithriadol ac yn effeithiol iawn'. Cadarnhaodd y staff a gyfarfu â'r tîm eu bod wedi cymryd rhan mewn rhaglen ymsefydlu a'i bod yn ddefnyddiol.

147 Mae'r Brifysgol yn gofyn bod darlithwyr newydd sydd heb brofiad addysgu addysg uwch perthnasol yn cwblhau Tystysgrif Ôl-radd y Brifysgol mewn Dysgu ac Addysgu (PGCLT) yn llwyddiannus. Mae'r staff newydd yn y Gyfadran Gwyddor Iechyd a Chwaraeon yn dilyn Tystysgrif Ôl-radd mewn Addysg sy'n benodol berthnasol i'w gofynion proffesiynol. Clywodd y tîm adolygu mewn cyfarfodydd mai'r disgwyliad gwreiddiol oedd y byddai cwblhau'r PGCLT yn llwyddiannus yn rhan ofynnol o gyfnod prawf y staff, ond, am resymau pragmataidd, y disgwyliad erbyn hyn yw bod y myfyriwr yn gwneud cynnydd boddhaol yn ystod y cyfnod prawf. Y cyfnod prawf ar gyfer staff academaidd sy'n newydd i addysg uwch yw 12 mis a chaiff ei fonitro'n agos drwy amcanion a chanllawiau clir. Caiff mentoriaid eu clustnodi i gefnogi staff newydd, er bod y tîm wedi clywed hefyd y gellir defnyddio mentoriaid mewn cyd-destun ehangach megis pan fo aelod o staff yn cymryd rôl newydd.

148 Mae'r Brifysgol wedi egluro disgwyliadau'r staff academaidd yn nhermau ymchwil ac ysgoloriaeth yng nghysyniad 'Academydd Morgannwg'. Defnyddir disgrifydd

Academydd Morgannwg mewn penodi, dethol, gwerthuso a dyrchafu, ac mae'n pennu bod gan staff academaidd gyfrifoldeb am osod a chynnal safonau uchel mewn perthynas â gwybodaeth am eu maes astudio academaidd; cyfraniad i ddysgu ac addysgu; cyfraniad at waith ymchwil ac ysgoloriaeth; a chyfraniad fel y bo'n briodol i arfer proffesiynol ac ymgynghoriad.

149 Clywodd y tîm adolygu mewn cyfarfodydd â staff bod y fenter yn cael ei rhoi ar waith fesul cam ar sail 'lansio meddal' er mwyn llwyddo i brynu i mewn, a'i bod wedi derbyn croeso gan y staff yn gyffredinol. Darparodd iaith gyffredin o ddisgwyliad ar gyfer y rheolwyr a'r staff. Clywodd y tîm hefyd bod ystadegau a gasglwyd yn ddiweddar yn dangos bod cysyniad Academydd Morgannwg yn ymsefydlu fwy a mwy ac mai ychydig o staff erbyn hyn ar draws y Brifysgol oedd heb ddiwallu gofynion y disgrifydd. Clywodd y tîm hefyd bod y fenter yn cael ei rhoi ar waith fesul cam i RWCMD a bod partneriaid cydweithredol yn dod yn ymwybodol o'r cysyniad drwy CELT.

150 Pennodd y Brifysgol gefnogaeth a datblygiad ei rheolwyr, yn cynnwys arweinwyr a rheolwyr academaidd, fel agwedd hanfodol arall o'r Cynllun Adnoddau Dynol. Yn 2007 gweithredodd y Brifysgol y syniad o 'Reolwr Morgannwg' drwy gyfres o nodweddion arweiniad a rheolaeth sy'n diffinio disgwyliadau'r staff yn y sefyllfaoedd yma. Cynhaliwyd cynadleddau Prifysgol gyfan ym mis Tachwedd 2007 a Gorffennaf 2008 lle ystyriwyd materion yn ymwneud ag arweiniad a rheolaeth yn y Brifysgol. Clywodd y tîm adolygu bod y cynllun wedi'i anelu at dair lefel o reolaeth: rheng flaen/arolygu; canol/gweithrediadol; ac uwch/strategol. Clywodd y tîm gan staff oedd wedi derbyn hyfforddiant yn y maes yma oedd yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran eu helpu i wneud eu rolau'n effeithiol. Daeth y tîm i'r casgliad bod mentrau Rheolwr Morgannwg ac Academydd Morgannwg yn cefnogi cyflawniad blaenoriaethau strategol y Brifysgol yn uniongyrchol.

151 Mae'r Brifysgol wedi bod â chynllun ar gyfer gwerthuso staff ar waith ers 1996. Cafodd y cynllun ei ddiwygio'n ddiweddar i wella ymhellach ei gyfraniad at ddatblygiad a chefnogaeth y staff. Mae'r cynllun gwerthuso diwygiedig wedi'i fwriadu hefyd i gyflwyno proses sy'n gwyro fwy tuag at berfformiad ar gyfer staff academaidd sy'n gallu targedu gwella ansawdd addysgu'n benodol. Mae'r rhaglen werthuso'n cynnwys adolygiad chwech misol o berfformiad. Clywodd y tîm adolygu mewn cyfarfodydd gyda staff bod yr holl staff wedi'u gwerthuso a bod hyfforddiant ar waith ar gyfer gwerthuswyr a'r rhai a werthusir. Gwelodd y tîm dystiolaeth o arweiniad ar y cynllun gwerthuso ar wefan yr Adran Adnoddau Dynol, yn ogystal â ffurflenni perthnasol i gefnogi'r broses. Mae'r nodiadau arweiniol yn atgoffa'r staff y dylid cynnwys trafodaeth am Academydd Morgannwg a'r Rheolwr Morgannwg yn y broses werthuso fel y bo'n briodol. Yn dilyn y broses werthuso disgwylir i bob adran/gyfadran gwblhau cynllun datblygu staff, yn erbyn yr amcanion strategol allweddol, yn cynnwys gwerthusiad o weithgareddau'r flwyddyn flaenorol a phennu anghenion hyfforddi. Roedd y staff a gyfarfu â'r tîm yn gefnogol o'r broses werthuso, ac yn dweud eu bod yn ei chael yn brofiad defnyddiol.

152 Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi diwygio ei pholisi dyrchafiad yn ddiweddar. Mae'r ddogfen, y Cynllun Dyfarniadau Academaidd Uwch, yn disgrifio'r broses sy'n llywio cyflwyniad darllenyddiaethau, athrawiaethau, athrawiaethau sy'n ymweld, athrawiaethau emeritws, cymrodoriaethau sy'n ymweld, a dyfarnu

doethuriaethau uwch. I gydnabod datblygiadau mewn addysgu, mae'r Brifysgol wedi lasio nifer o fentrau, yn cynnwys cynllun dyfarniadau i gydnabod arloesi mewn addysgu yn 2007-08; cefnogaeth barhaus i grantiau arloesi ar gyfer prosiectau dysgu, addysgu ac asesiad; ac arian sefydlu ar gyfer prosiectau dysgu seiliedig ar waith ac ar gyfer datblygu pecyn cymorth dysgu seiliedig ar waith.

153 Cychwynnodd y Brifysgol ar Fuddsoddiad mewn Pobl mwy na 10 mlynedd yn ôl, gan dderbyn ei chydnabyddiaeth ffurfiol cyntaf yn 1999. Mae wedi derbyn dau adolygiad ffurfiol positif ers yr amser hwnnw (2000 a 2003). Cwblhawyd adolygiad treigl llwyddiannus yn ddiweddar ac mae asesiad corfforaethol llawn wedi'i gynllunio ar gyfer misoedd cynnar 2009. Mae RWCMD yn bwriadu gweithio tuag at statws Buddsoddiad mewn Pobl a bydd yn ceisio achrediad yn ystod 2010.

154 Ym marn y tîm adolygu mae'r trefniadau ar gyfer penodi, gwerthuso, cymeradwyo a gwobrwyo staff yn briodol ac wedi'u sicrhau'n addas.

Sicrhad o ansawdd y staff addysgu: cefnogaeth a datblygiad staff

155 Yn ei dogfen hunanwerthusiad dywedodd y Brifysgol ei bod yn rhoi cyfleoedd datblygu eang i staff, yn cynnwys y rheiny mewn colegau partner, i wella ansawdd profiad y myfyriwr. Gwelir tystiolaeth o ddatblygiad adnoddau staff yn y buddsoddiad mewn gweithgareddau datblygu, ynghyd â nifer y gweithgareddau hyn a maint y gyfranogaeth ynddynt; mae parhau i gyflawni statws Buddsoddiad mewn Pobl yn gadarnhad pellach o effeithiolrwydd ymrwymiad y Brifysgol i gefnogi staff. Mae gweithrediad Academydd Morgannwg, y diwygiadau i'r Cynllun Myfyrio ar Arferion Addysgu, penodi penaethiaid dysgu ac addysgu a phenaethiaid ymchwil yn ddiweddar mewn cyfadrannau, oll yn esiamplau o fuddsoddiad sy'n canolbwyntio ar wella.

156 Mae 'Cynllun Myfyrio ar Arferion Academaidd' y Brifysgol yn system gylchol, yn adrodd tuag allan o sesiynau ffurfiol i adolygu cymheiriaid lle mae'r aelodau'n gwylio ac yn myfyrio ar amrediad cyfan o weithgareddau academaidd perthnasol. Mae'r canlyniadau'n arwain at adnabod a lledaenu arferion da a datblygiad staff sydd wedi'i gynllunio. Mae'r cynllun wedi'i gefnogi gan Gyfarwyddiaeth y Brifysgol a'r strategaethau sefydliadol sy'n berthnasol i adnoddau dynol a dysgu ac addysgu. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad ei bod hi werth nodi bod y cynllun yn berthnasol i'r holl staff academaidd sy'n cymryd rhan mewn darparu unrhyw ran o ddarpariaeth academaidd y Brifysgol, yn cynnwys y rheiny sy'n darparu cyrsiau ar lefel israddedig ac ôl-radd, staff yn RWCMD a cholegau partner, a'r rheiny sydd ar gontractau academaidd llawn amser a rhan amser. Gofyniad y cynllun yw bod yr holl gydweithwyr wedi'u gwylio o leiaf unwaith mewn unrhyw gylchred dwy flynedd, er bod y staff wedi'u hannog i gyfranogi'n flynyddol.

157 Mae'r Brifysgol yn gweithredu polisi datblygiad proffesiynol parhaus sy'n ymwneud â'r staff i gyd ac mae wedi'i danategu gan adnoddau ymroddedig ar gyfer gweithgareddau datblygu staff. Mae gan y cyfadrannau hefyd adnoddau i gefnogi datblygiad staff, yn cynnwys astudiaeth bellach lle bo'n briodol, a gweithgareddau ymchwil neu rai sy'n berthnasol i'r pwnc. Mae CELT yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth gyda dysgu ac addysgu mewn cyfadrannau ac mewn Colegau AB partner ac am bennu a lledaenu arferion da. Mae CELT yn darparu amrediad o gyfleoedd datblygu i staff academaidd sy'n amrywio o gefnogaeth ychwanegol i ddarlithwyr newydd drwodd i gyfres o seminarau

sy'n hybu datblygiad proffesiynol parhaus. Clywodd y tîm adolygu sylwadau positif iawn mewn cyfarfodydd gyda staff o waith CELT mewn perthynas â darparu datblygiad staff mewnol ac ar draws colegau AB y Brifysgol. Mewn cyfarfodydd gyda'r tîm, rhoddodd staff o RWCMD sylwadau positif am yr effaith y mae mynediad at raglenni datblygiad staff y Brifysgol wedi'i chael ar staff y Coleg. Yn ogystal, mae rhaglen hyfforddi staff generig wedi'i chydlynu drwy Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol ar faterion megis ymdrin ag amrywiaeth. Mae Brifysgol yn cynhyrchu adroddiad 'Datblygiad Sefydliadol a Staff' corfforaethol blynyddol sy'n cynnwys dadansoddiad ariannol, argymhelliad ar gyfer datblygiad pellach, amcanion, mesuriad a chanlyniadau, a chaiff hwn ei anfon i'r Gyfarwyddiaeth a'i drafod gan yr Is-Bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chyflogaeth.

158 Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu nifer o weithgareddau datblygiad i staff a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn perthynas ag ymchwil. Gofynnir i bob arolygydd newydd fynychu cwrs hyfforddi ac mae datblygiad parhaus ar gyfer arolygwyr mwy profiadol. Trefnir seminarau arferion da bob blwyddyn ar gyfer arholwyr mewnol, cadeiryddion arholiadau llafar ac arolygwyr. Ar ddechrau bob blwyddyn academaidd cynhelir Seminar Cefnogi Myfyrwyr Ymchwil yn ganolog sy'n cynnwys cyflwyniadau gan staff academaidd a chefnogi, ac mae seminar meistri a doethuriaeth blynyddol lle mae myfyrwyr yn cyflwyno eu gwaith ymchwil i gynulleidfa drwy'r Brifysgol gyfan, yn ogystal â gweithgareddau seiliedig yn y cyfadrannau megis fforymau a chyflwyniadau seminarau ymchwil wythnosol. Anogir bob myfyriwr ymchwil i gwblhau cynlluniau datblygiad personol a'u trafod gyda'u harolygwyr. Clywodd y tîm adolygu mewn cyfarfodydd nad yw'r hyfforddiant sgiliau ymchwil lefel prifysgol a ddarperir i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd yn orfodol ond bod myfyrwyr yn cael eu hannog i wneud yr hyfforddiant. Roedd rhai o'r myfyrwyr ymchwil ôl-radd oedd yn gwneud dyletswyddau dysgu wedi derbyn hyfforddiant hefyd drwy'r PGCLT. Ar sail y dystiolaeth a glywyd gan y tîm adolygu, roedd hi'n parhau'n aneglur pa hyfforddiant gorfodol oedd yn digwydd i gefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n gwneud dyletswyddau o'r fath.

159 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth sylweddol o'r dull systematig sydd wedi'i fabwysiadu yng nghyd-destun cefnogi staff a datblygiad proffesiynol yn y Brifysgol, a'i aliniad clir gyda nifer o'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Brifysgol. Canfu'r tîm aliniad clir y prosesau sy'n gysylltiedig â phenodi, cefnogi a datblygu staff o fewn amcanion strategol y Brifysgol yn esiampl o arfer da.

Sicrhad o ansawdd yr addysgu sydd wedi'i ddarparu drwy ddulliau dysgu o bell a dulliau dosranedig

160 Mae'r Brifysgol yn diffinio dysgu dosranedig fel 'pan fo dysgu ac addysgu'n digwydd o bell gan fwyaf a gall hynny gynnwys rhai elfennau o gysylltiad wyneb yn wyneb ond mae wedi'i ddarparu gan fwyaf drwy ddulliau darparu ar-lein neu ar sail papur o bell, neu gyfuniad o'r ddau'. Lle mae 80 y cant neu fwy o'r modiwl neu'r dyfarniad wedi'i ddarparu a'i safoni ar-lein, mae'r ddarpariaeth wedi'i galw'n e-ddwys. Mae darpariaeth fel yma'n perthyn ar un pen i sbectrwm o ddull dysgu cyfunedig y Brifysgol.

161 Mae strategaeth e-ddysgu'r Brifysgol wedi'i gwmpasu o fewn ei Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu sy'n pennu dysgu wedi'i gyfuno fel ffordd o wella profiad dysgu myfyrwyr, ac fel un o'i 10 blaenoriaeth sydd wedi'u llunio i weithredu cynllun Strategol y Brifysgol. Nid oes gan y Brifysgol strategaeth benodol yn ymwneud â dysgu dosranedig

ond mae wedi bod yn symud o ffocws ar ddysgu e-ddwys ar-lein, i e-wella a dysgu cyfunol. Gwaith CELT yw gweithredu'r strategaeth dysgu cyfunol.

162 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod dysgu dosranedig a dysgu o bell yn cynnwys cyfran fechan o weithgaredd dysgu'r Brifysgol. Roedd data a ddarparwyd gan y Brifysgol yn cadarnhau bod llai na 40 o fyfyrwyr yn y flwyddyn academaidd 2007-08 wedi'u cofrestru ar ddyfarniadau o'r fath, gyda nifer sylweddol uwch o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar fodiwlau unigol a ddarperir drwy e-ddysgu. Er enghraifft, yn yr un flwyddyn roedd mwy na 900 o fyfyrwyr israddedig wedi'u cofrestru ar fodiwlau a ddarparwyd drwy e-ddysgu gan Ysgol Fusnes Morgannwg. Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu e-ddysgu ymhellach; er enghraifft, mae'r Ysgol Fusnes wedi cynnig lansio fersiynau ar-lein o bedwar dyfarniad cyfredol, dau ar lefel israddedig a dau ar lefel ôl-radd, yn ystod 2008.

163 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod y Brifysgol wedi bod ar flaen y gad o ran datblygiadau mewn dysgu ar-lein ym Mhrydain ers sefydlu e-Coleg Cymru yn 2001. Dylanwadodd y prosiect ar y ffordd y mae proses sicrhau ansawdd y dysgu dosranedig a dysgu o bell wedi datblygu yn y Brifysgol. Yn dilyn adolygiad gan QAC yn 2005, cafodd y prosesau cymeradwyo ar wahân, a ddatblygwyd yn y lle cyntaf ar gyfer darpariaeth e-ddysgu a dysgu dosranedig, eu diwygio er mwyn rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth wedi'i e-wella yn ogystal â darpariaeth e-ddwys.

164 Mae QAC yn gyfrifol am gymeradwyo'r holl ddyfarniadau a ddarperir drwy ddysgu dosranedig ac eithrio cynigion yn Ysgol Fusnes Morgannwg a rhannau eraill o'r Brifysgol lle mae arbenigedd. QAC sy'n gwneud y penderfyniad i ganiatáu i gynigion gael eu cymeradwyo gan FQAC, achos wrth achos. Pan fydd dyfarniad newydd sy'n cynnwys darparu defnydd drwy ddysgu dosranedig wedi'i gynnig, mae'r Llawlyfr Academaidd yn gofyn bod yn rhaid i'r gyfadran berthnasol sefydlu tîm datblygu. Os nad yw'r dyfarniad wedi'i gymeradwyo'n barod ar gyfer ei ddarparu yn y dull confensiynol, mae'n rhaid dilyn y trefnau cymeradwyo rhaglenni arferol hefyd. Mae'n rhaid i'r tîm datblygu gynnwys pobl academaidd, cynrychiolwyr y tîm e-gefnogaeth perthnasol, aelod o'r LCSS, a mentor sydd â phrofiad o ddysgu dosranedig. Lle bo'n berthnasol, gellir cynrychioli cyrff proffesiynol a sefydliadau partner, perthnasol ar y tîm. Prif rôl y tîm yw dylunio a phrofi defnyddiau a chael gafael ar gymeradwyaeth mewnol ac allanol perthnasol.

165 Mae'n rhaid i'r tîm datblygu gyflwyno'r pecyn cyflawn o ddefnyddiau dysgu, adroddiad ar y broses ddatblygiad, llofnodion priodol ac adroddiad gan yr arholwr allanol i banel a gynullwyd gan QAC neu FQAC, fel y bo'n briodol, i'w cymeradwyo. Mae prosesau tebyg ar gyfer cymeradwyo a diwygio yn eu lle sy'n ymwneud â RWCMD.

166 Drwy'r llwybrau archwiliad, gwelodd y tîm adolygu esiampl o'r trefnau a ddefnyddir i ddilysu ac ail ddilysu dyfarniad israddedig a ddarperir drwy ddysgu o bell. Tynnodd y tîm cynllunio cychwynnol ar amrediad eang o arbenigedd o'r tu mewn a'r tu allan i'r Brifysgol, roedd amrediad tebyg o gyfraniadau i'w cael ar y panelau dilysu ac ail ddilysu. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth glir bod y trefnau oedd ar waith ar y pryd ar gyfer cymeradwyo ac ail gymeradwyo dyfarniadau dysgu dosranedig a dysgu o bell wedi'u dilyn gydag adrodd priodol drwy strwythurau trin a thrafod y Brifysgol. Mae arbenigedd y Brifysgol mewn dysgu o bell wedi'i ddefnyddio gan CELT i helpu RWCMD yn ei waith diweddar i ddatblygu gradd meistr mewn Technoleg Cerddoriaeth Greadigol i'w darparu drwy e-ddysgu.

167 Mae ychwanegu modiwlau newydd, trosi modiwlau presennol, neu addasiadau bychain i fodiwlau presennol, yn dilyn trefnau cymeradwyo arferol y Brifysgol sydd wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd.

168 Hefyd, disgwylir i'r prosesau a ddisgrifiwyd ar gyfer dilysu dyfarniadau newydd gan ddefnyddio dysgu dosranedig neu ddysgu o bell gael eu dilyn fel y bo'n briodol ar gyfer cymeradwyo newidiadau i fodiwlau. Mewn dwy enghraifft, ni allai'r tîm adolygu ganfod sut roedd y prosesau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer ystyried dysgu o bell neu ddysgu dosranedig wedi'u defnyddio. Mae'n ymddangos hefyd bod rhywfaint o ddryswch ar lefel FQAC mewn perthynas â'r gofynion ychwanegol i gymeradwyo diwygiadau bychain yn ymwneud ag e-ddysgu.

169 Mae'r gwaith o sicrhau ansawdd y dysgu dosranedig a'r dysgu o bell o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i arweinwyr modiwlau a dyfarniadau drwy brosesau arferol y Brifysgol. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn nodi bod disgwyl i adroddiadau monitro blynyddol dalu sylw arbennig i brofiadau a pherfformiad myfyrwyr, yn ogystal â barn arholwyr allanol, yn dilyn cyflwyniad fersiwn dysgu dosranedig o fodiwlau neu radd. Ni allai'r tîm adolygu gadarnhau bod y broses yma ar waith ar sail y sampl o adroddiadau blynyddol a adolygwyd.

170 Roedd y ddogfen hunanwerthusiad yn hyderus bod prosesau ansawdd y Brifysgol ar gyfer rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â'r math yma o weithgaredd yn briodol ac yn addas i'r pwrpas. Nododd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd bod adroddiad y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth ar yr Amgylchedd Dysgu a Reolir yn cymeradwyo trefnau'r Brifysgol fel arferion da i sefydliadau sy'n dechrau ymwneud ag e-ddysgu.

171 Ar sail y dystiolaeth a welwyd, gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod gan y Brifysgol brosesau yn eu lle ar gyfer sicrhau ansawdd yr addysgu y mae'n ei darparu drwy ddulliau dosranedig a dysgu o bell. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn amlinellu'n glir y prosesau i'w dilyn ar gyfer cymeradwyo dyfarniadau newydd a ddarperir yn y ffordd yma, a gallai'r tîm gadarnhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae CELT yn chwarae rôl arwyddocaol mewn meithrin arferion da drwy gyfranogaeth mewn timau cynllunio ar gyfer dyfarniadau dosranedig a dysgu o bell newydd. Mae'r trefnau ychwanegol ar gyfer cymeradwyo newidiadau i fodiwlau, neu ychwanegiad modiwlau a monitro modiwlau dysgu dosranedig a dysgu o bell a nodwyd gan y Llawlyfr Academaidd yn llai eglur i'r tîm ac nid oedd cymaint o arwyddion amlwg o'u gweithredu ac roedd hyn yn esiampl bellach bod angen i'r Brifysgol sicrhau bod arolwg sefydliadol ar ganlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur.

Adnoddau cefnogi dysgu

172 Mae cenhadaeth y Brifysgol yn ei hymrwymo i ddarparu 'amgylchedd dysgu o'r radd uchaf' a 'defnyddio adnoddau dysgu o'r radd flaenaf'. Mae buddsoddiad mewn gwella'r rhwydwaith mewnol wedi'i nodi fel blaenoriaeth hefyd yng Nghynlluniau Strategol y Brifysgol. Y corff canolog sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau yma yw LCSS a grëwyd yn 2006 drwy gyfuno'r Adrannau Technoleg Gwybodaeth, Llyfrgell ac Adrannau E-ddysgu i gynhyrchu 'gwasanaeth mwy integredig ac effeithlon'.

173 Caiff Cyfarwyddiaeth y Brifysgol ei chynghori gan y Grŵp Cynghori am Systemau a Gwybodaeth y Gyfarwyddiaeth dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (cefnogi

Myfyrwyr a Dysgu). Mae gan y Grŵp nifer o is-grwpiau yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth corfforaethol ac academaidd, adnoddau dysgu, y we a'r fewnrwyd.

174 Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu a diweddaru ei mannau dysgu. Mae'r ATRiuM yn darparu cyfleusterau ar gyfer yr Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol ac, ym marn y Brifysgol, mae'n 'amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf'. Mae buddsoddiad pellach wedi'i gynllunio mewn rhoi ffurf newydd i Gampysau Trefforest a Glyntaf ac ar ddatblygu adnoddau perfformio newydd yn RWCMD. Nododd y ddogfen hunanwerthusiad mai nod Strategaeth Ystadau'r Brifysgol oedd creu 'lle hyblyg ac ysgogol' ar gyfer y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd.

175 Yn ogystal â datblygu lle ffisegol y Brifysgol, mae LCSS yn rhoi pwyslais ar fynediad i adnoddau electronig a chefnogi myfyrwyr drwy systemau dosranedig a darpariaeth hunanwasanaeth. Mae hyn wedi cynnwys datblygu rhwydweithiau diwifr; cynllun prynu gliniaduron i fyfyrwyr; a'r prosiect Porth Myfyrwyr.

176 Mae LCSS yn darparu amrywiaeth eang o gefnogaeth i staff a myfyrwyr i hwyluso defnydd effeithiol o adnoddau. Mae integreiddio cefnogaeth yn ogystal â gwasanaethau wedi'i hyrwyddo drwy gyd-leoli. Er enghraifft, nid yw canolfannau addysg 'galw heibio' yn tybio bod y myfyriwr sy'n ceisio cymorth yn gwybod pa adran sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth y maent eisiau ei ddefnyddio.

177 Mae'r disgwyliadau ynghylch cynnal a chadw a gwella cefnogaeth dysgu i fyfyrwyr wedi'u hesbonio yng nghynlluniau strategol y Brifysgol. Mae eitemau sy'n ymwneud â chefnogi dysgu a bennwyd mewn cynlluniau cyfadran a'r gorfforaeth yn bwydo i mewn i'r broses gynllunio strategol flynyddol a'r cylch cyllideb dilynol. Mae'r broses hon wedi'i llunio i sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi cynlluniau cymeradwy. Mae LCSS yn cadw cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol gyda chyfadrannau. Mae wedi'i gynrychioli ar bwyllgorau cyfadrannol ac adrannol ac mae'n cyfranogi mewn adolygiadau dilysiad a chyfnodol.

178 Mae LCSS yn defnyddio sianelau niferus i sicrhau adborth gan staff a myfyrwyr am ansawdd a phriodoldeb ei wasanaethau yn amrywio o Arolwg Boddhad y Cwsmer i'r NSS a chyfarfodydd adrannol. Yn ogystal, cesglir adborth drwy gynllun awgrymiadau, sylwadau a chwynion i fesur perfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth a gytunwyd ac i ddatblygu cynllun gweithredu LCSS.

179 Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu eu bod wedi cael y mynediad i adnoddau dysgu a chyfrifiaduron yn dda. Mae'r myfyrwyr yn cael rhith-amgylchedd dysgu'r Brifysgol yn werthfawr ond maent hefyd yn nodi nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan staff.

180 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad bod gan y Brifysgol 'hanes hir a phositif' o weithio'n agos gyda phartneriaid cydweithredol mewn perthynas â chefnogaeth dysgu. Mae LCSS yn rhoi sylwadau i banelau yn yr adolygiad a chymeradwyaeth sefydliadol, ac yn cyfarfod yn rheolaidd gyda staff mewn sefydliadau partner cydweithredol. Mae cytundeb lefel gwasanaeth wedi'i lunio i'w ddefnyddio gyda cholegau partner. Mae adnoddau dysgu arbenigol RWCMD wedi'u rheoli'n lleol yn fframwaith eang y Brifysgol.

181 Mae'r Brifysgol o'r farn bod ganddi 'strwythurau a gweithdrefnau rhagorol' ar waith i gefnogi ei myfyrwyr. Cadarnhaodd y tîm adolygu ymrwymiad cryf y Brifysgol i fuddsoddi mewn adnoddai dysgu ffisegol a rhithwir er mwyn gwella ansawdd ei rhaglenni a chefnogi datblygiad pellach ei darpariaeth.

Arweiniad, cefnogaeth ac arolygiad academaidd

182 Yn ei dogfen hunanwerthusiad, dywedodd y Brifysgol ei bod yn darparu amrediad o fecanweithiau ar gyfer darparu arweiniad a chefnogaeth academaidd i fyfyrwyr, drwy staff yn y cyfadrannau, LCSS, canolfannau addysg galw heibio, a siopau cyngor cyfadrannol, tra bo RWCMD yn darparu arweiniad academaidd gan fwyaf drwy ei system tiwtoriaid personol. Mae myfyrwyr sy'n cymryd dyfarniadau Prifysgol gyda phartneriaid cydweithredol yn derbyn gwasanaethau cefnogi a phersonol ond gallant hefyd ddefnyddio adnoddau cefnogi'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn nodi ei disgwyliadau o ran cefnogaeth myfyrwyr a thiwtoriaid yn y Llawlyfr Academaidd. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael iddynt mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys yn eu llawlyfrau modiwl a dyfarniadau; Cyfarwyddiadur a Dyddiadur y Myfyrwyr; 'GlamLife' a gwefan y Brifysgol. Mae panelau dilysu ac adolygu'n edrych ar y strwythurau cefnogaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr sy'n astudio dyfarniadau Prifysgol ac yn adrodd ar briodoldeb y ddarpariaeth yma. Gellir gweld materion cefnogi myfyrwyr yn y broses fonitro flynyddol hefyd, a disgwylir i bwyllgorau dysgu, addysgu a phrofiad myfyrwyr y gyfadran gadw llygad ar y gwasanaethau cefnogi myfyrwyr.

183 Yn ei dogfen hunanwerthusiad dywedodd y Brifysgol ei bod yn 'diffinio rôl tiwtor personol yn fras fel aelod o staff academaidd y gall myfyrwyr unigol drafod strategaethau ar gyfer dysgu a chynnydd gyda nhw'. Mae'r trefniadau ar gyfer darparu cefnogaeth tiwtoriaid personol wedi'u dirprwyo i'r cyfadrannau ac nid ydynt yn dilyn un model yn unig. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr fod yn ymwybodol o'r ffordd mae systemau cefnogi'n gweithredu yn eu cyfadrannau. Mae rhai cyfadrannau'n gweithredu polisi 'drws agored' lle gall myfyrwyr alw i mewn pryd bynnag y bydd ymholiad ganddynt, tra bo eraill yn gweithredu system sy'n gwarantu amseroedd yn ystod yr wythnos pan fydd aelodau unigol o staff academaidd ar gael i ateb ymholiadau myfyrwyr. Yn y ddogfen hunanwerthusiad, dywedodd y Brifysgol bod Gwasanaethau'r Myfyrwyr wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn draddodiadol gyda staff academaidd sy'n gwneud gwaith tiwtor personol, ond gyda chyflwyniad siopau cyngor cyfadrannol, mae'r Brifysgol wedi cipio ar y cyfle i gynnal digwyddiadau penodol y gyfadran i diwtoriaid personol a gefnogir gan Wasanaethau'r Myfyrwyr a siopau cyngor cyfadrannol.

184 Dywedodd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod myfyrwyr, yn gyffredinol, yn fodlon gyda'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan staff academaidd. Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu bod gan rai myfyrwyr diwtor personol penodol, mewn rhai achosion maen nhw'n aros gyda nhw drwy gydol eu rhaglen astudio; i eraill yr arweinydd dyfarniad oedd y prif bwynt cysylltu ac roedd eraill yn chwilio am y person oedd hawsaf siarad â fo/hi. I fyfyrwyr ymchwil ôl-radd mae arolygydd diffiniedig neu dîm arolygu i gefnogi'r myfyriwr. Yn gyffredinol, cadarnhaodd y mwyafrif o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm bod y staff yn hawdd siarad â nhw ac yn barod i helpu ar amrediad mawr o faterion cefnogi academaidd. Clywodd y tîm bod y myfyrwyr i gyd yn RWCMD yn cael tiwtor personol penodol a bod y staff yn RWCMD yn hawdd siarad â nhw ac yn barod i helpu.

185 Ar ôl creu ei strwythur cyfadrannau yn 2006, ac fel rhan o gynllun y Brifysgol i wella cadwraeth myfyrwyr, rhoddodd y Brifysgol gynnig ar wasanaethau cefnogi myfyrwyr wedi'u seilio yn y gyfadran ar ffurf siopau cyngor cyfadrannol, gyda phob un wedi'i oruchwylio gan Reolwr Siop Cyngor. Mae'r Uned Astudiaethau Sylfaen a Chyfunedig yn gweithredu fel siop gyngor i fyfyrwyr ar raglenni cyfunol a myfyrwyr blwyddyn sylfaen. Mae siopau cyngor cyfadrannol yn cynnig amrediad o wasanaethau cefnogi i fyfyrwyr yn cynnwys ymdrin ag amgylchiadau lliniarol personol; tynnu neu drosglwyddo myfyrwyr; a chyfeirio at gefnogaeth academaidd neu anacademaidd arall. Mae gan bob siop cyngor cyfadrannol dudalennau ar 'GlamLife' i hybu'r gefnogaeth academaidd o fewn y cyfadrannau yn ogystal â gwybodaeth briodol arall. Cytunodd y Rheolwyr Siop Cyngor ar y ddarpariaeth gwasanaethau sylfaenol a gynigir drwy'r rhwydwaith siopau cyngor cyfadrannol er mwyn sicrhau cysondeb. Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn gwneud adolygiad o siopau cyngor cyfadrannol ar hyn o bryd er mwyn hysbysu darpariaeth cefnogaeth o'r fath i fyfyrwyr yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso effeithiolrwydd, cysondeb a defnydd y gwasanaeth hyd yn hyd ar draws y sefydliad cyfan ac yn archwilio effaith darpariaeth y gefnogaeth gynghori yma ar rolau academaidd. Nododd y tîm hefyd bod adolygiad o'r oriau agor ar gyfer siopau cyngor cyfadrannol wedi'i gynnwys yn y Prosiect Disgwyliadau Myfyrwyr cynhwysfawr.

186 Nododd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod siopau cyngor cyfadrannol wedi derbyn croeso yn gyffredinol, er bod sylwadau unigol wedi'u derbyn sy'n awgrymu problemau ar gyfer myfyrwyr astudiaethau cyfunedig. Mae myfyrwyr sy'n astudio modiwlau mewn mwy nag un gyfadran wedi cadarnhau i'r tîm adolygu mai dim ond un siop cyngor cyfadrannol y gallant ei ddefnyddio yn y sefyllfa yma, hyd yn oed lle bo ymholiad yn ymwneud yn benodol a'r gyfadran 'arall' efallai. Nodwyd hefyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi'r system siopau cyngor cyfadrannol yn llawn ac y byddai'n annog y Brifysgol i barhau gyda'r cynllun. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n gefnogol o'r rôl a chwaraeodd siopau cyngor cyfadrannol mewn rhoi cyngor a chefnogaeth i fyfyrwyr yn cynnwys eu rôl mewn cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau eraill.

187 O'r dystiolaeth sydd ar gael, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod siopau cyngor cyfadrannol yn darparu gwasanaeth defnyddiol ac effeithiol i fyfyrwyr gan weithredu fel pwynt cysylltu cyntaf mewn amrediad o faterion academaidd ac yn cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau eraill sy'n fwy priodol lle bo hyn yn angenrheidiol. Darparodd y siopau cyngor cyfadrannol esiampl bellach o ymrwymiad cryf y Brifysgol i amrediad o wasanaethau i gefnogi a gwella profiad y myfyriwr.

188 Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu canolfannau addysg galw ar dri o'i safleoedd sy'n darparu cefnogaeth dysgu un-i-un i fyfyrwyr, yn ogystal â chynnig nifer o weithdai mewn sgiliau dysgu allweddol, yn cynnwys ysgrifennu adroddiadau, ysgrifennu traethodau a mathemateg. Nododd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod y canolfannau yma wedi'u cydnabod gan fyfyrwyr fel rhai sy'n darparu gwasanaeth hynod ddefnyddiol, er eu bod yn llawn yn aml iawn. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm adolygu'n gefnogol o'r canolfannau yma ac roeddent yn teimlo eu bod yn ymateb i anghenion y myfyrwyr. O'r dystiolaeth sydd ar gael, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod canolfannau addysg galw heibio'n rhan effeithiol a defnyddiol o'r amrediad o wasanaethau cefnogi academaidd a ddarperir i fyfyrwyr.

189 Mae cyngor ac arolygiad academaidd ar-lein wedi'i hwyluso hefyd trwy ddefnyddio 'GlamLife'; drwy e-bost; a thrwy ddefnyddio 'GlamChat', cyfleuster rhwydweithio cymdeithasol a ddatblygwyd y ddiweddar sy'n cael ei phrofi gan y Brifysgol yn y flwyddyn academaidd 2007-08.

190 Yn ei dogfen hunanwerthusiad dywedodd y Brifysgol ei bod wedi datblygu amrediad eang o ddefnyddiau sy'n berthnasol i arferion myfyriol a chynllunio datblygiad personol. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn amlinellu'r gofynion am ffeiliau cynnydd a chynllunio datblygiad proffesiynol o fewn y Brifysgol, gan nodi, 'i ddyfarniadau newydd sy'n cychwyn yn 2006/07 a dyfarniadau sy'n bodoli'n barod yn yr adolygiad cyfnodol, bydd myfyrwyr, yn cynnwys myfyrwyr ôl-radd, myfyrwyr rhan amser a'r rheiny sy'n astudio mewn sefydliad partner, yn derbyn cyfleoedd ar gyfer cynllunio datblygiad personol ar bob cam o'u rhaglenni'. Nododd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd bod y Brifysgol yn ceisio gwella'r defnydd a wneir o gynlluniau datblygiad personol a dysgu myfyriol drwy ddatblygu e-bortffolios. Yn RWCMD, arbrofwyd yn gyntaf gyda chynlluniau datblygiad personol, a alwyd yn Broffiliau Datblygiad Proffesiynol, mewn rhaglenni yn yr hydref 2005.

191 Gwelodd y tîm adolygu nifer o esiamplau o'r dulliau o gynllunio datblygiad personol mewn amrywiol feysydd astudio a dyfarniadau a daeth i'r casgliad bod y rhain yn briodol ac yn gynhwysfawr. Nododd y tîm hefyd bod y cynlluniau a welwyd yn cyfateb â gofynion y Brifysgol sydd wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd.

Cefnogaeth ac arweiniad personol

192 Dywedodd y ddogfen hunanwerthusiad bod ei chefnogaeth bersonol a'i harweiniad wedi'u lleoli gan fwyaf yng Ngwasanaethau'r Myfyriwr, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori a Chwnsela; Gwasanaeth Arian y Myfyrwyr; y Gwasanaeth Gyrfaoedd; Cefnogaeth Myfyrwyr Rhyngwladol; y Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia; y Gwasanaeth Tiwtoriaid Preswyl; a'r Gwasanaeth Iechyd. Mae'r Gaplaniaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau'r Myfyrwyr hefyd. Yn ATRiuM mae staff parhaol llawn amser yn darparu gwasanaethau cefnogi anabledd, gyrfaol a chynghori; cynigir rhai elfennau o'r Gwasanaethau Myfyrwyr ar sail clinigau peripatetig. Mae'r porth myfyrwyr 'GlamLife' wedi'i gynnal gan Wasanaethau'r Myfyrwyr ac mae'n helpu i hyrwyddo'r cyfleusterau sydd ar gael a hybu mynediad iddynt. Mae Gwasanaethau'r Myfyrwyr hefyd yn cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau megis Canllaw i Fyfyrwyr Aeddfed. Mae Gwasanaethau Myfyrwyr RWCMD yn darparu gofal bugeiliol mewn cydweithrediad â chynghorwyr sy'n broffesiynol gymwysedig. Yn ei dogfen hunanwerthusiad, nododd y Brifysgol mai hi oedd y sefydliad addysg uwch cyntaf yng Nghymru i dderbyn yr Achrediad Matrics am Ansawdd ar gyfer ei darpariaeth Gwasanaethau Myfyrwyr cyfan, a'r unig sefydliad addysg uwch yng Nghymru i ennill y nod ansawdd Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol am ei waith rhyngwladol a'i gyngor ariannol.

193 Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chwnsela'n cynnwys cynghorwr iechyd meddwl llawn amser sydd â'r brif rôl o weithio gyda myfyrwyr mewn partneriaeth â staff priodol; y gyfadran a staff cefnogi arall. Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia'n darparu cefnogaeth gymdeithasol a dysgu sy'n cynnwys peiriannau cymryd nodiadau electronig ac asesiad ac addysg i bobl â dyslecsia. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn trefnu ac yn darparu wythnos o weithdai ymarferol a gweithgareddau cymdeithasol sydd wedi'u llunio i groesawu myfyrwyr rhyngwladol a'u helpu i ddod i arfer â chymuned y Brifysgol yn yr wythnos cyn cofrestru. Roedd y myfyrwyr rhyngwladol a gyfarfu â'r tîm adolygu'n gwerthfawrogi'r digwyddiadau yma a'r gefnogaeth a ddarparwyd. I gydnabod

yr amrywiaeth yn ei phoblogaeth myfyrwyr, penododd y Brifysgol Swyddog Cwricwlwm Cynhwysol yn 2007. Prif rôl y swydd yma, sydd wedi'i seilio yn CELT, yw ymgysylltu staff cyfadrannau â'r agenda cwricwlwm cynhwysol.

194 Yn ei dogfen hunanwerthusiad, dywedodd y Brifysgol bod cyflogadwyedd graddedigion yn parhau'n ganolog i amcanion y Brifysgol. Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol yn gweithio gyda chyfadrannau drwy'r penaethiaid dysgu ac addysgu i ddarparu lefel o wasanaeth y cytunwyd arno. Mae myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu yn gefnogol o'r gefnogaeth a gynigir drwy'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, ac yn ei foli.

195 Nododd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd bod y Brifysgol yn rhoi pwys mawr ar gefnogaeth bersonol yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Cynlluniwyd y prosiect 'GlamStart', a lansiwyd ym mis Medi 2007, i ddarparu efelychiad o brofiad 10 diwrnod cyntaf myfyriwr newydd ac mae'n cynnwys fideos o fyfyrwyr yn rhannu eu profiadau, yn ogystal â dolenni at wasanaethau ac adrannau ar y campws. Mae 'GlamStart' ar gael i bob myfyriwr newydd, a ydynt yn astudio ar y campws neu'n rhywle arall. Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu, yn cynnwys myfyrwyr ymchwil ôl-radd, wedi cael eu profiadau ymsefydlu'n bositif a defnyddiol; roedd myfyrwyr oedd yn dychwelyd yn arbennig o gefnogol o'r system gofrestru ar-lein a gyflwynwyd yn ddiweddar yr oeddent yn ei chael yn effeithiol ac yn effeithlon.

196 Trwy ddadansoddiad o'i harolygon myfyrwyr sefydliadol a'r AMC, mae'r Brifysgol yn hyderus bod natur a siâp cefnogaeth ac arweiniad personol ac academaidd sydd ar gael i fyfyrwyr yn parhau'n addas ac o safon uchel ar draws yr amrediad a'r amrywiaeth o wasanaethau a lleoliadau. Nododd y ddogfen hunanwerthusiad hefyd bod y datblygiad gwasanaethau ar-lein sydd wedi'i gynllunio, mewn cysylltiad â'r prosiect porth myfyrwyr a'i alinio gyda natur newidiol y corf myfyrwyr, yn hysbysu natur a siâp cefnogaeth ac arweiniad academaidd er mwyn sicrhau parhad cefnogaeth ansawdd uchel y Brifysgol i'r myfyrwyr.

197 O'r dystiolaeth sydd ar gael, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn darparu amrediad eang ac effeithiol o wasanaethau cefnogi personol ac academaidd oedd yn tanategu ei hamcanion strategol, yn cynnwys y rheiny a nodwyd yn ei Chynllun Ehangu Mynediad (2006 hyd 2009). Ym marn y tîm mae ymrwymiad cryf y Brifysgol i amrediad o wasanaethau sy'n cefnogi ac yn gwella profiad y myfyriwr yn nodwedd o arfer da.

Darpariaeth gydweithredol

198 Mae darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn fawr a chymhleth. Ar y lefel leol mae gan y Brifysgol hanes hir a llwyddiannus o bartneriaethau cydweithredol â Cholegau AB yng Nghymru. Mae ganddi Strategaeth ar gyfer Cydweithredu â Cholegau AB Cymreig. Mae'n disgrifio'r partneriaethau yma fel 'cryfder arwyddocaol' ac yn eu cysylltu'n agos â'i hamcanion strategol ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch. Mae tri Choleg AB yng Nghymru sy'n golegau achrededig sydd â pherthynas tymor hir gyda'r Brifysgol ac yn ateb meini prawf penodol sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Academaidd; mae 12 o golegau AB eraill wedi'u categoreiddio fel colegau partner. Mae'r Deon Addysg Bellach a Gweithgareddau Cydweithredol yn arolygu datblygiad y partneriaethau yma. Canfu'r tîm adolygu bod trefniadau ar gyfer rheoli partneriaethau Colegau AB yn gweithio'n effeithiol.

199 Mae'r Brifysgol yn cydweithredu hefyd gyda dau goleg preifat ac 11 o sefydliadau hyfforddi eraill yn y DU. Mae ganddi 43 o bartneriaethau Ewropeaidd a rhyngwladol, ac mae Cynllun Strategol 2008-2013 yn rhagweld ehangiad y rhain, gyda chanolbwyntio arbennig ar ddarpariaeth uniongyrchol a modelau sefydlog uwch, ond nid rhyddfreiniau. Mae Pennaeth Partneriaethau Rhyngwladol sydd â chefndir sylweddol mewn sicrhau ansawdd, yn cefnogi datblygiad partneriaethau tramor newydd.

200 Mae gan y Brifysgol gofrestr darpariaeth gydweithredol fanwl, er nad oedd dyddiadau arni ar amser yr adolygiad, a gedwir gan y Swyddfa Ansawdd a Pholisi. Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ar ei gwefan restr o bartneriaethau cydweithredol â Cholegau AB yng Nghymru, ond nid ei chydweithrediadau eraill. Mae'r tîm adolygiadau'n credu y byddai'r Brifysgol eisiau adolygu'r sefyllfa yma yng nghyd-destun y *Cod Ymarfer* ac efallai y byddai'n gweld argymhelliad A4 yn *Adran 2: Darpariaeth gydlynol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)* yn ddefnyddiol yn y cyswllt hwn.

201 Mae trefniadau cydweithredol y Brifysgol yn syrthio i bedwar categori: rhyddfraint, lle mae partner yn darparu rhaglen a luniwyd gan y Brifysgol, mae'r rhain drwy golegau AB partner yng Nghymru gan fwyaf ac ni chânt eu cynnig dramor oherwydd y risgiau uwch perthnasol; rhaglenni darpariaeth uniongyrchol a ddysgir gan staff y Brifysgol yn teithio i sefydliadau partner; trefniadau sefydlog uwch lle gall myfyrwyr fynd ar raglenni Prifysgol gyda chredyd ar lefel 5 neu 6 wedi iddynt gwblhau rhaglen y cytunwyd arni yn llwyddiannus yn y sefydliad partner; a darpariaeth hybrid sy'n cyfuno darpariaeth uniongyrchol gyda dysgu o bell a/neu e-ddysgu. Cadarnhaodd y Brifysgol nad yw unrhyw ddarpariaeth wedi'i darparu mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.

202 Mae'r Pwyllgor Cydweithredol yn arolygu gweithgareddau partneriaeth ac yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r colegau achrededig a dau gynrychiolydd myfyrwyr, er nad oedd hi'n bosib gweld presenoldeb neu gyfranogaeth myfyrwyr o'r cofnodion oedd ar gael i'r tîm adolygu. Nid oeddent chwaith yn cofnodi ymddiheuriadau myfyrwyr. Nid oes gan y Pwyllgor gylch gwaith penodol ar gyfer ansawdd a safonau; mae'n arolygu datblygiad academaidd partneriaethau cydweithredol gyda phwyslais ar 'fwy o gysondeb rhwng cyfadrannau', yn galluogi i sefydliadau partner 'ddylanwadu ar ddatblygiad y rhwydwaith', ac mae'n arolygu'r rhaglen datblygiad staff ar gyfer gweithgareddau cydweithredol. Mae gwaith y Pwyllgor wedi'i ganolbwyntio ar y partneriaethau gyda cholegau AB Cymru, ond yn ddiweddar mae wedi ceisio cael golwg ar weithgaredd rhyngwladol drwy bresenoldeb y Pennaeth Partneriaethau Rhyngwladol mewn cyfarfodydd.

203 Mae'r gymeradwyaeth sefydliadol i bartneriaid cydweithredol wedi'u wahaniaethu'n glir oddi wrth gymeradwyo rhaglenni, ac mae'n rhaid i bartneriaethau newydd sicrhau cymeradwyaeth sefydliadol cyn y gellir cymeradwyo unrhyw ddarpariaeth. Mae meini prawf ar gyfer cymeradwyo partneriaid cydweithredol newydd wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd. Y Swyddfa Ansawdd a Pholisi sy'n rheoli cymeradwyaeth sefydliadol ac mae'r Swyddfa Weithredol yn cynhyrchu contractau drafft. Gwneir adolygiadau sefydliadol ar ôl pum mlynedd.

204 Mae'r trefnau ar gyfer cymeradwyo sefydliadol wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd. Archwiliodd y tîm adolygu'r cofnod dogfennol o gymeradwyaeth sefydliadol diweddar, ar gyfer cydweithrediad 'categori hybrid' gyda sefydliad Ewropeaidd. O'r cofnod a gyflwynwyd i'r tîm doedd hi ddim yn eglur a oedd cymeradwyaeth gychwynnol wedi'i wneud neu beidio cyn i'r Pwyllgor Datblygiad Academaidd gymeradwyo'r cynigiad drwy weithrediad y cadeirydd, pwynt a gadarnhawyd gan y Brifysgol wedi hynny; na

phryd y cychwynnodd dyddiad cymeradwyo'r rhaglen, rhoddwyd dau ddyddiad gwahanol. Yn ogystal, roedd rhywfaint o wahaniaeth rhwng etholaeth y panel cymeradwyo, oedd yn cynnwys cadeirydd ac ysgrifennydd, a'r canllawiau sydd wedi'u hamlinellu yn y Llawlyfr Academaidd sy'n gofyn bod y panel fel arfer yn cynnwys 'dau aelod allanol, y mae un ohonynt yn aelod o QAC'. Mae'r Llawlyfr yn nodi hefyd y dylai trefnau arferol y Brifysgol ar gyfer gweithgaredd cymeradwyo sefydliadol gynnwys ymweliad â'r sefydliad gan y panel. Fodd bynnag, doedd y panel ddim yn teimlo bod ymweliad yn angenrheidiol yn yr achos hwn am ei fod yn fodlon gyda'r wybodaeth a ddarparwyd. Doedd hi ddim yn amlwg pam fod y gofynion arferol a phwyllgor yma wedi'u gwrthod y tro yma. Nid oedd y panel yn ymddangos fel petai'n datrys datganiadau gwrthgyferbyniol am statws y sefydliad. Mae'r cynigiad gwreiddiol i'r Pwyllgor Datblygiad Academaidd yn disgrifio'r sefydliad ddwywaith fel un 'cyhoeddus', ond mewn cynigiad diweddarach a manylach mae'n nodi ei fod 'yn y sector preifat'. Sicrhawyd cymeradwyaeth y sefydliad i'r bartneriaeth hon mewn cyfnod byr iawn o amser, ac nid oedd yn cyflawni gofynion arferol y Brifysgol yn llawn. Nid oedd cofnod y broses yn eglur chwaith. Nid oedd cofnodion QAC yn cyfeirio at unrhyw graffu ar y broses gymeradwyo yma.

205 I'r un graddau, ychydig iawn o wybodaeth oedd am gymeradwyo modiwlau ar gyfer y rhaglen yn yr agenda FQAC perthnasol. Roedd yn nodi'n syml bod y cymeradwyo wedi digwydd 'drwy ohebiaeth', ond heb fanylion pellach, neu heb ddyddiad cymeradwyo wedi'i nodi.

206 Ychydig iawn y mae'r Llawlyfr Academaidd yn ei ddweud am asesu risgiau mewn gweithgareddau cydweithredol, y tu hwnt i ofyniad am ddadansoddi risg mewn cysylltiad â chymeradwyo partneriaid rhyngwladol arfaethedig. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y risg wedi'i asesu ar sail y personau sy'n gyfrifol am weithgaredd arfaethedig. Roedd y tîm yn credu bod yr agwedd yma tuag at risgiau'n ymddangos yn ansystematig; barn a atgyfnerthwyd gan gyfeiriad at esiampl o ddogfennaeth ar gyfer cymeradwyo trefniadau sefydlog lefel uwch mewn sefydliad preifat. Roedd y ddogfen gynigiad yma'n ymdrin â risgiau ariannol yn unig. Nid oedd cynigiad diweddarach ar gyfer yr un sefydliad, o gyfadran arall, yn cyfeirio at risg.

207 Mae ail-gymeradwyo sefydliadol yn amodol ar drefnau sydd wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd. Gwelodd y tîm adolygu adroddiad ail gymeradwyo sefydliadol coleg AB partner. Fel rhan o'i drafodaethau ymwelodd y panel â'r Coleg a chyfarfod â'r staff a'r myfyrwyr. Adroddwyd ar agweddau o arferion da, a chafwyd argymhellion yn ymwneud â gwella darpariaeth a'r amgylchedd dysgu. Ar sail yr esiampl yma, mae'r tîm yn credu bod y broses ail gymeradwyo sefydliadol wedi'i gweithredu'n dda ac yn effeithiol.

208 Mae trefniadau darpariaeth gydweithredol wedi'u llywio gan Femoranda Dealltwriaeth a gaiff eu harwyddo gan yr Is-Ganghellor. Roedd rhestr o ddarpariaeth gydweithredol a roddwyd i'r tîm adolygu'n dangos nad yw Memoranda Dealltwriaeth wedi'u harwyddo eto ar gyfer rhai partneriaethau cyfredol. Nododd y tîm adolygu nad oedd y Llawlyfr Academaidd yn gofyn bod Memorandwm Dealltwriaeth yn cael ei arwyddo cyn i fyfyrwyr gael lle ar gwrs astudio dan drefniant cydweithredol, ond ei fod wedi'i ystyried yn 'arfer da'. Byddai'r tîm yn argymell ei bod hi'n syniad da i'r Brifysgol adolygu prydlondeb arwyddo'r Memoranda Dealltwriaeth gyda phartneriaid cydweithredol er mwyn sicrhau bod trefniadau cytundebol ar waith cyn i fyfyrwyr ar raglenni cydweithredol gael lle. Efallai y bydd y Brifysgol yn cael argymhelliad A10 y *Cod Ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydlynol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)* yn ddefnyddiol yn y cyswllt hwn.

209 Mae'r trefnau sicrhau ansawdd ar gyfer cymeradwyo ac ail gymeradwyo rhaglenni cydweithredol yr un fath ag ydynt ar gyfer darpariaeth 'gartref'. Caiff yr elfennau dysgu o bell a dysgu dosranedig mewn darpariaeth uniongyrchol a chydweithrediadau hybrid eu cymeradwyo yn unol â threfnau'r Brifysgol ar gyfer y dulliau darparu hynny (gwelwch baragraff 163). Mae angen trefniadau arbennig ar gyfer cymeradwyo trefniadau sefydlog lefel uwch. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn nodi mai un o feini prawf eu cymeradwyaeth yw bod 'proffil gwybodaeth a dealltwriaeth y disgwylir iddynt fod wedi'u sicrhau yn darparu paratoad priodol ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol ar raglen benodol ym Morgannwg'. Archwiliodd y tîm adolygu ym mha ffyrdd y gweithredwyd y maen prawf yma. Clywodd am achos lle, mewn paratoad ar gyfer cymeradwyo trefniant sefydlog lefel uwch, y cafodd y gyfatebiaeth rhwng y rhaglen allanol a'r rhaglen dderbyn yn y Brifysgol ei ddadansoddi a'i fapio. Fodd bynnag, nid oedd yr esiamplau a gyflwynwyd i'r tîm yn cynnwys unrhyw fapio a dogfennaeth o'r fath, er bod un cynigiad yn nodi y byddai mapio o'r fath yn digwydd. Mewn achos arall, nid oedd unrhyw dystiolaeth o ddadansoddiad o raglenni'r sefydliad partner, ond roedd y ddogfen gynnig yn nodi bod 'adolygiad o'r adnoddau a staffio yn [y partner] yn dangos bod y rhain yn briodol ar gyfer y gwaith o baratoi myfyrwyr i fynd i lefel 2 … ym Morgannwg'. Mae'r Brifysgol yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu trefniadau sefydlog uwch fel un o'r gweithgareddau cydweithredol lle gall 'gadw'r rheolaeth fwyaf'. Daeth y tîm i'r casgliad y byddai'r sefydliad yn gallu cyflawni'r nod canmoladwy yma'n well pe bai ei ofynion ar gyfer cymeradwyo trefniadau sefydlog lefel uwch wedi'u disgrifio mewn ffordd fwy defnyddiol a'u gweithredu'n fwy cyson.

210 Gwneir adolygiadau cyfnodol o raglenni cydweithredol 'fel rhan o'r' ddarpariaeth sydd wedi'i seilio yn y Brifysgol, er bod cyfarfodydd adolygu ar wahân wedi'u cynnal weithiau lle mae'r ddarpariaeth yn eang iawn. Mae adolygiad cyfnodol diweddar o ddarpariaeth ôl-radd gydweithredol, a weithredwyd ar wahân, yn ymwneud â phum dyfarniad meistr a thair rhaglen broffesiynol a ddarparwyd mewn cydweithrediad ag 11 o bartneriaid. Derbyniodd y panel adroddiad gan bob un o'r sefydliadau partner. Roedd yr adroddiadau yma'n defnyddio templed safonol ond roeddent yn amrywio'n sylweddol yn eu cynnwys a'u lefelau gwerthusiad. Roedd rhai, er enghraifft, yn defnyddio rhestr wirio pro fforma i gadarnhau'r cyfleusterau dysgu a ddarperir gan bartner, ond roedd un o'r rhestrau cyflawn yma heb ei arwyddo na'i ddyddio. Mewn rhai adroddiadau, doedd y sefydliadau partner ddim wedi gwneud defnydd mawr o adborth myfyrwyr. Roedd y prif adroddiad adolygu'n nodi bod y panel wedi cyfarfod â 'chynrychiolwyr o Bartneriaid a Cholegau Partner', ond nid oeddent yn dangos pa bartneriaid a gynrychiolwyd neu gan bwy. Nid oedd yr adroddiad adolygu'n dangos trafodaeth ddofn neu sylweddol amrywiol rhwng y panel a'r timau oedd yn cymryd rhan. Nid oedd cofnod o ymweliadau'r panel â'r partneriaid. Argymhellodd y panel i FQAC bod y rhaglenni i gyd yn cael eu hail-gymeradwyo, yn dibynnu ar amodau a oedd i gael eu cyflawni erbyn dyddiad penodol. Tua phum mis yn ddiweddarach 'derbyniodd a chymeradwyodd' yr FQAC yr adroddiad ond nododd nad oedd amodau ail-gymeradwyo yn y ddau sefydliad heb eu cyflawni. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod cofnod yr adolygiad yn dangos anghysonderau proses, ac ni fyddai'r FQAC wedi gallu cafod y rhain, na chadarnhau bod yr holl bartneriaid wedi cymryd rhan yn y cyfarfod adolygu, drwy gyfeirio at adroddiad y panel. Yn fwy na hynny, roedd cyflawniad amodau ail-gymeradwyo'n hwyr weithiau. Byddai'r tîm yn argymell bod y Brifysgol yn sicrhau cysondeb ymarfer ar draws darpariaeth gydweithredol yn unol â gofynion sicrhau ansawdd y Brifysgol.

211 Mae rhaglenni cydweithredol yn atebol i ofynion arferol y Brifysgol am fonitro blynyddol. Roedd esiamplau o adroddiadau monitro'n dangos amrywiaeth sylweddol mewn lefelau manylder a gwerthusiad. Roedd esiampl o adroddiad deon o un gyfadran yn dangos y gellid trosglwyddo materion arwyddocaol sy'n codi o adroddiadau monitro cydweithredol ar i fyny i'r lefelau uchaf. Yn yr achos yma, nodwyd bod rhai sefydliadau partner heb lwyddo i gynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol prydlon, a chynlluniodd y gyfadran weithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu fformatau adrodd. Mae o leiaf un gyfadran yn cynhyrchu crynodebau o adroddiadau monitro blynyddol y partner, gyda chynlluniau gweithredu, ac roedd esiampl a welwyd gan y tîm adolygu'n dangos bod materion allai fod yn bwysig, megis materion canfod adnoddau ar gyfer gweithgareddau partneriaeth, wedi'u pennu ar gyfer gweithredu. Clywodd y tîm hefyd y gallai rheolwyr mewn sefydliadau partner adrodd am faterion arwyddocaol yn gyflym, heb aros tan ddiwedd cylchred monitro, drwy ymweliadau aml gan staff y Brifysgol neu drwy adrodd uniongyrchol i'r Swyddfa Ansawdd a Pholisi. Mae'r Brifysgol yn cymryd camau i gryfhau cysondeb monitro blynyddol yn ei phartneriaethau cydweithredol mewn nifer o ffyrdd: cynghori cyfadrannau na ellid arwyddo eu proses fonitro flynyddol heb gynnwys gwybodaeth coleg partner; mae cadeiryddion FQAC yn cyfarfod erbyn hyn i adolygu adroddiadau monitro cydweithredol; ac o 2008-09 ymlaen bydd sefydliadau partner yn cynhyrchu adroddiadau trosolwg sefydliadol neu 'ddogfennau hunanwerthusiad blynyddol y coleg'. Roedd y tîm yn credu bod hyn yn welliant i'r broses fonitro a allai fod yn ddefnyddiol.

212 Mae cyfadrannau'n penodi swyddogion cyswllt partneriaeth sy'n 'arolygu ac yn galluogi gweithrediad ac ansawdd' darpariaeth gydweithredol. Clywodd y tîm adolygu bod y staff yma, a allai hefyd fod yn arweinwyr cynllun, yn ymweld â chanolfannau partneriaeth o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Yn ystod eu hymweliadau maent yn cyfarfod â myfyrwyr i fonitro eu barn a hefyd yn cefnogi ysgrifennu adroddiadau monitro blynyddol. Mae swyddogion cyswllt partneriaethau'n adrodd am eu hymweliadau i'w cyfadrannau; hysbysir pwyllgorau gweithredol cyfadrannau am faterion arwyddocaol. Mae fforwm Swyddogion Cyswllt Partneriaeth yn cyfarfod i rannu arferion da ar draws y Brifysgol, a chynhelir cyfarfodydd tebyg ar lefel y gyfadran hefyd. Mae arweinwyr modiwl yn gwneud cysylltiadau cefnogol eraill. Roedd y tîm yn teimlo bod y trefniadau cyswllt yma'n gweithio'n effeithiol.

213 Dim ond athrawon cydnabyddedig y Brifysgol sy'n cael dysgu yn y sefydliadau partner ar raglenni sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol. Cymeradwyir Statws Athro Cydnabyddedig (RTS) pan gaiff y rhaglen ei chymeradwyo neu ei hail gymeradwyo, neu gan FQACs ar amseroedd eraill. Rhoddir y meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer RTS yn y Llawlyfr Academaidd, ac mae'r Brifysgol yn cadw cronfa ddata o gymeradwyaethau RTS. Canfu'r tîm adolygu bod y broses gymeradwyo wedi'i hadrodd yn fanwl mewn adolygiadau ac yng nghofnodion FQAC, ac y gellir gwrthod cymeradwyo neu y gellid cymeradwyo gydag amodau. Mae gan golegau achrededig bwerau dirprwyedig i gymeradwyo RTS. Daeth y tîm i'r casgliad bod y system RTS yn gadarn ac yn briodol, ac wedi'i gweithredu'n egnïol. O 2009 bydd y Brifysgol yn gofyn bod gan bartneriaid cydweithredol uned addysg uwch sy'n cynnwys cnewyllyn o staff sydd â phrofiad priodol o ddysgu mewn addysg uwch, a'u cymeradwyo gan QAC os bydd sefydliad partner eisiau dysgu rhaglenni neu fodiwlau ar lefel gradd anrhydedd (lefel 6) neu'n uwch. Mae trefnau ar gyfer cymeradwyo'r unedau yma wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd, a chanfu'r tîm bod y broses hon yn cael ei gweithredu gyda gofal ac ystyriaeth.

214 Fel y mae wedi'i nodi ym mharagraff 82, caiff y ddarpariaeth gydweithredol i gyd ei hasesu yn unol â threfnau a rheoliadau'r Brifysgol. Mae cymaroldeb mewnol y safonau academaidd wedi'i gynnal yn effeithiol drwy ddefnyddio digwyddiadau croes-safoni yn cynnwys staff y sefydliadau partner ac aelodau o gyfadrannau'r Brifysgol. Mae sefydliadau partner wedi tystio i werth croes-safoni mewn gwella cysondeb asesiad ac ar gyfer datblygiad staff. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad ei fod yn nodwedd o arfer da. Caiff yr holl raglenni cydweithredol eu harholi'n allanol drwy brosesau safonol y sefydliad, a gofynnir i arholwyr allanol yn benodol i wneud datganiad tic-mewn-bocs am safonau asesiad. Gall arholwyr allanol gyfarfod â staff sefydliadau partner, ar fyrddau arholi a gynhelir yn y Brifysgol, i drafod materion asesu (gwelwch baragraff 91).

215 Mae'r Brifysgol yn darparu'r trawsgrifiadau a'r tystysgrifau dyfarniadau cyfan ar gyfer darpariaeth gydweithredol. Roedd esiamplau a welwyd gan y tîm adolygu'n dangos bod y lle astudio wedi'i ddisgrifio ar drawsgrifiadau yn unol â'r *Cod Ymarfer*.

216 Yn 2007 a 2008 adolygodd y Brifysgol ei threfniadau mewnol ddwywaith ar gyfer rheoli darpariaeth gydweithredol. Yn 2007, gwnaeth y Swyddfa Ansawdd a Pholisi 'Adolygiad o Effeithiolrwydd y Trefniadau ar gyfer Rheoli Safonau … Darpariaeth Gydweithredol' a oedd yn argymell 'mwy o aliniad' gyda'r *Cod Ymarfer,* yn arbennig o ran cymeradwyo defnyddiau cyhoeddusrwydd a darparu gwybodaeth i fyfyrwyr. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid cryfhau gweithdrefnau ar gyfer monitro a chymeradwyo defnyddiau cyhoeddusrwydd a gyhoeddwyd gan bartneriaid. Mae'r Brifysgol wedi ymateb dryw roi cytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda sefydliadau partner. Mae'r Adran Farchnata a Recriwtio Myfyrwyr yn gwneud archwiliadau blynyddol o gyhoeddusrwydd partneriaid erbyn hyn. Cafodd yr angen am y datblygiad yma ei gryfhau gan ganfyddiad gwendidau mawrion yn nefnydd cyhoeddusrwydd un sefydliad partner yn fuan yn 2008. Yn yr achos hwnnw, ymatebodd yn gryf iawn, drwy roi rhybudd ei fod yn terfynu'r trefniant partneriaeth a sefydlu strategaeth ymadael ar gyfer y myfyrwyr oedd yn weddill.

217 Yn gynnar yn 2008, gwnaeth QAC archwiliad thematig o reolaeth y cyfadrannau ar eu darpariaeth gydweithredol. Tynnodd yr archwiliad yma sylw at nifer o faterion i'w gwella yn cynnwys mwy o gyfranogaeth gan staff sefydliadau partner mewn datblygu rhaglenni; cofnodi ymweliadau â sefydliadau partner yn ffurfiol; a phresenoldeb staff colegau partner ar fyrddau arholi. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y mesurau sicrhau ansawdd mewnol yma o werth i'r Brifysgol, er y gallai eu cynnwys a'u fframiau cyfeirio gael eu hymestyn yn y dyfodol.

218 Canfu'r tîm adolygu bod rhai agweddau o'r ddarpariaeth gydweithredol, megis darparu datblygiad staff, yn gweithio'n dda. Roedd hi'n amlwg hefyd bod partneriaid yn cymryd rhan mewn trafodaethau pwysig am faterion Prifysgol, Ar bob lefel roedd tystiolaeth o awydd a bwriad gwirioneddol i weithio gyda sefydliadau sy'n cydweithredu gydag ysbryd partneriaeth. Sicrhawyd cymaroldeb safonau academaidd drwy fecanwaith safoni ac asesiad cryf. Mae partneriaethau'r Brifysgol yng Nghymru wedi cyflawni llawer yn nhermau ehangu cyfranogaeth, ac mae potensial mawr am lwyddiant yn y dyfodol.

219 Canfu'r tîm adolygu hefyd dystiolaeth o anghysonderau yn nhrefnau sicrhau ansawdd partneriaethau cydweithredol. Mae'r Brifysgol yn honni ei bod yn 'eithriadol ofalus' wrth sefydlu partneriaethau rhyngwladol newydd ond canfu'r tîm nad oedd y dull yma'n amlwg bob amser yn ei gofynion sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaeth gydweithredol mewn perthynas, er enghraifft, ag arwyddo Memoranda Dealltwriaeth a chyfateb rhaglenni ar gyfer trefniadau sefydlog uwch. Nid oedd y trefnau presennol ar gyfer cymeradwyo sefydliadol a rhaglen wedi'u gweithredu'n gyson bob amser. Daeth y tîm i'r casgliad hefyd nad oedd dogfennaeth y sefydliad a rhoi adroddiad ar brosesau sicrhau ansawdd yn cynnal cysondeb arolygiad yn llawn; ac nid oeddent chwaith yn cefnogi datganiad hyder y ddogfen hunanwerthusiad yn gyfan gwbl yn y prosesau cymeradwyo ar gyfer darpariaeth gydweithredol. O ran ei gynlluniau i ehangu darpariaeth gydweithredol, yn arbennig dramor, dylai'r Brifysgol sicrhau cysondeb arferion ar draws ei darpariaeth gydweithredol a sicrhau bod ei harolygiad sefydliadol o ganlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur.

Adran 3: Ymchwiliadau'r adolygiad – gwybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi

Profiad y myfyrwyr o wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi a'r wybodaeth arall sydd ar gael iddynt

220 Roedd y dystiolaeth oedd ar gael i'r tîm adolygu'n dangos bod y Brifysgol yn rhoi amrediad eang o wybodaeth gyhoeddedig yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r myfyrwyr (cyn ac ar ôl cofrestru). Mae Siarter y Myfyrwyr yn disgrifio ymrwymiadau'r Brifysgol mewn perthynas ag arfer da a'r safonau gwasanaeth y bydd yn ceisio eu cyrraedd. Nid yw'r Siarter yn berthnasol i fyfyrwyr ar gyrsiau Prifysgol mewn sefydliadau partner, y mae trefniadau ar wahân wedi'u gwneud ar eu cyfer drwy'r sefydliad partner. Mae'r Siarter hefyd yn cyfeirio at rywfaint o'r wybodaeth y gall myfyrwyr ddisgwyl ei derbyn gan y Brifysgol. Gall myfyrwyr a rhanddeiliaid gael gafael ar wybodaeth drwy wefan y Brifysgol a gafodd ei hail-ddylunio'n ddiweddar i hwyluso mynediad o safbwynt y myfyriwr.

221 Yn ei dogfen hunanwerthusiad nododd y Brifysgol bod yr holl fyfyrwyr newydd sy'n dod i mewn yn derbyn gwybodaeth o flaen llaw, cyn iddynt gofrestru, am y gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol ar ffurf y pecyn 'GlamLife' sy'n cynnwys cyngor ar ffïoedd dysgu, adnoddau dysgu, gwasanaethau cefnogi myfyrwyr a mannau byw, yn ogystal â manylion cofrestru sy'n ymwneud yn benodol â'r gyfadran. Cafodd hyn ei gyflwyno yn dilyn adborth gan fyfyrwyr oedd yn derbyn gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn y Brifysgol ar wahanol amseroedd. Er bod nifer o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n gefnogol iawn o'r wybodaeth roeddent wedi'i derbyn cyn ymuno â'r Brifysgol, roedd nifer fechan oedd heb dderbyn y pecyn cyn-gofrestru. Nododd y tîm bod hyn yn un o ganfyddiadau ac argymhellion dilynol adroddiad y Prosiect Disgwyliadau'r Myfyrwyr ac roedd y Brifysgol yn ceisio gwella ei chyfathrebiad ymhellach ac yn fwy eang gyda myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd y Brifysgol.

222 Mae'r wefan gwybodaeth i fyfyrwyr 'GlamLife' a ddatblygwyd ac a gynhaliwyd gan Wasanaethau'r Myfyrwyr, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2005, yn 'siop-un-alwad' ar gyfer yr holl wybodaeth i fyfyrwyr cofrestredig, ac mae'n cynnwys defnyddiau cefnogi academaidd a bugeiliol. Clywodd y tîm adolygu bod 'GlamLife' yn cael ei ddatblygu i gynnwys 'pyrth personol' fel bod modd i fyfyrwyr cofrestredig gael gafael ar, a rhyngweithio gyda, yr wybodaeth sydd wedi'i storio yn systemau'r Brifysgol ar sail fwy unigolyddol lle bo'n briodol. Fel mecanwaith gefnogi ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol mae 'GlamLife' yn cynnwys tudalennau gwe wedi'u hymroddi i faterion sy'n effeithio ar fyfyrwyr rhyngwladol, megis Wythnos Groeso i Fyfyrwyr Rhyngwladol, y Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol a chyrsiau ar sgiliau iaith Saesneg. Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm eu bod yn dibynnu'n gynyddol ar 'GlamLife' ac yn teimlo bod hwn yn adnodd rhagorol a phwysig. Mae'r adran Farchnata a Recriwtio Myfyrwyr hefyd yn cynhyrchu cyfarwyddiadur a dyddiadur myfyrwyr defnyddiol, o'r enw 'Your Life; GlamLife' sy'n adlewyrchu llawer o'r wybodaeth sydd i'w chael ar y prif wefan 'GlamLife'. I fyfyrwyr ymchwil ôl-radd, mae gwefan y Swyddfa Ymchwil hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol yn cynnwys Cod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil.

223 Ar lefel y dyfarniadau a'r modiwlau, mae pob myfyriwr yn derbyn llawlyfr (ar gopi caled a/neu'n electronig, yn aml ar CD-ROM) sy'n rhoi manylion cynnwys a gweithrediad y dyfarniad/modiwl. Nid yw'r Brifysgol yn rhagnodi union gynnwys llawlyfrau myfyrwyr ond mae'n rhoi canllawiau arfer gorau cynhwysfawr ar sut i gynhyrchu llawlyfrau myfyrwyr yn ei Llawlyfr Academaidd. Darperir arweiniad ysgrifenedig hefyd i fyfyrwyr sy'n gwneud lleoliad. Mae myfyrwyr mewn colegau partner yn derbyn llawlyfrau cymaradwy â'r myfyrwyr ar y campws, gyda cholegau partner yn addasu adrannau penodol yn unol â'u cyfleusterau eu hunain, er enghraifft, gwasanaethau'r myfyrwyr, adnoddau llyfrgell, cefnogaeth fugeiliol. Gwelodd y tîm adolygu amrediad o lawlyfrau dyfarniad a modiwl oedd yn rhoi gwybodaeth am, er enghraifft, y canlyniadau dysgu a fwriadwyd, strwythur dyfarniadau, meini prawf a dulliau addysgu ac asesu, rheoliadau, y drefn gwyno, apeliadau academaidd a mecanweithiau cefnogi sydd ar gael i fyfyrwyr. Ym marn y tîm roedd y llawlyfrau yma'n gyffredinol glir ac addas i'r pwrpas ond yn amrywio yn eu harddull a'u cynnwys. Er gwaethaf yr amrywiaeth yma, clywodd y tîm fod gwybodaeth fel honno a ddarparwyd mewn manylebau rhaglen a chynnwys modiwlau yn dod o un ystorfa er mwyn sicrhau cysondeb.

224 Cyhoeddir y Llawlyfr Academaidd ar wefan y Brifysgol; yn y ddogfen hunanwerthusiad dywedodd y Brifysgol ei bod wedi canfod yn 2005 bod fersiynau wedi'u golygu o destun rheoleiddio'n cael eu tynnu o'r Llawlyfr, a'u copïo i lawlyfrau myfyrwyr. Roedd y Brifysgol yn cydnabod y gallai camgymeriadau neu gamddehongli ddigwydd mewn proses fel yma felly mae'r Swyddfa Ansawdd a Pholisi'n cyhoeddi'r 'Rheoliadau Cryno' erbyn hyn a roddir i gyfadrannau a phartneriaid cydweithredol i'w cynnwys mewn dogfennaeth berthnasol.

225 Dywedodd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr bod gan Undeb y Myfyrwyr dystiolaeth i awgrymu bod myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am gyrsiau a'u bod yn gyffredinol fodlon â hyn. Roedd myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu'n unol eu barn bod yr wybodaeth roeddent wedi'i derbyn gan y sefydliad, ei chyfadrannau a'i hadrannau yn gynhwysfawr, defnyddiol a chywir yn gyffredinol ac yn eu manylion. Daeth y tîm i'r casgliad bod yr wybodaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr, yn gyffredinol, yn ateb disgwyliadau'r *Cod Ymarfer* hefyd.

Pa mor ddibynadwy, cywir a chyflawn yw'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi

226 Yn ei dogfen hunanwerthusiad mae disgrifiad y Brifysgol o'i dull o sicrhau ansawdd a chywirdeb gwybodaeth gyhoeddedig yn tynnu sylw at gyfranogaeth amrediad o gyrff. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Cynghori Systemau a Gwybodaeth y Gyfarwyddiaeth, gyda'i chyfrifoldeb am ddarpariaeth a llywodraethiad cyffredinol technoleg gwybodaeth a chyfathrebiadau; yr Adran Farchnata a Recriwtio Myfyrwyr, gyda'i chyfrifoldebau mewn perthynas â chydlyniad a chynhyrchiad gwybodaeth i ddarpar-fyfyrwyr yn cynnwys prosbectysau; a'r cyfadrannau, gyda chyfrifoldebau am yr wybodaeth a roddir i fyfyrwyr cyfredol.

227 Mae datblygiad y ddarpariaeth wybodaeth i randdeiliaid wedi elwa o gasglu adborth gan ddefnyddwyr. Er enghraifft, mae datblygiad gwefan y Brifysgol wedi dibynnu ar ymchwil a gomisiynwyd ynglŷn â sut mae myfyrwyr yn hoffi cael gafael ar wybodaeth. Gan ddefnyddio cyfryngau electronig a chopi caled, mae'r Brifysgol yn gwneud amrediad cyfan o asesiadau rhaglen rheoliadol perthnasol a gwybodaeth gefnogol arall sydd ar gael i fyfyrwyr gyda'r rhagolwg y bydd y porth myfyrwyr yn sicrhau bod yr wybodaeth yma wedi'i phersonoleiddio yn y dyfodol.

228 O adolygiad o'r wybodaeth berthnasol a gyhoeddwyd yn allanol, a dynnwyd o ddata a ddarparwyd gan y Brifysgol, roedd hi'n amlwg bod y Brifysgol yn gallu trefnu ei ffynonellau data mewnol i gyflawni gofynion asiantaethau allanol megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Unistats, a Gwybodaeth Ansawdd Addysgu. Roedd y data'n cyfateb â disgwyliadau cenedlaethol cyfredol ac wedi'i halinio gyda'r hyn oedd ar gael yn fewnol.

229 Mae'r Brifysgol hefyd yn cyhoeddi amrediad llawn o wybodaeth sy'n gyson â hwnnw a ddefnyddir yn fewnol ar ei gwefan sy'n agored i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ei Chynllun Strategol, Llawlyfr Academaidd, Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol, cynllun cyhoeddi a Chynllun Iaith Gymraeg. Yn fewnol, mae manylebau rhaglen ar gael gyda gwybodaeth am gyrsiau i fyfyrwyr/ymgeiswyr arfaethedig sydd ar gael ar ffurf ddefnyddiol a hawdd cael gafael arno. Mae'r ymrwymiad yma i rannu gwybodaeth berthnasol yn eglur ac yn agored yn ymestyn i ddarparu rhan o'r we sydd wedi'i glustnodi ar gyfer cefnogi rhieni darpar-fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynhyrchu'r cylchgrawn ParentSpace i helpu rhieni i ddeall proses Gwasanaeth Mynediadau Colegau a Phrifysgolion, a'r materion y mae angen i fyfyrwyr eu hystyried wrth ddewis cwrs astudio a phrifysgol.

230 Mae datganoli cyfrifoldeb am wirio cywirdeb yr wybodaeth ar lefel y dyfarniad sy'n mynd i'r cyfadrannau, yn cynnwys honno ar gyfer y ddarpariaeth gydweithredol, yn rhoi cyfyngiadau ar ba mor effeithiol y gall sefydliad gynnal arolygiad. Nid oedd y tîm adolygu'n glir chwaith a lwyddwyd i arwyddo gwybodaeth yn ffurfiol yn gyson. Ond, gan gymryd i ystyriaeth sylwadau myfyrwyr a fynegwyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr ac mewn cyfarfodydd, daeth y tîm i'r casgliad o'i graffu ei hun ar yr wybodaeth a gyhoeddwyd bod y trefniadau sydd ar waith yn cynnal lefel angenrheidiol o ddiogelwch ar hyn o bryd o ran ei chywirdeb a'i dilysrwydd.

Canfyddiadau

Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau ansawdd y rhaglenni

231 Mae'r Brifysgol yn defnyddio trefnau ffurfiol i gymeradwyo cyrsiau newydd a diwygiedig; yn monitro rhaglenni'n flynyddol; ac yn gwneud adolygiad cyfnodol o'i darpariaeth. Mae'r Bwrdd Academaidd yn cymeradwyo cynigion i ddatblygu rhaglenni newydd ond yn dirprwyo'r broses gymeradwyo fanwl i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd (QAC) sydd, yn ei dro, yn dirprwyo'n eang i Bwyllgorau Sicrhau Ansawdd Cyfadrannau (FQAC) a Phwyllgor Sicrhau Ansawdd y Coleg (CQAC). Mae'r Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r prosesau i'w mabwysiadu yn dibynnu ar raddfa'r newid perthnasol. Mewn rhai meysydd, mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, a gall cyfadrannau fabwysiadu eu dulliau eu hunain o fewn fframwaith sicrhau ansawdd y Brifysgol gan ganiatáu i wahaniaethau mewn arferion ddatblygu rhwng cyfadrannau. Mae proses gymeradwyo pob rhaglen yn cynnwys elfen o allanoldeb. Mae QAC yn arolygu'r prosesau dirprwyedig, ond roedd natur yr adrodd ar i fyny a welwyd gan y tîm adolygu'n ymwneud yn fawr iawn â chyflwyno manylion cyfyngedig, gan ei gwneud hi'n anodd i QAC gael darlun llawn o'r prosesau sy'n cael eu mabwysiadu a'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau wedi'u dirprwyo ar lefel leol. Nid yw'r prosesau cymeradwyo rhaglenni'n ormodol o drwm ac maent yn caniatáu cyffyrddiad ysgafn gan y Brifysgol lle bo'n briodol; ond, nid ydynt bob amser wedi'u cwblhau'n llawn, fel y gwelwyd gan y nifer o gymeradwyaethau ôl-syllol a gofnodwyd.

232 Mae monitro blynyddol yn broses eang sydd wedi'i seilio ar gynhyrchu adroddiadau ar lefel modiwl, partner, pwnc, adran a chyfadran y mae sylwadau allanol yn bwydo i mewn iddynt. Mae pob elfen yn cynnwys dadansoddiad ac adlewyrchiad, datblygu cynlluniau gweithredu a chanfod arferion da. Caiff y broses fonitro flynyddol ei harchwilio gan aelodau'r FQAC o'r tu allan i'r gyfadran. Cyflwynir i QAC adroddiad yr archwiliad yma ynghyd ag adroddiad cryno sydd wedi'i baratoi gan ddeon y gyfadran. Er nad yw'n gweld yr adolygiad blynyddol llawn ar gyfer cyfadran, mae ei aelodau'n cymryd rhan yn ffurfiol fel cadeiryddion FQAC ac fel aelodau o dimau archwilio. Mae prosesau paralel yn eu lle ar gyfer monitro'r ddarpariaeth graddau ymchwil a myfyrwyr ymchwil bob blwyddyn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y broses fonitro flynyddol yn drwyadl ac yn effeithiol ac wedi'i gweithredu'n gyson drwy'r Brifysgol gyfan.

233 Mae'r adolygiad cyfnodol o ddarpariaeth academaidd yn bwnc dau wahanol fath o adolygiad. Mae adolygiad cyfnodol, sy'n gweithredu ar gylchred o bump neu chwe blynedd, yn cynnwys ail ddilysu dyfarniadau gan ddefnyddio methodoleg sy'n debyg i gymeradwyo rhaglen. Yn 2005 cyflwynwyd Adolygiad Pwnc Mewnol (ISR) sydd wedi'i lunio i wneud adolygiad beirniadol ac adlewyrchol o faes astudio cyfan bob chwe blynedd. Mae'r ISR yn cynnwys sicrhau ffynonellau tystiolaeth eang ac fe'i gwneir gan banel sy'n cynnwys aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol. Mae'r panel yn adrodd i QAC ac o'r fan honno i'r Bwrdd Academaidd ar ddatblygiad y maes hwn yn y dyfodol. Y bwriad yw bod yr ISR yn bwydo i mewn i'r adolygiad cyfnodol, ond nid yw'r cylchoedd wedi'u cydlynu'n llawn eto.

234 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y prosesau unigol o gymeradwyo rhaglen, monitro ac adolygu cyfnodol yn effeithiol fel dulliau o sicrhau'r Brifysgol am ansawdd ei rhaglenni. Ond, roedd y tîm yn holi i ba raddau yr oedd gan y Bwrdd Academaidd, drwy QAC, arolwg gweithredol ar y prosesau oherwydd diffyg eglurder yn y berthynas rhwng QAC a GQAC/CQAC, a'r diffyg eglurder wrth adrodd am y prosesau yma ar i fyny. Mae QAC yn dirprwyo cyfrifoldeb yn eang iawn am gymeradwyo rhaglenni a monitro ac mae'r hyblygrwydd a ganiateir gan y Llawlyfr Academaidd yn galluogi i wahaniaethau ddatblygu yn y ffordd y caiff y prosesau yma eu gweithredu ar draws y Brifysgol. Argymhellir i'r Brifysgol y byddai'n syniad da gwneud yr arolwg sefydliadol o ganlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur.

235 Mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd niferus i fyfyrwyr ddarparu adborth: drwy holiaduron modiwl ac arolwg diwedd blwyddyn yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD); arolygir myfyrwyr yn rheolaidd ar amrywiaeth o bynciau; ac mae cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn pwyllgorau ar lefel Prifysgol ac yn lleol. Roedd y tîm adolygu'n teimlo bod y datblygiadau i gryfhau cynrychiolaeth myfyrwyr, yn arbennig drwy rolau'r Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Llais Myfyrwyr, yn nodwedd o arfer da. Ceisir adborth gan raddedigion mewn perthynas ag adolygiad rhaglen ac mae'r Brifysgol yn cadw cysylltiad agos ag amrywiaeth o gyflogwyr a chyrff proffesiynol. Roedd y tîm adolygu'n cytuno gyda barn y Brifysgol ei bod yn hybu dull systematig a chynhwysol o sicrhau adborth. Gwelodd y tîm hefyd bod yr adborth a sicrhawyd wedi'i ddefnyddio'n dda i wella darpariaeth y Brifysgol a phrofiad y myfyriwr.

236 Mae cynnydd mewn dysgu cyfunol sy'n cyfuno dysgu o bell a dysgu wyneb yn wyneb yn un o flaenoriaethau strategol y brifysgol. Ychydig o raglenni sy'n bodoli fel dyfarniadau dysgu o bell yn unig, ond mae nifer o fodiwlau e-ddysgu ac e-fersiynau o raglenni a ddarperir yn y dull confensiynol. Mae'r Brifysgol wedi datblygu trefnau gwell ar gyfer cymeradwyo, addasu ac adolygu rhaglenni mewn perthynas â dysgu dosranedig ac e-ddysgu. Mae cymeradwyo rhaglenni dysgu o bell newydd yn cynnwys sefydlu timau datblygu arbenigol gyda chymorth y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu (CELT). Mae QAC yn cymryd y cyfrifoldeb am gymeradwyo rhaglenni dysgu o bell newydd er bod y gwaith yma wedi'i ddirprwyo i FQAC weithiau lle mae aelodau sy'n arbenigo mewn rhaglenni o'r fath. Cadarnhaodd y tîm adolygu bod system y Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu o bell yn gyffredinol briodol ac effeithiol. Fodd bynnag, mewn rhai agweddau, megis cymeradwyo modiwlau newydd, diwygiadau bychain a monitro blynyddol, nid yw'r prosesau ychwanegol a awgrymir wedi'u gweithredu'n gyson. Dylai'r Brifysgol ystyried a yw'r dulliau cyfredol o sicrhau ansawdd dysgu dosranedig ac e-ddysgu'n caniatáu digon o arolygiad o arferion y gyfadran i gadw datblygiad arferion y gyfadran dan adolygiad.

237 Mae darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn fawr a chymhleth, ac yn canolbwyntio ar ryddfreinio rhaglenni i golegau addysg bellach (colegau AB) yng Nghymru, a threfniadau ar gyfer darparu'n uniongyrchol a chydnabyddiaeth lefel uwch gan nifer sylweddol o sefydliadau ar draws y byd. Caiff y ddarpariaeth gydweithredol ei harolygu gan Bwyllgor Cydweithredol y Bwrdd Academaidd. Sicrheir ansawdd drwy brosesau arferol y Brifysgol, wedi'i wella lle bo raid er mwyn cymryd i ystyriaeth risg uwch a nodweddion arbennig gweithio cydweithredol. Mynegodd y Brifysgol hyder

yn y trefniadau yma. Ond, canfu'r tîm adolygu na ddylid bod mor hyderus â hyn. Canfu bod prosesau sicrhau ansawdd wedi'u gweithredu'n anghyson ac roedd yr arolwg gan y Brifysgol yn anghyflawn. Yn ogystal, teimlwyd y gallai ansawdd a safonau fod mewn perygl oherwydd y methiant i sicrhau bod cytundebau cyfreithiol wedi'u harwyddo yn eu lle bob amser cyn i fyfyrwyr ddechrau ar gyrsiau cydweithredol.

Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer sicrhau safon y cymwysterau

238 Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r Rhwydwaith Mewnol Academaidd a'r *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)* wrth osod safonau ei graddau, fel y maent wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Academaidd, y mae ei gynnwys wedi'i gymeradwyo gan QAC gyda'r elfen reoleiddio'n atebol i gymeradwyaeth gan y Bwrdd Academaidd. Mae'r myfyrwyr yn deall yn dda'r safonau y mae disgwyl iddynt eu cyrraedd, ac mae datganiadau ffurfiol wedi'u cynnwys mewn manylebau rhaglenni a disgrifwyr modiwlau ar gyfer pob gradd a ddysgir. Yn yr un modd, mae'r safonau ar gyfer graddau ymchwil wedi'u disgrifio yn y cyngor a ddarperir i fyfyrwyr, arolygwyr ac arholwyr. Mae defnyddio safonau'n gyson drwy'r holl ddarpariaeth a ddysgir y Brifysgol wedi'i gefnogi gan fframwaith rheoliadol cyffredin ar gyfer yr holl ddyfarniadau sydd, a ydynt wedi'u darparu gan y Brifysgol neu mewn cydweithrediad â phartner, wedi'u hadeiladu mewn trefniant modiwlaidd cyffredin sy'n seiliedig ar gredydau. Ymdrinnir â defnyddio hyn yn systematig ar draws y ddarpariaeth gyfan drwy brosesau cymeradwy ac adolygu; mae'r Bwrdd Academaidd yn derbyn crynodebau blynyddol o adroddiadau arholwyr allanol; ceir arolwg o ymddygiad y bwrdd arholi gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau; a'r confensiynau marcio a safoni a ddefnyddir. Mae cysondeb penderfyniadau asesu gan fyrddau arholi hefyd wedi'i hwyluso gan gyflwyniad data perfformiad ar ffurf systematig sy'n deillio o system reoli gwybodaeth y myfyrwyr sydd wedi'i gyrru gan y rheolau asesu.

239 Mae gan y Brifysgol Strategaeth Ddysgu, Addysgu ac Asesiad (2005-2012), sydd wedi'i thanategu gan Bolisi Asesiad a Thariff Asesiad ymgynghorol. Mae gweithrediad darpariaethau'r tri datganiad yma yn y broses gynllunio cwricwlwm yn digwydd drwy gymeradwyaeth rhaglenni newydd a'r prosesau adolygu/ail adolygu a monitro parhaus sy'n digwydd yn y Brifysgol. Mae pob cyfadran yn cynnwys blaenoriaethau o'r datganiadau sefydliadol yn eu cynlluniau strategol, i gefnogi gweithrediad y Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesiad erbyn diwedd sesiwn academaidd 2009-10. Mae amcanion allweddol y datganiadau yma sy'n berthnasol i asesiad yn hollol gyson gyda'r blaenoriaethau strategol allweddol a ddisgrifir gan y Brifysgol yn ei Chynllun Strategol.

240 Mae gan y Bwrdd Academaidd y cyfrifoldeb cyffredinol ffurfiol am safonau academaidd, ond mae wedi dirprwyo hyn i'r byrddau arholi (yn cynnwys Is-grŵp Rhaglenni Ymchwil QAC fel y Bwrdd Arholi Dyfarniadau ar gyfer graddau ymchwil), felly mae arholwyr allanol yn allweddol i ddiogelwch safonau dyfarniadau. Mae Is-grŵp Rheoliadau ac Arholwyr QAC yn cynghori'r Bwrdd Academaidd am ei gyfrifoldebau ar gyfer penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol. Ar gyfer hyn, mae'r Brifysgol wedi amlinellu rheoliadau a threfnau yn y Llawlyfr Academaidd sy'n gweithredu i sicrhau annibyniaeth, ansawdd a phrofiad pobl sy'n cael eu penodi'n arholwyr allanol. Caiff penodiadau eu monitro i sicrhau nad yw swyddi gwag yn aros yn wag a bod arholwyr yn darparu eu hadroddiadau mewn ffordd mor amserol ag sy'n ymarferol.

241 Ceisir barn arholwyr allanol ar amrywiaeth o faterion sydd wedi'u canoli ar safonau asesiadau a chanfod lefel cyrhaeddiad myfyrwyr. Mae arholwyr allanol yn cyfranogi yn nwy haen y bwrdd arholi felly mae cyfle iddynt fynd i'r afael â pherfformiad ar lefel y modiwl (arholwyr allanol pwnc) a pherfformiad ar lefel y dyfarniad (arholwyr allanol dyfarniadau).

242 Mae gan y Brifysgol brosesau eglur ar waith i sicrhau y gweithredir ar y sylwadau a roddir gan arholwyr allanol yn eu hadroddiadau blynyddol; bod arholwyr yn derbyn ymateb i'w sylwadau; a bod synthesis o themâu a bennir mewn adroddiadau wedi'u gweithredu a'u hystyried gan y Bwrdd Academaidd. Ond, nid yw'r cyfraniad a wneir gan adroddiadau arholwyr allanol i ganlyniadau gwerthusol prosesau adolygu a monitro rhaglen y Brifysgol ar lefelau y tu hwnt i adolygiad modiwl, mor eglur â'r prosesau eraill ac mae'n cyfrannu at argymhelliad cynghori'r tîm adolygu y dylai'r Brifysgol sicrhau bod yr arolygiad sefydliadol o ganlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur (gwelwch baragraff 94).

243 O'r ddogfennaeth oedd ar gael i'r tîm adolygu ac o'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda staff, gallai'r tîm ddod i'r casgliad bod gan y Brifysgol drefnau ac ymarferion ar gyfer ymgysylltu ag arholwyr allanol oedd yn cyfateb â'r *Cod Ymarfer*, bod defnyddio arholwyr allanol a'u hadroddiadau yn effeithiol ac yn gyson ac yn helpu i sicrhau bod asesiad myfyrwyr a diogelwch y dyfarniadau wedi'u hadeiladu ar sylfeini cadarn.

244 Yn ogystal ag arholwyr allanol, mae'r Brifysgol yn defnyddio amrediad o gyfraniadau allanol i sicrhau safonau ei gymwysterau. Felly, defnyddir arbenigedd allanol wrth gymeradwyo ac adolygu rhaglenni ac mae cyfran sylweddol o'r dyfarniadau a gynigir wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB) allanol. Gall cyfadrannau ddefnyddio adroddiadau achrediad o'r fath fel gwiriad pellach ar safonau dyfarniadau; ond, roedd manylder yr adrodd ar ystyriaethau o'r fath i QAC yn isel ac efallai, o'r herwydd, bod cyfle i rannu arfer da wedi'i golli.

245 Mae'r Brifysgol yn talu sylw cynyddol i'w gallu i fonitro safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr ar draws ei darpariaeth. Mae cynhyrchiad cyfres ddata'r dangosydd perfformiad cyflawniad myfyrwyr (SAPI) wedi bod yn gyflawniad sylweddol yn y cyswllt hwn. Mewn perthynas â hyn, ac o gynhyrchu cyfresi data eraill sy'n berthnasol, mae'n amlwg bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth ystadegol sydd ar gael ac yn cymryd camau i gynyddu ei werth a chryfhau ei ddefnydd ar bob lefel.

246 Mae'r Brifysgol wedi cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth gydweithredol mewn perthynas â safonau ac mae wedi rhoi mesurau ychwanegol ar waith i sicrhau bod safonau'r dyfarniadau yma wedi'u diogelu, lle bynnag y cant eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio digwyddiadau traws-safoni; y sylw penodol sy'n ofynnol ac a roddir gan arholwyr allanol; ac argaeledd datblygiad a hyfforddiant staff. O'i ystyried gyda'r trefnau generig ar gyfer sicrhau safonau dyfarniadau, roedd y tîm adolygu'n teimlo bod y sylw a roddwyd i safonau dyfarniadau mewn darpariaeth gydweithredol yn nodwedd o arfer da.

247 Yn ei dogfen hunanwerthusiad, pwysleisiodd y Brifysgol weithrediad cyffredinol y fframwaith rheoleiddio a gweithdrefnol fel y mae wedi'i esbonio yn y Llawlyfr Academaidd sy'n darparu ar gyfer cynnal safonau. O'r ddogfennaeth a welwyd a'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda staff a myfyrwyr gallai'r tîm adolygu gefnogi'r farn hon.

Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu

248 Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Corfforaethol a Dysgu (LCSS), dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu a Chefnogi Myfyrwyr), yn wasanaeth integredig sy'n darparu'r rhwydwaith mewnol i gefnogi darpariaeth technoleg gwybodaeth a llyfrgell y Brifysgol, ynghyd â Grŵp Cynghori Systemau a Gwybodaeth y Gyfarwyddiaeth a'i amrywiol is-grwpiau. Mae cytundeb lefel gwasanaeth yn bodoli i'w ddefnyddio gyda cholegau partner y Brifysgol. Mae adnoddau dysgu arbenigol RWCMD wedi'u rheoli'n lleol o fewn fframwaith eang y Brifysgol.

249 Mae'r disgwyliadau ar gyfer gwella a chynnal a chadw cefnogaeth dysgu i fyfyrwyr wedi'u hesbonio drwy Gynllun Strategol y Brifysgol ac mae gofynion lleol wedi'u disgrifio yn y broses gynllunio strategol flynyddol gan gyfadrannau ac adrannau gwasanaethau. Mae LCSS yn casglu adborth gan staff a myfyrwyr ac yn defnyddio hwn yn ei gynllun gweithredu. Yn gyffredinol, mae'r myfyrwyr yn fodlon gyda'r adnoddau dysgu sydd ar gael. Cafwyd canmoliaeth hefyd i'r defnydd a wneir o'r rhith-amgylchedd dysgu, er bod rhywfaint o amrywiaeth wedi'i nodi yn dibynnu ar lefel yr ymgysylltiad gan staff yn y cyfadrannau.

250 Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n drwm mewn datblygu ac uwchraddio ei fannau dysgu, yn cynnwys agor campws newydd yn 2007, gyda rhagor o fuddsoddiad wedi'i gynllunio. Mae LCSS yn rhoi pwyslais hefyd ar fynediad i adnoddau electronig a chefnogaeth i fyfyrwyr drwy systemau dosranedig a darpariaeth hunanwasanaeth. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol wedi'i hymrwymo'n gryf i fuddsoddiad mewn adnoddau dysgu ffisegol a rhithwir er mwyn gwella ansawdd profiad y myfyriwr.

251 Mae'r Brifysgol yn disgrifio ei disgwyliadau o ran darparu tiwtoriaid a chefnogi myfyrwyr yn ei Llawlyfr Academaidd. Mae'r Brifysgol yn darparu cefnogaeth academaidd drwy amrediad o fecanweithiau, yn cynnwys y canolfannau addysg galw heibio, siopau cyngor cyfadrannol (FAS) a'r system tiwtoriaid personol, gyda chefnogaeth wyneb yn wyneb wedi'i chefnogi gan amrediad o ddefnyddiau ar-lein. Mae myfyrwyr hefyd yn cael y cyfle i wneud cynllunio datblygiad personol ar bob cam o'u dyfarniad. Mae hyfforddiant sgiliau ymchwil drwy'r Brifysgol gyfan ar gael ar gyfer myfyrwyr ôl-radd ond nid yw hyn yn orfodol. Mae'r trefniadau ar gyfer darparu tiwtoriaid personol wedi'u dirprwyo i'r cyfadrannau ac nid ydynt yn dilyn un model unigol. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r gyfadran roi gwybod i'r myfyrwyr sut y mae systemau cefnogi'n gweithredu o fewn eu cyfadrannau. Yn RWCMD mae gan bob myfyriwr diwtor personol. Mae'r Brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn gwneud adolygiad o siopau cyngor cyfadrannol er mwyn hysbysu darpariaeth y dyfodol am gefnogaeth o'r fath i fyfyrwyr. Roedd y myfyrwyr yn fodlon gyda'r amrywiaeth o fecanweithiau ar gyfer cefnogaeth academaidd a daeth y tîm adolygu i'r casgliad eu bod wedi'u cefnogi'n dda. Yn nhermau lles personol, mae'r myfyrwyr yn mynegi boddhad cyffredinol am yr amrediad eang o gefnogaeth a ddarperir gan y Brifysgol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn darparu amrediad eang ac effeithiol o wasanaethau cefnogi personol ac academaidd i fyfyrwyr sy'n tanategu ei hamcanion strategol. Ym marn y tîm, mae ymrwymiad cryf y Brifysgol i amrediad o wasanaethau i gefnogi a gwella profiad y myfyriwr yn nodwedd o arfer da.

252 Mae'r trefniadau ar gyfer penodi, arfarnu a gwobrwyo staff wedi'u sicrhau'n briodol, ac mae'r holl staff newydd yn derbyn ymsefydlu ac arfarniad priodol. Yn achos y staff academaidd sy'n newydd i ddysgu, mae'n ofynnol eu bod yn cyflawni'n llwyddiannus Dystysgrif Ôl-radd y Brifysgol mewn Dysgu ac Addysgu, neu, yn achos y Gyfadran Iechyd, Gwyddoniaeth a Chwaraeon, y Dystysgrif Ôl-radd mewn Addysg. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n gwneud gwaith addysgu'n yn llai eglur ac mae'n ymddangos bod rhywfaint o amrywiaeth mewn arferion.

253 Mae'r Brifysgol wedi egluro ei disgwyliadau ar gyfer staff academaidd yn nhermau gwaith ymchwil ac ysgoloriaethau yng nghysyniad 'Academydd Morgannwg', y disgrifydd a ddefnyddir wrth benodi, arfarnu a dyrchafu'r staff yma. Mae cysyniad 'Rheolwr Morgannwg' wedi'i bennu drwy gyfres o nodweddion rheoli ac arweinyddiaeth. Daeth y tîm adolygu i'r farn bod amcanion y mentrau Rheolwr Morgannwg ac Academydd Morgannwg yn cefnogi nifer o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Strategol y Brifysgol yn uniongyrchol.

254 Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi staff a datblygiad proffesiynol yn nodedig ac wedi'u tanategu gan raglen gynhwysfawr o gyrsiau, gweithdai a chyfleoedd eraill. Clywodd y tîm adolygu sylwadau positif am waith CELT mewn perthynas â datblygiad staff, ar y campws a gyda'r sefydliadau partner. Mae'r RWCMD yn elwa'n uniongyrchol o'r amrediad o gyfleoedd datblygiad proffesiynol a staff sydd ar gael iddo drwy'r Brifysgol. Roedd y tîm yn ystyried aliniad eglur y prosesau sy'n ymwneud â phenodi, cefnogi a datblygu staff gydag amcanion strategol y Brifysgol yn nodwedd o arfer da.

Cyfranogiad allanol mewn trefniadau sicrwydd ansawdd mewnol

255 Yn ogystal â system arholwyr allanol cynhwysfawr y Brifysgol, mae'r Brifysgol hefyd yn ceisio ymgorffori barn annibynnol mewn prosesau cymeradwyo, adolygu, diwygio ac ailddiwygio rhaglenni, ac mewn adolygiadau pwnc sefydliadol. Gofynnir i bob digwyddiad cymeradwyo gynnwys elfen o allanoldeb. Mae natur y cyfraniad, a ydyw drwy sylwadau gan arholwr allanol neu drwy benodiad aelodau allanol ar banelau cymeradwyo, yn dibynnu ar raddfa a natur y cynigion sydd dan sylw. Mae adolygiad cyfnodol o raglenni a meysydd astudio'n gofyn penodi panelwyr allanol. Gallai'r aelodau allanol fod yn bobl academaidd o sefydliadau eraill neu'n ymarferwyr yn y maes.

256 Mae arweiniad ar ddefnyddio aelodau allanol mewn gweithgareddau cymeradwyo ac adolygu i'w gael yn y Llawlyfr Academaidd, ac mae cadeiryddion FQAC a QAC yn cymryd rhan yn y gwaith o gadarnhau'r enwebiadau ar gyfer y rolau yma. Nid yw'r Llawlyfr Academaidd yn rhagnodol mewn perthynas â rhai agweddau o ddefnyddio panelwyr a chynghorwyr allanol felly mae hyn yn gadael lle i bobl ddehongli a gweithredu mewn ffyrdd ychydig yn wahanol.

257 Cadarnhaodd y tîm adolygu bod defnydd y Brifysgol o arholwyr allanol ac aelodau allanol ar banelau cymeradwyo ac adolygu'n gryf a thrwyadl. Mae allanoldeb yn darparu sicrwydd annibynnol o safonau darpariaeth y Brifysgol ac yn sicrhau mynediad i arferion mewn rhannau eraill o'r sector a ddefnyddir i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu.

Defnydd y sefydliad o gyferbwyntiau cenedlaethol

258 Mae'r Brifysgol yn cysylltu ag amrywiaeth eang o gyferbwyntiau cenedlaethol a hefyd yn ceisio cynnal cyfranogaeth sy'n ehangu ac ymrwymiad cyffredinol i gymunedau'r rhanbarth ac anghenion cyflogaeth myfyrwyr a chyflogwyr. Mae polisïau a blaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u hadlewyrchu felly yn strategaeth gyffredinol y Brifysgol ac mae'n ymdrechu i roi sgiliau a phrofiad perthnasol i'r myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth. Mae gan y Brifysgol hefyd Gynllun Iaith Gymraeg sy'n ateb gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y camau y mae'n eu cymryd i hybu'r iaith.

259 Drwy'r QAC, gall y Brifysgol fonitro datblygiadau yn y Rhwydwaith Mewnol Academaidd a sicrhau bod aliniad wedi'i gynnal gyda'r *Cod Ymarfer* yn ei phrosesau, ei gweithdrefnau a'i rheoliadau. Mae *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)* yn hysbysu strwythurau gradd y Brifysgol a'i Pholisi Asesu a'i gweithdrefnau. Defnyddir datganiadau meincnod pwnc hefyd, pan fyddent ar gael, i hysbysu cynllun a darpariaeth rhaglenni a dyfarniadau. Mae manylebau rhaglenni a disgrifwyr modiwl yn eu lle ar gyfer rhaglenni ac mae'n rhaid dilyn y rhain i sicrhau cymeradwyaeth.

260 Mae gan y Brifysgol amrediad llawn o brosesau sicrhau ansawdd i ddiogelu ansawdd a safonau ei darpariaeth ymchwil a'i darpariaeth a addysgir. Mae'r prosesau yma wedi'u dylanwadu yn eu ffurfiad a'u gweithrediad gan amrediad eang o gyferbwyntiau allanol, er nad yw'r dogfennau a gynhyrchir o brosesau o'r fath yn cofnodi natur neu effaith dylanwadau o'r fath yn eglur bob amser. Mae gan y Brifysgol achrediad gan amrediad eang o gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, sydd, oherwydd ei lleoliad cyffredinol, yn ymestyn at gyfran sylweddol o'r ddarpariaeth a addysgir.

261 Mae'r Brifysgol yn datgan bod ei 'fframwaith ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd academaidd yn rhoi ystyriaeth briodol i bwyntiau cyfeirio allanol' a'i bod yn 'adlewyrchu egwyddorion a disgwyliadau'r fframweithiau yma yn ei dyfarniadau, er bod rhai gwahaniaethau mewn enwau a manylion'. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad o'r dystiolaeth oedd ar gael iddo fod y disgrifiad a roddwyd gan y Brifysgol yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa.

Sylwadau am fwriadau'r sefydliad i wella ansawdd a safonau

262 Disgrifiodd dogfen hunanwerthusiad y Brifysgol sefydliad sydd wedi'i ymrwymo'n gryf i'w fyfyrwyr ac i wella'r adnoddau a'r cyfleusterau dysgu y mae'n eu cynnig yn barhaus. Mae'r Cynllun Strategol yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i wella profiad y myfyriwr. Drwy'r Prosiect Disgwyliadau'r Myfyriwr a'i ganlyniadau mae'r sefydliad wedi dangos parodrwydd i wrando ar fyfyrwyr ac ymateb i'w hanghenion.

263 Mae ymrwymiad y Brifysgol i wella wedi'i ddangos ar nifer o lefelau. Darperir arweinyddiaeth ac arolygiad gan y Pwyllgor Gwella Ansawdd a phwyllgorau profiad myfyrwyr, addysgu a dysgu'r cyfadrannau. Mae penaethiaid dysgu ac addysgu'n hybu ac yn cefnogi gwelliant yn eu cyfadrannau, ac mae'r Ganolfan Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu'n darparu arweiniad a chefnogaeth drwy brosiectau lledaenu gwybodaeth a mentrau datblygiad staff ar draws y sefydliad cyfan ac yn ei sefydliadau partner. Cafwyd buddsoddiad sylweddol drwy ddatblygiadau strategol megis ATRiuM,

y ganolfan ar gyfer yr Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol yng Nghaerdydd, siopau cyngor cyfadrannol a chanolfannau addysg galw heibio, a sianelau cyfathrebu digidol sy'n cynnwys 'GlamLife' a phorth y myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn cadarnhau gwerth y mesurau yma, sy'n dangos gallu'r Brifysgol i gynllunio a rheoli ymatebion sylweddol i anghenion ei chorff myfyrwyr. Rhoddwyd cyfleoedd eang i wella i'r staff, yn arbennig y mentrau Academydd Morgannwg a Rheolwr Morgannwg a darpariaeth gref o weithgareddau datblygu staff.

264 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol wedi dangos y gallu i gynllunio a gweithredu gwelliannau ar lefelau sefydliadol a chyfadrannol. Mae hyn, wedi'i gefnogi gan ei pharodrwydd parhaus i wrando ar ei myfyrwyr, yn sefydlu sylfaen gref ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth

265 Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwybodaeth gyfredol, gywir a dibynadwy i'w rhanddeiliaid. Mae'r broses o sicrhau ansawdd a chywirdeb gwybodaeth a gyhoeddir o fewn y Brifysgol yn cynnwys amrediad o gyrff, gan gynnwys Grŵp Cynghori Systemau a Gwybodaeth y Gyfarwyddiaeth, yr Adran Farchnata a Recriwtio Myfyrwyr, a'r cyfadrannau. Mae datblygu'r ddarpariaeth wybodaeth i randdeiliaid wedi elwa ar nifer o achlysuron, o gasglu adborth gan ddefnyddwyr.

266 Trwy ddefnyddio cyfryngau copi caled ac electronig, mae'r Brifysgol yn sicrhau bod amrediad llawn o wybodaeth berthnasol ar gael i fyfyrwyr, yn y Saesneg a, lle bo'n briodol yn y Gymraeg, gyda'r rhagolwg y bydd pyrth myfyrwyr unigol yn golygu bod modd personoleiddio'r wybodaeth hon yn y dyfodol. Gan y cyfadrannau y mae'r cyfrifoldeb am gywirdeb llawlyfrau myfyrwyr i fyfyrwyr ar y campws ac mewn mannau eraill, ond nid yw'n eglur bob amser a gaiff gwybodaeth o'r fath ei harwyddo'n ffurfiol bob amser. Fodd bynnag, roedd y myfyrwyr yn barnu'n unfrydol bod yr wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn gan y sefydliad yn gynhwysfawr, defnyddiol a chywir.

267 O adolygiad o'r wybodaeth berthnasol a gyhoeddwyd yn allanol, ac a dynnwyd o ddata a ddarparwyd gan y Brifysgol, roedd hi'n amlwg bod y Brifysgol yn gallu cyflawni gofynion asiantaethau allanol megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Unistats, a Gwybodaeth am Ansawdd Addysgu. Roedd y data'n cyfateb â disgwyliadau cenedlaethol cyfredol ac yn cysylltu gyda'r hyn oedd ar gael yn fewnol.

Defnyddio'r ddogfen hunanwerthusiad i ddangos gallu'r sefydliad i adlewyrchu ar ei gryfderau a'i gyfyngiadau ei hun, ac i ddefnyddio'r canfyddiadau i wella ansawdd a safonau

268 Roedd y ddogfen hunanwerthusiad yn darparu cyfrif disgrifiadol da o systemau'r Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau academaidd. Roedd ei naws yn hyderus ac roedd hi'n honni nifer o gryfderau. Er nad oedd y ddogfen hunanwerthusiad yn hynod o werthusol, roedd agweddau eraill o ymwneud y tîm adolygu â'r Brifysgol yn dangos gallu sefydliadol i adlewyrchu'n hunan-feirniadol.

Nodweddion yr arferion da

269 Nodwyd y nodweddion arferion da canlynol:

- y mecanweithiau sydd ar waith i gynnal safonau academaidd dyfarniadau ar draws y sefydliadau partner (paragraffau 82-84, 214)
- cryfhau cynrychiolaeth y myfyrwyr, yn arbennig drwy rolau'r Cydlynydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Llais y Myfyriwr (paragraffau 111, 112, 117, 235)
- aliniad clir y prosesau sy'n ymwneud â phenodi, cefnogi a datblygu staff gydag amcanion strategol y Brifysgol (paragraffau 150, 156, 159, 188, 253, 254)
- ymrwymiad cryf i amrediad o wasanaethau i gefnogi a gwella profiad y myfyriwr (paragraffau 181, 187, 197, 250, 251).

Argymhellion ar gyfer gweithredu

270 Argymhellion ar gyfer camau a fyddai'n llesol:

- sicrhau bod yr arolygiad sefydliadol o ganlyniadau sicrhau ansawdd yn fwy eglur (paragraffau 31, 49, 73, 109, 116, 171, 202, 219, 234, 242, 260)
- adolygu prydlondeb arwyddo'r Memoranda Dealltwriaeth gyda phartneriaid cydweithredol er mwyn sicrhau bod trefniadau cytundebol yn eu lle cyn i fyfyrwyr ar raglenni cydweithredol gael mynediad (paragraffau 208, 237)
- sicrhau cysondeb arferion ar draws y ddarpariaeth gydweithredol yn unol â gofynion sicrhau ansawdd y Brifysgol (paragraffau 209, 210, 219, 237).

271 Argymhellion ar gyfer camau a fyddai'n ddymunol:

- adolygu datblygiad arferion y gyfadran yn barhaus er mwyn gwella profiad y myfyriwr ymhellach (paragraffau 39, 236, 266).

Atodiad

Ymateb Prifysgol Morgannwg i'r adroddiad ar yr Adolygiad Sefydliadol

Mae'r Brifysgol yn croesawu canlyniad hynod gadarnhaol yr Adolygiad Sefydliadol fel y mae wedi'i ddisgrifio'n fanwl yn yr adroddiad. Mae'n bleser ganddi glywed bod modd rhoi hyder yng nghadernid rheolaeth gyfredol y Brifysgol, a'i rheolaeth debygol yn y dyfodol, ar ansawdd ei rhaglenni academaidd a safonau academaidd ei dyfarniadau. Mae'n bleser gan y Brifysgol weld hefyd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o feysydd o arferion da, gan gynnwys y mecanweithiau sydd ar waith i gynnal safonau academaidd dyfarniadau ar draws ei rhwydwaith o bartneriaid cydweithredol ym Mhrydain a thramor. Mae'r Brifysgol yn croesawu'r sylwadau positif hefyd am ein hymrwymiad cryf i amrediad o wasanaethau sy'n cefnogi a gwella profiad ein myfyrwyr, ein cynrychiolaeth gryfach o'r myfyrwyr ar bob lefel ac aliniad clir y prosesau sy'n gysylltiedig â phenodi, cefnogi a datblygu staff gydag amcanion strategol y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn cymryd camau priodol i ystyried argymhellion yr adroddiad. Bydd yn adeiladu ar y nodweddion o arfer da a amlygwyd fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

Hoffai'r Brifysgol ddiolch i'r tîm adolygu am fod mor drwyadl wrth ymgymryd â'r adolygiad.